Llywodraeth y DU

# Ein Plant, Ein Dyfodol

## Trechu Tlodi Plant









Rhagfyr 2025




CP 1449

Government of the United Kingdom

# Ein Plant, Ein Dyfodol

## Trechu Tlodi Plant

Cyflwynwyd i Senedd y DU gan Pat McFadden, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau a Bridget Phillipson, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, drwy Orchymyn Ei Fawrhydi

Rhagfyr 2025

CP 1449

OGL

© Hawlfraint y Goron 2025

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/opengovernment-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn childpoverty.secretariat@cabinetoffice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-5673-3

E03347909 12/25

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ddeunydd ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair gan y Prif Weinidog | 5 |
| Rhagair gan Gyd-gadeiryddion y Tasglu Tlodi Plant | 7 |
| Rhagair gan rieni sy’n rhan o Changing Realities | 9 |
| Crynodeb Gweithredol | 11 |
| Pennod 1: Maint yr her a’r achos dros newid | 19 |
| Pennod 2: Lleihau tlodi plant mewn partneriaeth | 27 |
| Pennod 3: Cynyddu incwm teuluoedd | 39 |
| Pennod 4: Lleihau costau hanfodion | 59 |
| Pennod 5: Atgyfnerthu cymorth lleol i deuluoedd | 85 |
| Pennod 6: Gobaith ar gyfer y dyfodol | 106 |

# Rhagair gan y Prif Weinidog

Mae hanes diweddar tlodi plant ym Mhrydain yn syml. Llwyddodd y Llywodraeth Lafur ddiwethaf i godi tua 600,000 o blant allan o dlodi. Ond, ers 2010, mae nifer y plant sydd mewn tlodi wedi cynyddu 900,000 gan olygu bod tua 4.5 miliwn o blant mewn tlodi ar hyn o bryd. Mae hynny'n dystiolaeth syfrdanol o fethiant polisïau'r Llywodraeth flaenorol. Mae'r ystadegau eu hunain yn ddigon dychrynllyd, ond meddyliwch am y gost ddynol unigol. Meddyliwch am y prydau bwyd a gollwyd. Yr ystafelloedd gwely oer. Y wisg ysgol sy'n rhy fach neu wedi'i gwisgo at yr edau. A ddylai hyn fod yn digwydd yn ein gwlad ni mewn gwirionedd?

Yr ateb pendant, o ran egwyddorion sylfaenol a thystiolaeth, yw na ddylai. Felly, mae'r strategaeth tlodi plant hon yn nodi llwybr gwahanol ar gyfer Prydain. Ceir pedair dadl o'i phlaid.

Y gyntaf yw'r ddadl foesol sylfaenol. Credaf mai un o werthoedd sylfaenol Prydain yw y dylai ein plant gyflawni hyd eithaf eu doniau. Byddwn yn dweud hyn wrth ein plant ein hunain. "Gweithiwch yn galed ac fe allwch chi gyflawni unrhyw beth." Ond mae tlodi'n rhwystr enfawr sy'n atal potensial. Wedi'r cyfan, os byddwch yn cyrraedd eich ystafell ddosbarth yn llwglyd neu wedi blino ar ôl cysgu mewn gwely oer, ni fyddwch yn y sefyllfa orau i ddysgu. Ni ddylem dderbyn hynny.

Yn ail mae'r ddadl economaidd. Fel y nodir yn fanwl yn y strategaeth hon, mae trechu tlodi plant yn fuddsoddiad call yn nyfodol y wlad. Mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir y bydd plant a gaiff eu magu ar aelwydydd tlotach yn ennill llai na'u cyfoedion pan fyddant yn 30 oed. Maent hefyd yn fwy tebygol o dreulio eu blynyddoedd cyntaf fel oedolion heb fod mewn gwaith, hyfforddiant neu addysg. Drwy fuddsoddi yn eu potensial nawr, gallwn wella eu cyfleoedd bywyd ac atgyfnerthu ein heconomi ar gyfer y tymor hir.

Yn drydydd mae'r ddadl ynghylch gwasanaethau cyhoeddus. Cafodd ei chyfleu'n glir i mi yn ystod ymweliad ag ysbyty yn ddiweddar. Dywedodd y staff wrthyf yn blwmp ac yn blaen eu bod yn trin nifer eithriadol o uchel o blant oherwydd cyflyrau sy'n gysylltiedig â thlodi. Unwaith eto, mae hyn yn enghraifft ddychrynllyd o Brydain dan arweiniad y Llywodraeth flaenorol. Ond mae hefyd yn dangos y gall trechu tlodi plant helpu i leddfu pwysau ar ein gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r ddadl olaf yn ymwneud â chostau byw. Oherwydd, yn ogystal â'r cynnydd mewn niferoedd, mae natur tlodi ym Mhrydain wedi newid dros y degawdau diwethaf hefyd. Hyd yn oed heddiw, pan fyddwn yn dychmygu sut beth yw tlodi, mae'n debygol y byddwn yn meddwl am bobl sy'n ddi-waith yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, y gwir amdani yw bod bron i dri chwarter y plant sydd mewn tlodi bellach yn perthyn i deuluoedd sy'n gweithio. Hynny yw, teuluoedd lle mae'r rhieni'n gwneud y peth cywir, yn gweithio'n fwyfwy caled, ond yn gweld nad yw eu cyflog yn ddigon i dalu eu costau hanfodol. Felly, rhaid ystyried bod lleihau tlodi plant yn rhan hanfodol o uchelgeisiau ehangach y Llywodraeth i fynd i'r afael â chostau byw ar gyfer pobl sy'n gweithio.

Am yr holl resymau hynny a mwy, rwy'n falch o gyhoeddi'r strategaeth hon. Fe'i lluniwyd mewn partneriaeth â phobl y mae'r materion a drafodir ynddi wedi cael effaith uniongyrchol arnynt. Mae'n symbol o'r addewid a wnaethom i bobl Prydain,

sef bod Prydain yn haeddu newid, a bod y Llywodraeth hon yn ymroddedig i ddatgloi'r potensial sydd gan bob un ohonom.



**Keir Starmer**
Prif Weinidog y Deyrnas Unedig

# Rhagair gan Gyd-gadeiryddion y Tasglu Tlodi Plant

Dychmygwch ddyfodol lle nad yw tlodi'n rhwystr rhag cyfleoedd. Lle y caiff pob plentyn yr un cyfleoedd mewn bywyd. Lle na fydd cefndir yn dylanwadu ar lwyddiant yn y dyfodol. Lle y bydd pob plentyn yn dechrau'r diwrnod yn barod i ddysgu, ar ôl cael brecwast da a chysgu mewn gwely cynnes. Lle na fydd yn rhaid i deuluoedd boeni'n barhaus ynghylch sut y byddant yn talu'r biliau neu'n rhoi bwyd ar y bwrdd. Lle y bydd pob rhiant sy'n gallu gweithio yn cael y cymorth cywir i ddod o hyd i swyddi a chamu ymlaen ym myd gwaith. Lle y bydd y wladwriaeth les yn codi teuluoedd allan o dlodi yn hytrach na'u dal yn ôl.

Dyna'r dyfodol rydyn ni'n ei greu. Mae'r strategaeth hon yn nodi ein cynllun ar gyfer cyflawni hynny – gwella bywydau a chyfleoedd bywyd plant a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi plant dros y degawd nesaf. Bydd yn rhoi adnoddau i rieni, a chyfleoedd i blant, er mwyn llywio dyfodol gwell a lleihau'r effeithiau niweidiol parhaol ar ragolygon plant yn sgil byw mewn tlodi. Mae hynny'n golygu rhoi mwy o arian ym mhocedi'r teuluoedd tlotaf, lleihau baich costau hanfodol, ac atgyfnerthu cymorth lleol.

Ers mis Gorffennaf 2024, rydym wedi cymryd camau pwysig. Mae hynny'n cynnwys codiadau i'r Cyflog Byw Cenedlaethol, y cynnydd cyntaf erioed uwchlaw chwyddiant i gyfradd sylfaenol Credyd Cynhwysol, a phecyn newydd gwerth £1 biliwn ar gyfer Cronfa Argyfwng a Gwydnwch. Drwy ddiddymu'r cap dau blentyn, byddwn yn codi 450,000 o blant allan o dlodi. Bydd y nifer hwnnw'n cynyddu diolch i fesurau eraill a gyflwynir gennym, fel prydau ysgol am ddim i'r holl blant o deuluoedd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, help i dalu biliau ynni, ac ehangu gofal plant am ddim er mwyn i fwy o rieni allu gweithio.

Byddai rhai pobl yn dweud na allwn fforddio gweithredu i drechu tlodi. Mae'r Llywodraeth Lafur hon yn credu mai'r gost yn sgil peidio â gwneud dim byd yw'r hyn na all ein gwlad, ein cymdeithas, ein heconomi, a chenedlaethau'r dyfodol ei fforddio. Pan fydd plant yn tyfu i fyny heb y pethau sydd eu hangen arnynt i fod yn hapus, yn iach ac yn llwyddiannus, byddant yn llai tebygol o wneud yn dda yn yr ysgol, y coleg neu'r brifysgol. Byddant yn llai tebygol o gael swydd pan fyddant yn gadael byd addysg. A bydd yn llai tebygol y bydd eu hiechyd meddwl neu eu hiechyd corfforol yn dda. Mae'r gost o ran iechyd gwaeth, cyrhaeddiad addysgol gwaeth, sgiliau is ac enillion is yn uchel. Mae hynny'n ofnadwy i bobl, yn ddrud yn ariannol, ac yn niweidiol yn economaidd.

Mae trechu tlodi yn fuddsoddiad yn nyfodol y plant hynny ac yn y wlad. Er mwyn tyfu ein heconomi, mae angen i ni sicrhau y gall ein plant – gweithlu'r wlad yn y dyfodol – dyfu, llwyddo a ffynnu eu hunain. Mae'r profiad ers 2010, lle mae tlodi plant wedi cynyddu 900,000, wedi dangos bod y gost sy'n deillio o dlodi yn un na all ein cymdeithas na'n gwlad ei fforddio.

Yn lle hynny, mae'r Llywodraeth yn buddsoddi ymlaen llaw er mwyn osgoi costau argyfwng, sef costau methiant. Rydym yn diwygio gofal cymdeithasol plant er mwyn ymyrryd yn gynharach a helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd lle bynnag mai



hynny yw'r ateb sy'n gweithio orau i blant. Rydym yn cyflwyno Canolfannau Teuluol Dechrau Gorau, gan adfywio Cychwyn Cadarn ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Rydym yn cyflwyno clybiau brecwast am ddim a channoedd yn rhagor o feithrinfeydd ar safleoedd ysgolion er mwyn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i fwy o blant. Rydym yn buddsoddi mewn cannoedd ar filoedd o gartrefi newydd. Rydym yn ymrwymo o'r newydd i leihau rhestrau aros y GIG a helpu pobl i aros yn iach mewn gwaith er mwyn osgoi mynd yn sâl. Rydym yn buddsoddi yn swyddi'r dyfodol, ac mewn cymorth iechyd, cyflogaeth a sgiliau cydgysylltiedig er mwyn i bobl, yn arbennig pobl ifanc, ddechrau gweithio a llwyddo yn y swyddi hynny.

Dyma beth a olygwn pan fyddwn yn dweud bod arnom eisiau Gwladwriaeth Les sy'n Cynnig Cyfleoedd, ac sydd nid yn unig yn diogelu pobl yn ystod cyfnodau anodd ond hefyd yn cynnig llwyfan i bobl godi a newid straeon eu bywydau a'u cymunedau er gwell.

Rydym yn falch bod y strategaeth hon wedi cael ei datblygu mewn partneriaeth â chymdeithas sifil a sefydliadau cymunedol sydd wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod plant yn iach, yn cael eu bwydo, ac yn hapus yn wyneb adfyd eithafol, am fod llywodraethau blaenorol wedi gwingo rhag eu cyfrifoldebau. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r plant a'r teuluoedd sydd wedi trafod eu profiadau gyda'r Tasglu Tlodi Plant drwy gydol y broses.

Mae dwy nod, sef cyfle a sicrwydd, wedi bod yn greiddiol i bob llywodraeth Lafur, ac maent yn greiddiol i'r strategaeth hon – a fydd yn helpu i greu Prydain lle y bydd plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, a phob cyfle i lwyddo a ffynnu.



**Pat McFadden**
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau



**Bridget Phillipson**
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg

# Rhagair gan rieni sy'n rhan o Changing Realities

A ninnau'n rhieni i blant sydd mewn tlodi, mae bod yn rhan o'r broses o ddatblygu'r strategaeth hon wedi rhoi cyfle i'w groesawu i ni gynrychioli llawer o bobl eraill sy'n wynebu anawsterau tebyg o ddydd i ddydd. Gwyddom fod ein straeon yn rhy debyg o lawer.

Rydym yn rhan o Changing Realities, sef ymgyrch gydweithredol sy'n pwyso am newid cadarnhaol ac sy'n cynnwys dros 200 o rieni a gofalwyr sy'n byw ar incwm isel, yn gweithio gydag ymchwilwyr academaidd. Drwy gydol y broses, rydym wedi cyfrannu ein lleisiau, ein profiadau a'n syniadau, a hynny'n aml gan rannu gwirioneddau anodd ynglŷn â sut beth yw bywyd mewn gwirionedd. Mae tlodi plant yn bodoli, yn cynyddu ac yn ffynnu o fewn isgerrynt ebargofiant. Mae taer angen dod ag ef i'r wyneb ac i flaen meddyliau pobl. Drwy fod yn rhan o'r broses hon, rydym wedi dangos bod y wybodaeth sydd gennym i'w chynnig yn werthfawr ac yn angenrheidiol. Rydym wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau gwrando a chydweithio gwirioneddol, ac mae wedi bod yn galonogol teimlo y gall ein profiadau bywyd ddylanwadu ar atebion polisi, ac y dylai hynny ddigwydd.

Ar hyn o bryd, mae'n teimlo fel pe baem yn wynebu her feunyddiol i daro cydbwysedd rhwng cadw'r tŷ'n gynnes, rhoi bwyd ar y bwrdd, a thalu costau byw sylfaenol. Rydym yn gwneud penderfyniadau na ddylai neb orfod eu gwneud. Ond, fel pob rhiant, mae'r pethau sydd eu heisiau arnom yn syml: i'n plant gael eu magu mewn cartref sy'n gynnes, lle y gallant ganolbwyntio ar ddysgu




a chwarae yn hytrach na phoeni am yr hanfodion na allwn eu fforddio.

Ond rhaid i ni beidio â llaesu dwylo a bodloni ar hynny. Er mwyn y plant sy'n dibynnu ar benderfynwyr, rhaid i bob un ohonom eu rhoi nhw yn gyntaf – codi llais yn hytrach nag eistedd yn ôl – a sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau dyfodol llawn gobaith i'n plant.


Mae bod yn rhan o'r strategaeth hon wedi atgyfnerthu ein cred mai pan gaiff polisïau eu llywio gyda phobl, ac nid dim ond ar eu cyfer, y daw atebion parhaol. Rydym yn falch o fod wedi cyfrannu ac rydym yn parhau i fod yn obeithiol y byddwn, drwy rannu ein profiadau, yn helpu i greu dyfodol gwell i bob plentyn.

Gall newidiadau sy'n ymddangos yn fach gael effaith enfawr ar deuluoedd fel ni. Yn wyneb rhenti uchel, biliau bwyd ac ynni cynyddol, yn ogystal â chostau gofal plant, nid yw cyflogau amser llawn yn ddigon bob amser, ac mae cymorth gan y Llywodraeth yn hanfodol. Mae'r strategaeth hon yn dechrau ar y gwaith o godi pwysau tlodi oddi ar ysgwyddau miliynau o deuluoedd. Yn sgil rhai o'r newidiadau, gall teuluoedd fel ni ddechrau anadlu eto, a byw ag urddas, yn hytrach na dim ond goroesi. Hoffai pob un ohonom deimlo sicrwydd gwybod na fyddwn mewn argyfwng os bydd rhywbeth yn torri neu os bydd bil yn codi. Yn anad dim, rydym am i'n plant gael cyfleoedd heb fod yn rhaid i ni ddweud "na, ddim nawr" drwy'r amser.

Dim ond un plentyndod gawn ni, ond bydd ei effeithiau – boed yn dda neu'n ddrwg – yn para oes. Gadewch i ni wneud yn siŵr bod ein plant i gyd yn cael y plentyndod gorau posibl. Fel rhieni ac ymgyrchwyr, byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu i sicrhau hynny, ac rydym yn galw ar y Llywodraeth i wneud yr un peth.




**Kim**
mam i bedwar o blant, o Gymru



**Ella**
mam i ddau o blant, o Loegr



**Jonny**
tad i ddau o blant, o Loegr



**Tayyaba**
mam i un plentyn, o Loegr

# Crynodeb Gweithredol

Yn fuan ar ôl yr etholiad, sefydlodd y Prif Weinidog y Tasglu Tlodi Plant er mwyn dod â llywodraethau ac arbenigwyr ynghyd i archwilio sut y gallai'r Llywodraeth ddefnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael iddi i leihau tlodi plant. Fel y dywedodd ar y pryd, mae plant wedi cael eu gadael ar ôl ers gormod o amser, ac nid oes camau pendant wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi plant.

Y strategaeth hon yw'r cam cyntaf tuag at drechu tlodi plant, ac mae'n cyflawni'r ymrwymiad i leihau tlodi plant yn ystod y senedd hon. Bydd y strategaeth yn codi 550,000 o blant allan o incwm cymharol isel ym mlwyddyn olaf y senedd, a bydd yn arwain at y lleihad mwyaf mewn tlodi plant gan unrhyw lywodraeth mewn un senedd. Bydd incymau aelwydydd tua 7.1 miliwn o blant yn cynyddu yn ystod blwyddyn olaf y senedd o ganlyniad i'r strategaeth, gan gynnwys 1.4 miliwn o blant sydd mewn tlodi materol dwfn.[1]

## Yr achos dros newid

Mae gan y DU gyfraddau tlodi plant uwch na'r rhan fwyaf o wledydd cymaradwy'r Undeb Ewropeaidd a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.[2] Mae bron i draean (31%) o blant mewn incwm cymharol isel yn y DU.[3,a]

Mae peidio â gweithredu yn y maes hwn yn gostus iawn. Mae plentyn sy'n cael ei



a Yn seiliedig ar incwm cymharol isel ar ôl costau tai.



fagu mewn tlodi yn fwy tebygol o wynebu problemau iechyd meddwl ac iechyd corfforol[4], gwneud yn waeth yn yr ysgol,[5] gweithio llai, ennill llai na'i gyfoedion yn y pen draw[6] a bod yn ddigartref.[7] Mae hyn yn wael i blentyndod ac yn wael i ddyfodol pob un ohonom: rydym am weithredu er mwyn rhoi cyfle i bob plentyn gael plentyndod cadarnhaol, a sicrhau y caiff ei gefnogi i dyfu'n oedolyn a all ffynnu a gwneud cyfraniad cadarnhaol. Mae'n hanfodol i ffyniant economaidd y wlad.

Mae lleihau tlodi plant yn rheidrwydd moesol: mae lleihau effaith tlodi nawr ar iechyd, hapusrwydd a disgwyliad oes plant yn fater allweddol sy'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol a chyfle, gan sicrhau bod gan bob plentyn siawns o lwyddo. Mae hefyd yn hanfodol i ffyniant economaidd y Deyrnas Unedig yn y dyfodol.

Daw effaith tlodi plant ar gyrhaeddiad addysgol i'r amlwg yn gynnar. Erbyn eu pen-blwydd yn 5 oed, bydd plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim eisoes bum mis ar ei hôl hi ac, erbyn iddynt gyrraedd 16 oed, bydd y bwlch hwnnw wedi ehangu i fwy nag 19 mis.[8] Mewn teuluoedd sydd â'r incymau isaf, dim ond un plentyn o bob pedwar fydd yn ennill graddau TGAU da gan gynnwys Saesneg a Mathemateg. Ar gyfer plant yn y teuluoedd sydd â'r incymau uchaf, bron i dri o bob pedwar yw'r ffigur.[9] Fel oedolion, mae'r rhai a gafodd eu magu mewn tlodi yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith neu mewn swyddi llai medrus sy'n talu llai.[10,11] O blith y plant sy'n mynychu ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth, bydd y rhai a gafodd brydau ysgol am ddim yn ennill tua 25% yn llai pan fyddant yn 30 oed o gymharu â'r rhai na chawsant brydau ysgol am ddim. Llwyddiant addysgol yw'r rheswm dros y bwlch hwn i raddau helaeth, ond nid yn gyfan gwbl.[12] Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn amcangyfrif y gallai gymryd pum cenhedlaeth yn y DU, ar sail y cyfraddau symudedd cymdeithasol presennol, i blentyn o'r 10% o deuluoedd tlotaf gyrraedd yr incwm cyfartalog cenedlaethol.[13]

Mae tlodi plant yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd gwaeth. Mae plant sy'n byw yn

yr ardaloedd â'r mwyaf o amddifadedd ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn ordew[14] a ddwywaith yn fwy tebygol o gael pydredd dannedd na'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd â'r lleiaf o amddifadedd.[15] Bydd yr anghydraddoldebau hyn yn parhau drwy gydol oes. Pan gymharir ardaloedd bach yn y rhannau o'r wlad sydd â'r mwyaf a'r lleiaf o amddifadedd, mae'r bwlch mewn disgwyliad oes iach ar adeg genedigaeth i fenywod yn Lloegr wedi cynyddu i 19.6 mlynedd (rhwng 2017-19 a 2020-2022).[16]

Bydd trechu tlodi plant yn lleddfu caledi ac yn gwella bywydau plant a'u teuluoedd nawr, gan osod y sylfeini ar gyfer adferiad cenedlaethol fel rhan o'r dull systemau cyfan rydym yn ei ddilyn er mwyn: torri'r cysylltiad rhwng cefndir teuluol a llwyddiant, gwella disgwyliad oes, a sbarduno twf economaidd parhaus.

Nod y strategaeth hon yw creu'r amodau i bob teulu allu torri eu cwys eu hunain, gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u dyfodol eu hunain, a mwynhau'r dewisiadau a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil rheolaeth wirioneddol. Mae rhieni'n bartneriaid hollbwysig er mwyn sicrhau'r newid hwn. Bydd y gwaith hwn yn newid y trywydd rydym arno, gan atgyweirio'r system nawr a lleihau tlodi plant yn ystod y senedd hon.

## Tueddiadau hanesyddol o ran tlodi plant

Roedd cyfraddau tlodi plant[b] yn y DU yn gymharol isel yn ystod y 1960au a'r 1970au. Bu cynnydd yn ystod y 1980au ac, erbyn 1997, roedd plant yn fwy tebygol o fod mewn tlodi na phobl o oedran gweithio neu bensiynwyr.[17]

Fodd bynnag, erbyn 2010/11, roedd nifer y plant mewn tlodi wedi lleihau 600,000 o gymharu â 1997/98.[18]

Ers 2010, yn sgil cyfres o newidiadau strwythurol, toriadau i wasanaethau cyhoeddus a nawdd cymdeithasol a diffyg twf economaidd, cynyddodd cyfraddau tlodi plant unwaith eto. Yn 2023/24, roedd 4.5 miliwn o blant mewn incwm cymharol isel ar ôl costau tai, sef 900,000 yn fwy nag yn 2010/11,[19] a dwy filiwn o blant mewn tlodi materol dwfn.[20]

Mae'r her tlodi plant sy'n ein hwynebu heddiw yn wahanol i'r un a oedd yn ein hwynebu ddau ddegawd yn ôl. Yn 2000, roedd hanner y plant mewn tlodi yn byw ar aelwydydd heb waith ond, heddiw, mae bron i dri chwarter[21] y plant mewn tlodi yn perthyn i deulu sy'n gweithio.

Heb i gamau pendant gael eu cymryd, mae amcanestyniadau allanol yn awgrymu y bydd tlodi plant yn cynyddu ymhellach fyth yn ystod y senedd hon, gan nesáu at gyfraddau uwch nag erioed o'r blaen.[22]

## Camau gweithredu rydym yn eu cymryd

Er bod y strategaeth hon yn nodi ein cynllun ar gyfer mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi plant, mae angen i deuluoedd sydd mewn tlodi gael cymorth gennym ar unwaith. Os na fyddwn yn gweithredu, bydd miloedd yn rhagor o blant yn mynd i galedi, a chaiff y gost ei theimlo am ddegawdau: sgiliau is, enillion is, ac iechyd gwaeth, a cholli biliynau yn sgil gwastraffu potensial.

Er mwyn gostwng cyfraddau tlodi plant yn ystod y senedd hon, byddwn yn gweithredu ar unwaith i ddiddymu'r cap dau blentyn, gan godi 450,000 o blant allan o dlodi cymharol yn ystod y senedd hon. Bydd tua dwy filiwn o blant yn byw ar aelwydydd a fydd yn gweld cynnydd mewn incwm o ganlyniad i ddiddymu'r cap dau blentyn,

b Mesurwyd yn seiliedig ar incwm cymharol isel ar ôl costau tai, oni nodir fel arall.

gan gynnwys 600,000 o blant mewn tlodi materol dwfn.[23]

Diddymu'r cap yw'r ffordd fwyaf costeffeithiol o ostwng cyfraddau tlodi plant – a dyma'r peth cywir i'w wneud. Yn y Brydain fodern, ni ddylai nifer y brodyr a chwiorydd sydd gan blentyn benderfynu p'un a fydd yn llwglyd heno ai peidio.

Teuluoedd sydd mewn gwaith yw'r mwyafrif a fydd yn cael budd o ddiddymu'r cap.

Mae'r buddsoddiad hwn yn gyfystyr â blaendal ar ddyfodol Prydain. Bydd peidio â gwneud dim byd yn costio llawer mwy i'r DU na buddsoddi nawr, gan y bydd pob punt a gaiff ei gwario gennym ar godi plant allan o dlodi yn arbed llawer mwy mewn gwell iechyd, cyrhaeddiad addysgol, a chanlyniadau cyflogaeth – ac yn gosod sylfaen fwy cadarn ar gyfer ein heconomi yn y dyfodol.

O ystyried bod y ffactorau sy'n achosi tlodi plant ac effeithiau tlodi plant yn amlweddog, mae'r Llywodraeth wedi defnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi plant a lleddfu ei symptomau. Dros y 15 mis diwethaf, mae'r Llywodraeth wedi blaenoriaethu camau i gynyddu incymau teuluoedd, lleihau costau hanfodion ac atgyfnerthu cymorth lleol.

## Cynyddu incymau teuluoedd

Er mwyn sicrhau y caiff incymau teuluoedd eu cynyddu fel y bydd plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd, yn ogystal â diddymu'r cap dau blentyn mae'r Llywodraeth wedi gwneud y canlynol:

- cynyddu'r Cyflog Byw Cenedlaethol 6.7% i £12.21 o fis Ebrill 2025 ar gyfer yr enillwyr incwm isaf, gan arwain at gynnydd pellach i £12.71 yr awr o fis Ebrill 2026 ymlaen
- atgyfnerthu hawliau yn y gwaith drwy'r Bil Hawliau Cyflogaeth, er mwyn mynd i'r afael ag ansicrwydd a chreu mwy o swyddi sicr ledled y DU
- cyflwyno'r cynnydd parhaus cyntaf erioed uwchlaw chwyddiant i gyfradd sylfaenol Credyd Cynhwysol, yr amcangyfrifir y bydd yn werth £725 y flwyddyn mewn termau arian parod i riant sengl 25 oed neu hŷn, neu £1135 i gwpl sydd â phlant erbyn 2029/30
- rhoi'r Gyfradd Ad-dalu Teg ar gyfer Credyd Cynhwysol ar waith o fis Ebrill 2025 ymlaen, sef newid a ostyngodd y cap ar ddidyniadau o 25% i 15% o lwfans safonol cwsmer. Bydd hyn yn galluogi dros filiwn, yn fras, o'r aelwydydd tlotaf i gadw mwy o'u dyfarniad, sef £420 y flwyddyn neu £35 y mis ar gyfartaledd
- cynnig diwygiadau i'r Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant ym Mhrydain Fawr a fydd yn helpu i godi 20,000 o blant allan o incwm cymharol isel[c,24]
- lansio'r ad-drefniad mwyaf o ganolfannau gwaith ers degawd er mwyn sicrhau y bydd mwy o bobl yn cael cymorth wedi'i deilwra i gael swyddi a chamu ymlaen ym myd gwaith, ochr yn ochr â gwella hawliau cyflogeion
- ehangu gofal plant a ariennir gan y Llywodraeth i deuluoedd sy'n gweithio yn Lloegr, ar gyfer plant o 9 mis i fyny ac wedi'i ategu gan filoedd o leoedd meithrin newydd mewn ysgolion
- dechrau cyflwyno clybiau brecwast am ddim yn Lloegr, er mwyn helpu rhieni i weithio mwy o oriau

c Noder y cafodd y rhain eu cyfrifo gan ddefnyddio dull gwahanol i effeithiau tlodi cronnol y strategaeth.

## Lleihau costau hanfodion

Er mwyn sicrhau y gall teuluoedd roi bwyd ar y bwrdd a darparu cartrefi diogel a chynnes ar gyfer eu plant, mae'r llywodraeth wedi gwneud y canlynol:

- cyhoeddi y byddwn yn buddsoddi £39 biliwn mewn Rhaglen Cartrefi Cymdeithasol a Fforddiadwy 10 mlynedd newydd yn Lloegr, sef y buddsoddiad mwyaf mewn cof diweddar
- ehangu prydau ysgol am ddim yn Lloegr i bob plentyn mewn aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, gan godi 100,000 o blant allan o incwm cymharol isel erbyn diwedd y senedd hon.[25] Rydym yn cynnwys meithrinfeydd ar safleoedd ysgolion, chweched dosbarth ysgolion a lleoliadau addysg bellach, gan sicrhau ein bod yn cefnogi plant drwy gydol eu haddysg orfodol
- ymrwymo i fuddsoddi £600 miliwn yn y Rhaglen Gweithgareddau a Bwyd Gwyliau yn Lloegr dros y tair blynedd nesaf, er mwyn cynnig gweithgareddau cyfoethog a bwyd iach i'r plant tlotaf drwy gydol y gwyliau
- cyflwyno terfyn o dair eitem gwisg ysgol â brand arnynt er mwyn torri costau i rieni
- ymestyn y Gostyngiad Cartrefi Cynnes i 2.7 miliwn o aelwydydd ychwanegol ym Mhrydain Fawr

## Atgyfnerthu cymorth lleol

Er mwyn sicrhau y gall teuluoedd gael gafael ar wasanaethau a chymorth wedi'u teilwra, mae'r Llywodraeth wedi gwneud y canlynol:

- cyhoeddi Rhaglen Balchder Bro, a fydd yn darparu hyd at £5 biliwn o gyllid i 244 o'r lleoedd mwyaf anghenus ym Mhrydain Fawr, gan gynnig yr opsiwn i gymunedau fuddsoddi mewn mesurau i fynd i'r afael â thlodi plant
- ailwampio cyllid llywodraeth leol yn Lloegr drwy'r setliad cyllid amlflwydd cyntaf ers degawdau ac Adolygiad Ariannu Teg 2.0, a grymuso llywodraeth leol ac awdurdodau strategol drwy sicrhau bod ganddynt yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i flaenoriaethu tlodi plant drwy'r Canlyniadau newydd ar gyfer llywodraeth leol a Bil Datganoli a Grymuso Cymunedau Lloegr
- cyhoeddi cynlluniau i gyflwyno Canolfannau Teuluol Dechrau Gorau ym mhob awdurdod lleol yn Lloegr, wedi'u hategu gan dros £500 miliwn o gyllid. Bydd hyn yn cefnogi 500,000 yn rhagor o blant
- cyflwyno cynnydd digynsail o 45% i Bremiwm Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar yn Lloegr, o £388 i £570 y flwyddyn fesul plentyn, gan roi hwb i ddysgu a datblygiad cynnar
- cyhoeddi pecyn gwerth £1 biliwn (gan gynnwys Barnett) ar gyfer Cronfa Argyfwng a Gwydnwch newydd yn Lloegr, gan roi cyllid i gynghorau ar gyfer diogelu aelwydydd rhag mynd i argyfwng
- buddsoddi £500 miliwn yn y Gronfa Dyfodol Gwell yn Lloegr, gan chwalu rhwystrau rhag cyfleoedd ar gyfer hyd at 200,000 o blant a phobl ifanc agored i niwed a'u teuluoedd
- dechrau cynnal y rhaglen meithrinfeydd ar safleoedd ysgolion er mwyn creu degau o filoedd o leoedd mewn meithrinfeydd ar safleoedd ysgolion, gan helpu mwy o deuluoedd i gael gafael ar ofal plant a ariennir a rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant yn Lloegr
- darparu dros £2.4 biliwn ar gyfer rhaglen Partneriaeth Teuluoedd yn Gyntaf yn Lloegr dros gyfnod y Setliad Cyllid Llywodraeth Leol amlflwydd er mwyn diwygio gofal cymdeithasol plant, a sicrhau ymyriadau cynnar a chymorth ar gyfer hyd at 400,000 o deuluoedd

Gyda'i gilydd, bydd y camau a amlinellir yn y strategaeth hon yn codi 550,000 o blant allan o incwm cymharol isel ar ôl costau tai erbyn diwedd y senedd hon. Amcangyfrifir y bydd 7.2 miliwn o blant yn byw ar aelwydydd a fydd yn gweld cynnydd mewn incwm o ganlyniad i'r mesurau a fodelir, gan gynnwys 1.5 miliwn o blant mewn tlodi materol dwfn.[26]

**Tabl 1: Effaith mesurau yn y Strategaeth Tlodi Plant ar niferoedd a chyfrannau amcanestynedig plant mewn incwm cymharol isel ar ôl costau tai (y DU)**

| | Newid mewn incwm cymharol isel ar ôl costau tai o gymharu â'r llinell sylfaen | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **BA 2026-27** | **BA 2027-28** | **BA 2028-29** | **BA 2029-30** | **BA 2030-31** |
| **Cyffredinol** | -400,000 | -450,000 | -550,000 | -550,000 | -550,000 |
| | -2.60% | -3.10% | -3.90% | -4.00% | -3.80% |
| **Diddymu'r cap dau blentyn** | -300,000 | -350,000 | -450,000 | -450,000 | -450,000 |
| | -2.20% | -2.60% | -3.20% | -3.20% | -3.10% |
| **Ymestyn cymhwysedd PYDd** | -50,000 | -100,000 | -100,000 | -100,000 | -50,000 |
| | -0.40% | -0.60% | -0.80% | -0.60% | -0.50% |
| **Mesurau sy'n weddill: Clybiau brecwast, Cychwyn Iach, Gostyngiad Cartrefi Cynnes a diddymu Taliadau Uniongyrchol cynhaliaeth plant** | <-25,000 | -50,000 | -50,000 | -50,000 | -50,000 |
| | -0.10% | -0.30% | -0.30% | -0.30% | -0.30% |

**Nodyn:** Nid yw cyfanswm yr effeithiau ar eiddo unigol o reidrwydd yn gyfwerth â chyfanswm effaith y strategaeth oherwydd talgrynnu a'r rhyngweithio rhwng mesurau sy'n golygu y bydd mwy nag un mesur yn cael effaith ar rai pobl.

## Prif fetrigau tlodi

Bydd y strategaeth hon yn arwain at newid mewn perthynas â dau brif fetrig sy'n ategu ei gilydd.

Tlodi plant cyffredinol, sy'n defnyddio'r prif fetrig incwm cymharol isel (ar ôl costau tai). Mae incwm cymharol isel yn fetrig incwm a ddefnyddir yn eang ac a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer tlodi, ac mae'n adlewyrchu newidiadau i safonau byw dros amser. Mae'r metrig hwn yn seiliedig ar faint o incwm sydd gan bob aelwyd ar ôl didynnu trethi a delir a chostau tai, gan addasu ar gyfer nifer ac oedrannau'r bobl ar yr aelwyd (er mwyn cyfrif am wahanol lefelau o angen rhwng gwahanol aelwydydd). Diffinnir bod unrhyw un sy'n byw ar aelwyd sydd â llai na 60% o incwm aelwyd yng nghanol (canolrif) y dosbarthiad incwm mewn incwm cymharol isel ar ôl costau tai.

Metrig newydd ei ddatblygu, sef tlodi materol dwfn, sy'n seiliedig ar gwestiynau ynghylch amddifadedd sylweddol sydd eisoes yn bodoli ac sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi plant

dyfnach. Gofynnir i deuluoedd a allant fforddio 13 o eitemau a ddewiswyd gan y cyhoedd fel y rhai mwyaf hanfodol, gan gwmpasu anghenion sylfaenol megis bwyd, gwres a thai. Os bydd teulu'n brin o bedair neu fwy o'r eitemau hynny am resymau ariannol, dyfernir ei fod mewn tlodi materol dwfn. Ni fydd yr eitemau na'r trothwy'n newid yn ystod cyfnod y strategaeth 10 mlynedd felly mae diffiniad y metrig hwn yn sefydlog. Bydd p'un a all teulu fforddio eitemau ai peidio yn dibynnu ar ffactorau eraill heblaw incwm, megis cost yr eitemau, sefyllfa ariannol gyffredinol y teulu, a yw'n wynebu costau ychwanegol oherwydd anabledd, er enghraifft, a'r cymorth a gaiff yn lleol.

## Lleihau tlodi plant mewn partneriaeth

Mae'r Tasglu Tlodi Plant wedi cynnwys Gweinidogion a swyddogion o bob rhan o'r llywodraeth, gyda chyngor gan arbenigwyr allanol. Dros y 15 mis diwethaf, mae wedi gweithio mewn ffordd sydd wedi gwneud y canlynol:

- sicrhau bod plant a theuluoedd wrth wraidd gwaith polisi gan ymgysylltu â rhieni a gofalwyr[27] a sefydliadau megis Swyddfeydd y Comisiynwyr Plant[28] a Changing Realities[29]
- ysgogi gwahanol adrannau'r Llywodraeth a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i weithredu er mwyn sicrhau cymaint o effaith â phosibl, gan ddwyn adrannau i gyfrif am eu cyfraniadau
- gweithio gyda llywodraethau datganoledig, awdurdodau strategol, systemau iechyd, grwpiau ffydd, byd busnes a chymdeithas sifil er mwyn deall profiadau gwahanol gymunedau
- cyflogi arbenigwyr drwy gydol y broses o gasglu tystiolaeth a datblygu'r strategaeth, gyda gwaith craffu a chymorth arbenigol annibynnol drwy gydol y broses gan y Grŵp Cyfeirio Arbenigol Dadansoddol ar Dlodi Plant[30]
- gweithio gyda sefydliadau, elusennau ac ymgyrchwyr blaenllaw sydd ag arbenigedd ym maes tlodi plant ledled y DU, megis Achub y Plant, IPPR, Cyngor ar Bopeth, y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant a Biwro Cenedlaethol y Plant

Mae rhagor o wybodaeth am y ffyrdd rydym wedi ymgysylltu'n allanol i'w gweld ym Mhennod 6.

Dim ond megis dechrau yw cyhoeddi'r strategaeth hon, a byddwn yn gweithio'n galed i gyflawni'r strategaeth hon yn effeithiol, gan adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo, er mwyn torri'r cysylltiad rhwng cefndir plentyn a'i lwyddiant yn y dyfodol.

Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i adolygu cynnydd tuag at gyflawni'r mesurau a amlinellir yn y strategaeth a'u heffaith ac i ystyried camau gweithredu mwy hirdymor drwy adeiladu ar y dystiolaeth a gesglir wrth roi'r strategaeth ar waith. Byddwn yn parhau â'r dull cydweithredol a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu'r strategaeth hon, gan sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rhai sy'n byw ag effeithiau tlodi plant o ddydd i ddydd, a monitro'r ffordd y caiff y strategaeth hon ei rhoi ar waith mewn partneriaeth agos â rhanddeiliaid allweddol.

Rydym wedi amlinellu dull monitro a gwerthuso cadarn er mwyn i ni allu deall pa mor dda y mae hyn yn gweithio, parhau i gyflwyno'r achos dros ymyriadau a theilwra ein hymatebion i'r heriau sy'n gysylltiedig â thlodi plant ledled y DU.

Bydd y strategaeth hon yn arwain at newid ym mywydau plant ledled pedair gwlad y DU. Er mai'r llywodraethau datganoledig sy'n gyfrifol am lawer o'r ysgogiadau, mae gan Lywodraeth y DU ysgogiadau allweddol

a gadwyd yn ôl, ac mae'r strategaeth hon yn ymrwymo i wneud cynnydd mewn perthynas â'r rhain ac ategu gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo gan Lywodraethau'r Alban a Chymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

Yn y strategaeth hon, mae'r gair 'plant' yn cyfeirio at blant a phobl ifanc rhwng 0 a 18 oed.[d] Pan ddefnyddiwn y gair 'rhieni', cyfeiriwn at rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc. Nodir diffiniadau allweddol eraill ar dudalen 110.

d Ond mae'r ystadegau Aelwydydd Islaw Incwm Cyfartalog (HBAI) yn defnyddio diffiniad gwahanol – gweler y Rhestr Termau am ragor o fanylion

# Pennod 1: Maint yr her a'r achos dros newid

**Mae'r Tasglu Tlodi Plant wedi cynnal ymarfer pellgyrhaeddol i sicrhau bod y strategaeth hon yn seiliedig ar y sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf a mwyaf cadarn. Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o faint yr her, yr hyn sy'n achosi tlodi, ac effeithiau negyddol tlodi ar blant, eu teuluoedd, a chymdeithas yn ehangach. Mae'n esbonio'r achos dros y camau rydym yn eu cymryd ar unwaith, yn ogystal â'r camau ehangach rydym yn eu cymryd, i fynd i'r afael â'r ffactorau strwythurol sy'n achosi tlodi.**

## Maint yr her

Mae ystadegau diweddaraf y DU (ar gyfer 2023/24) yn dangos bod 4.5 miliwn o blant (31%) mewn incwm cymharol isel ar ôl costau tai, sef cynnydd o 900,000 ers 2010/11.[31] Mae hyn yn golygu, mewn ystafell ddosbarth nodweddiadol o 30 o blant, fod 10 plentyn mewn incwm cymharol isel. Os na roddir ymyriadau ar waith, mae amcanestyniadau allanol yn awgrymu y bydd tlodi plant yn cynyddu ymhellach yn ystod y senedd hon.[32]

Mae'r metrig incwm cymharol isel yn seiliedig ar faint o incwm sydd gan bob aelwyd ar ôl didynnu trethi a delir a chostau tai, gan addasu ar gyfer nifer ac oedrannau'r bobl ar yr aelwyd (er mwyn cyfrif am wahanol lefelau o angen rhwng gwahanol aelwydydd). Diffinnir bod unrhyw un sy'n byw ar aelwyd sydd â llai na 60% o incwm aelwyd yng nghanol (canolrif) y dosbarthiad incwm mewn incwm cymharol isel ar ôl costau tai.

Am y tro cyntaf, mae'r Llywodraeth wedi datblygu metrig tlodi materol dwfn,[33] sy'n ystyried gallu teulu'r plentyn i gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau hanfodol. Yn ôl y metrig hwn, mae dwy filiwn o blant (14%) mewn tlodi materol dwfn yn 2023/24.[34] Mae hyn yn golygu na all teuluoedd y plant hyn fforddio pethau fel cadw eu cartref yn ddigon cynnes, ffrwythau a/neu lysiau ffres bob dydd, a theganau addas i'w hoedran.

Bydd p'un a all teulu fforddio eitemau ai peidio yn dibynnu ar lawer o ffactorau eraill heblaw incwm, megis cost yr eitemau, sefyllfa ariannol gyffredinol y teulu, a'r cymorth a gaiff yn lleol. Mae'r mesur hwn yn gallu adlewyrchu'r materion ehangach hyn, y mae'r strategaeth hon wedi ymrwymo i fynd i'r afael â nhw a'u gwella.

> ***"Dim ond un peth rwyf am ei gael mewn gwirionedd, ond dydw i ddim yn credu bod fy mam yn gallu...ei gael. Felly, rwyf wedi bod yn cadw'r peth yn dawel...am dair blynedd... Mae fy mrawd bach yn gofyn am [deganau] drwy'r amser, ond rwy'n dweud y dylen ni guddio hynny nes y bydd gan ein mam arian"***
>
> **(Merch 11 oed, Gwaith Ymchwil Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr)[35]**

Mae gan y DU gyfraddau tlodi plant uwch na'r rhan fwyaf o wledydd cymaradwy'r Undeb Ewropeaidd a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).[36] Mae hyn yn rhannol oherwydd gwahaniaethau strwythurol mewn gwledydd eraill, gan gynnwys mwy


o gymorth i deuluoedd, sy'n galluogi cyfraddau cyflogaeth rhieni uwch, a llai o anghydraddoldeb o ran cyflog clir. Mae hyn yn golygu bod cyfraddau tlodi plant yn y gwledydd hynny eisoes yn is na'r DU cyn ailddosbarthu drwy drethi a nawdd cymdeithasol.

Roedd cyfraddau incwm cymharol isel plant yn y DU yn gymharol isel yn ystod y 1960au a'r 1970au. Yn ystod y 1980au, cododd cyfraddau tlodi plant i un o bob tri o blant erbyn canol y 1990au.

Erbyn 1997, roedd plant yn wynebu risg uwch o lawer o incwm cymharol isel na phobl o oedran gweithio neu bensiynwyr. Erbyn 2010/11, roedd nifer y plant mewn incwm cymharol isel ar ôl costau tai wedi lleihau 600,000 o gymharu â 1997/98.

Ers 2010, mae'r cynnydd hwnnw wedi cael ei wrthdroi.

**Ffigur 1 – Cyfradd incwm cymharol isel (ar ôl costau tai) fesul grŵp oedran rhwng 1960 a 2023/24 ym Mhrydain Fawr[37]**




## Tueddiadau tlodi plant a'r ffactorau sy'n ei achosi

Ers 2010, mae cyfres o newidiadau strwythurol a thoriadau nawdd cymdeithasol, yn enwedig i deuluoedd â phlant, diffyg twf economaidd, cynnydd mewn gwaith ansicr, a'r argyfwng costau byw wedi gwaethygu tlodi plant.

Dros y 15 mis diwethaf, mae her trechu tlodi plant wedi newid. Mae gan bron i dri chwarter y plant sy'n tyfu i fyny mewn tlodi o leiaf un rhiant sy'n gweithio, ond maent yn dal mewn tlodi, a hynny'n aml oherwydd enillion isel ac oriau isel, a gwaith ansicr. Mae bron i dri chwarter y plant mewn incwm cymharol isel yn rhan o deuluoedd sy'n gweithio, o gymharu â bron i dair rhan o bump yn 2010/11.[38] Mae cyfraddau

cyflogaeth rhieni yn uchel ac wedi cynyddu ers 2010/11, yn enwedig ymhlith rhieni sengl a mamau mewn cwpl.[39] Dros yr un cyfnod, mae enillion cyfartalog teuluoedd incwm isel sydd â phlant wedi cynyddu £51 yr wythnos mewn termau real.[40] Fodd bynnag, mae prinder swyddi sicr a hyblyg yn golygu nad yw bod mewn gwaith yn ddigon i godi teuluoedd allan o dlodi. Gall heriau wrth geisio cael darpariaeth gofal plant, argaeledd swyddi addas, cyfrifoldebau gofalu, anableddau a/neu gyflyrau iechyd, gofalu am blant anabl a lefelau sgiliau i gyd rwystro pobl rhag cynyddu eu horiau a'u henillion.

Mae cymorth i blant yn y system nawdd cymdeithasol wedi cael ei erydu dros amser, ac mae tlodi plant yn fwyfwy crynodedig mewn teuluoedd mwy. Erbyn 2023/24, roedd gwerth cymedrig nawdd cymdeithasol i blant yn y cwintel incwm isaf wedi lleihau £64 yr wythnos, o £220 yr wythnos yn 2010/11, i £156 yr wythnos yn 2023/24.[41] Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i gyflwyno'r cap dau blentyn, sy'n cyfyngu ar yr hawl i elfen plant Credyd Cynhwysol i ddau blentyn ar gyfer y rhan fwyaf o deuluoedd. Er bod plant mewn teuluoedd mwy (â thri neu fwy o blant) wedi wynebu risg uwch o dlodi erioed, maent yn cynrychioli cyfran gynyddol o'r holl blant sydd mewn tlodi. Heddiw, mae tua hanner y plant sydd mewn tlodi yn rhan o deuluoedd mawr, o gymharu â thraean yn 2010/11.[42]

Mae costau tai wedi cynyddu, gan wthio teuluoedd ymhellach i mewn i dlodi, ac mae mwy o blant yn tyfu i fyny mewn sector rhentu preifat ansicr. Mae teuluoedd incwm isel yn dioddef yn sgil diffyg mynediad at dai fforddiadwy o ansawdd da. Ers dechrau'r 2000au, mae prisiau tai wedi codi'n fwy o lawer nag enillion.[43] Hefyd, nid oes digon o fuddsoddiad wedi bod mewn cartrefi cymdeithasol newydd[44] ac, yn anochel, mae rhestrau aros wedi cynyddu, yn enwedig ar gyfer cartrefi mawr.[45] Bu'n rhaid i'r sector rhentu preifat nas rheoleiddir ymdopi â'r straen, lle mae costau tai yn arbennig o uchel, ac ansawdd y tai yn aml yn wael. Mae bron i bedwar o bob 10 plentyn sydd mewn tlodi yn byw mewn cartrefi wedi'u rhentu'n breifat, o gymharu â thri o bob 10 yn 2010/11.[46] Mae hyn hefyd wedi arwain





at gynnydd mewn digartrefedd. Ym mis Mehefin 2025, roedd dros 172,000 o blant yn byw mewn llety dros dro yn Lloegr yn unig.[47] Mae hyn dros ddwywaith yn fwy na’r ffigur yn 2010.

Mae costau byw uwch wedi bod yn ergyd arbennig o drom i deuluoedd incwm isel sydd â phlant. Ar ôl pandemig COVID-19, cododd chwyddiant yn gyflym iawn i fwy na 10% erbyn mis Gorffennaf 2022.[48] Yn sgil hyn, cafwyd argyfwng costau byw a arweiniodd at heriau penodol i deuluoedd mewn tlodi, wrth i gostau hanfodion godi hyd yn oed yn gyflymach na chwyddiant cyffredinol. Roedd costau’r aelwyd ar gyfer teuluoedd incwm isel â phlant 32% yn uwch ym mis Medi 2025 o gymharu â mis Ebrill 2020,[49] ac roedd Lwfans Safonol Credyd Cynhwysol 6% yn uwch.[50] Erbyn mis Hydref 2025, roedd costau bwyd 37% yn uwch, ac roedd prisiau ynni 62% yn uwch nag ym mis Ebrill 2020.[51] Bydd aelwydydd incwm isel sydd â phlant yn gwario cyfran fwy o’u gwariant ar gostau hanfodol fel costau tai a bwyd nag aelwydydd yn gyffredinol, a bydd llawer ohonynt wedi’i chael hi’n anodd torri’n ôl ar y costau hyn.[52] Hefyd, mae’r premiwm tlodi’n golygu bod y teuluoedd sydd mewn tlodi eisoes yn talu mwy am lawer o’r un cynhyrchion a gwasanaethau hanfodol. Er enghraifft, caiff mynediad teuluoedd incwm isel at fwyd ei lywio gan fynediad cyfyngedig at archfarchnadoedd fforddiadwy, prisiau uwch mewn siopau cyfleustra lleol, a phrinder opsiynau swmp-brynu oherwydd cyfyngiadau ar lif arian parod.[53] Yn 2022, amcangyfrifwyd bod y premiwm tlodi’n fwy na £200 y flwyddyn, ac mae bron pob (98%) aelwyd incwm isel yn wynebu un premiwm tlodi neu fwy.[54]

Mae gwasanaethau cyhoeddus wedi cael eu herydu o ganlyniad i gyni. Gall gwasanaethau cyhoeddus wrthbwyso costau, lliniaru profiadau o dlodi, meithrin gwydnwch a chefnogi teuluoedd drwy argyfyngau. Fodd bynnag, mae’r cyllid a roddir i’r awdurdodau lleol sy’n gyfrifol am lawer o wasanaethau ar gyfer plant agored i niwed a’u teuluoedd wedi lleihau’n sylweddol ers 2010, gan gael effaith anghymesur ar ardaloedd â mwy o amddifadedd.[55] Mae ysgolion yn y rheng


flaen, yn rhoi cymorth brys i deuluoedd yn absenoldeb gwasanaethau eraill. Mae traean o ysgolion cynradd bellach yn cynnal banciau bwyd; mae chwarter yn darparu hanfodion a 38% yn dweud bod y staff yn darparu ar gyfer disgyblion a theuluoedd ar eu traul eu hunain.[56] Mae hyn yn dargyfeirio adnoddau prin i ffwrdd oddi wrth addysg, gan effeithio ar bob plentyn.

## Mae lle yn bwysig

Mae lle yn hanfodol i dlodi plant, gan lywio'r amgylchedd y caiff plant eu magu ynddo a'r cyfleoedd a fydd gan rieni i ddarparu ar gyfer eu plant: drwy'r swyddi sydd ar gael yn lleol, opsiynau gofal plant lleol, cysylltiadau trafnidiaeth, siopau, a chymorth yn y gymuned. Mae hefyd yn llywio ansawdd ac argaeledd gwasanaethau cymorth lleol y mae teuluoedd mewn tlodi'n dibynnu arnynt fwyaf. Mae llawer o'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar dlodi plant yn seiliedig ar le. Gall hyn olygu pa wlad, rhanbarth, neu awdurdod lleol, ond hefyd pa ward a stryd.


Mae tlodi plant yn amrywio ledled y DU, o ran niferoedd ac effaith y gwahanol ffactorau sy'n ei achosi. Mae tlodi plant yn uwch yng Nghymru a Lloegr nag yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**Ffigur 2 – Cyfradd plant mewn incwm cymharol isel ar ôl costau tai fesul gwlad yn y DU (cyfartaledd tair blynedd)[57]**



Mae cyfraddau tlodi plant yn amrywio'n sylweddol rhwng rhanbarthau Lloegr. Ceir tuedd i ranbarthau ag ardaloedd metropolitan mawr a phoblogaethau mawr fod â chyfraddau tlodi uwch, er enghraifft Gorllewin Canolbarth Lloegr, Llundain a Gogledd-orllewin Lloegr. Mae cyfraddau tlodi plant wedi cynyddu yn y rhan fwyaf o ranbarthau ers 2010/11.

**Ffigur 3 – Cyfradd plant mewn incwm cymharol isel ar ôl costau tai fesul rhanbarth yn Lloegr (cyfartaledd tair blynedd)[58]**




Mae'r ffactorau hyn yn cyfuno i gael effaith anghymesur ar rai teuluoedd.

Mae plant o deuluoedd un rhiant, teuluoedd ethnig lleiafrifol a theuluoedd ag anableddau hefyd yn wynebu risgiau uchel o dlodi.[59] Y gwirionedd o ddydd i ddydd i rai teuluoedd yw y bydd llawer o'r ffactorau hyn yn cyfuno i waethygu'r heriau sy'n eu hwynebu.

Gall teuluoedd ag incymau tebyg gael gafael ar lefelau gwahanol iawn o adnoddau (e.e. asedau a chynilion) a chymorth i deuluoedd, ac wynebu costau gwahanol. Er nad yw'r metrig incwm cymharol isel yn casglu gwybodaeth am y gwahaniaeth hwn, mae'r metrig tlodi materol dwfn yn gwneud hynny, gan ei fod yn adlewyrchu gallu teuluoedd i fforddio hanfodion. Yn gyffredinol, bydd yr un mathau o deuluoedd yn wynebu risgiau uwch o dlodi o fewn y ddau fetrig, ond bydd tlodi materol dwfn yn arbennig o amlwg ar gyfer plant mewn teuluoedd un rhiant a phlant mewn teuluoedd ag anableddau.[60]

## Yr hyn y mae byw mewn tlodi'n ei olygu i blant a'u teuluoedd

Soniodd rhieni a gofalwyr eu bod yn ei chael hi'n anodd cael deupen llinyn ynghyd, ac am y mathau o ddewisiadau y mae'n rhaid iddynt eu gwneud er mwyn i arian fynd ymhellach, y baich meddyliol, a'u hamharodrwydd i siarad am eu trafferthion am eu bod yn teimlo fel pe baent yn cael eu beirniadu.

***"Yn syml, mae fel nofio'n galed iawn er mwyn cadw ein pennau uwchben y dŵr. I mi fel rhiant sengl, mae hyn yn peri straen a phryder i mi am nad oes gennyn ni incwm arall i ddibynnu arno. Dydy'r frwydr gyson i ymdopi ddim yn dda i'm hiechyd meddwl na'm hiechyd corfforol. Felly, dydy'r sefyllfa ddim yn un dda, mae arna i ofn."***

(Sadie Q, rhiant/gofalwr, Changing Realities)[61]

***"Rwy'n teimlo fel twyllwr yn ceisio ymdopi â phethau ac osgoi pethau a chyfrifo beth fydd yn cael ei dalu a sut. Dydych chi ddim yn sylweddoli faint sy'n digwydd yn eich pen dim ond i oroesi, dim ond i gadw'r ddysgl yn wastad, dim ond i wneud yn siŵr bod gennych chi ddigon o arian i brynu bwyd ac atal y trydan rhag cael ei ddiffodd."***

(Rhiant/gofalwr, Gwaith ymchwil gyda rhieni a gofalwyr ar gyfer y Strategaeth Tlodi Plant)[62]

I lawer o blant a phobl ifanc, mae tyfu i fyny mewn tlodi yn golygu tyfu i fyny'n rhy gyflym a delio â phryderon y bydd oedolion yn delio â nhw fel arfer. Byddant yn wynebu cywilydd a stigma, a chânt eu hallgáu o weithgareddau cymdeithasol gyda ffrindiau. Bydd hyn hefyd yn effeithio ar eu dyheadau, gan fod ffocws ar yr angen i ddarparu ar gyfer eu teuluoedd yn hytrach na meddwl am y dyfodol.[63]

***"… ceisio bwydo pob un ohonon ni… mae hynny hefyd yn anodd…. rhai nosweithiau bydd fy mam yn dweud, 'Alla i wir ddim gwneud dim byd ar eich cyfer chi – does gen i ddim byd ar eich cyfer chi'r rhai hŷn. Dim ond pasta a saws i'r rhai bach y galla i ei wneud' a [bydda i'n dweud], 'Mae hynny'n iawn, Mam. Fe wna i fynd â cheisio cael decpunt gan rywun'."***

(Merch 17 oed, Gwaith Ymchwil Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr)[64]

***"Rwy'n credu bod pobl o deulu tlawd yn cael profiad cymdeithasol gwahanol. Fyddan nhw ddim yn gwahodd pobl i'w cartref oherwydd mae'n bosibl y byddan nhw'n teimlo cywilydd am y ffordd mae'n edrych, neu ba mor fawr ydyw... Rwy'n credu eu bod nhw, yn bendant, yn cael profiad cymdeithasol gwahanol i bobl o deulu cefnog, sy'n gallu gwahodd ffrindiau draw i de..."***

(Merch 16 oed, Gwaith Ymchwil Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr)[65]

## Effeithiau parhaol tlodi a'r achos dros newid

Bydd plant sy'n profi tlodi yn aml yn wynebu canlyniadau andwyol a fydd yn parhau i ddylanwadu ar eu bywydau pan fyddant yn oedolion. Bydd tlodi'n effeithio ar blant cyn iddynt gael eu geni, gan fod y rhai a gaiff eu geni i rieni sy'n byw dan anfantais yn fwy tebygol o fod â phwysau geni isel ac yn llai tebygol o oroesi blwyddyn gyntaf bywyd.[66] Wrth iddynt dyfu'n hŷn, byddant yn parhau



wynebu iechyd meddwl ac iechyd corfforol gwaeth, cyrhaeddiad addysgol gwaeth, canlyniadau cyflogaeth gwaeth ynghyd â risg uwch o ddiweithdra ac enillion is mewn gwaith ac, yn y pen draw, ganlyniadau gwaeth mewn bywyd gan gynnwys disgwyliad oes is.

Mae ychydig flynyddoedd cyntaf bywyd yn hollbwysig ar gyfer datblygiad gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol. Mae iechyd meddwl rhieni a gofalwyr, y mae'r cymorth materol a chymdeithasol y maen nhw eu hunain yn ei gael yn effeithio arno, yn cyflawni rôl bwysig o ran eu galluogi i ddiwallu anghenion eu plant.[67]

Gall tlodi gynyddu'r risg o ganlyniadau iechyd gwael, a gall canlyniadau iechyd gwael gynyddu'r risg o dlodi. Mae byw ag incwm isel ac ansicrwydd ariannol yn gysylltiedig ag iechyd mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys agweddau materol a seicogymdeithasol ac ymddygiad, a gall effeithio ar amrywiaeth eang o ganlyniadau iechyd corfforol ac iechyd meddwl drwy gydol oes, gan gyfrannu at anghydraddoldebau iechyd.[68] Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod unrhyw gysylltiad â thlodi yn ystod plentyndod yn gysylltiedig ag iechyd corfforol ac iechyd meddwl gwaeth yn ystod y glasoed[69] ac mae plant o deuluoedd incwm isel bedair gwaith yn fwy tebygol o wynebu problemau iechyd meddwl na phlant o deuluoedd incwm uwch.[70]

Ceir cysylltiad uniongyrchol rhwng cyrhaeddiad addysgol plentyn ac incwm ei aelwyd.[71] Ymhlith plant o deuluoedd â'r incymau isaf, dim ond un o bob pedwar a gaiff raddau TGAU da, gan gynnwys Saesneg a Mathemateg, ac ymhlith plant o'r teuluoedd â'r incymau uchaf, bron i dri o bob pedwar yw'r ffigur.[72] Daw'r bylchau hyn i'r amlwg yn gynnar – erbyn iddynt gyrraedd 5 oed, bydd plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim eisoes bum mis ar ei hôl hi ac, erbyn iddynt gyrraedd 16 oed, bydd y bwlch hwnnw wedi cynyddu i fwy na 19 mis.[73]

# Pennod 2: Lleihau tlodi plant mewn partneriaeth

***"Os bydd pobl ifanc yn teimlo fel pe baent mewn cymuned a bod ganddynt ymdeimlad o berthyn, bydd hynny hefyd yn amlwg yn gysylltiedig ag iechyd meddwl ac mae hynny'n bwysig iawn"***

**(Merch 16 oed, Gwaith Ymchwil Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr)[74]**

Cafodd y strategaeth hon ei datblygu ar y cyd, a bydd angen yr un lefel o ymrwymiad a chydweithio rhwng sectorau a llywodraethau i'w chyflawni dros y degawd nesaf. Rydym am sicrhau mai'r plant sy'n profi tlodi a'u rhieni a'u gofalwyr sydd wrth wraidd y bartneriaeth hon, gan gydnabod y bydd angen i ni gydweithio â'r rhai sy'n gwybod pa newidiadau y bydd eu hangen er mwyn datblygu atebion sy'n gweithio.

Rydym yn cydnabod yr heriau unigryw sy'n wynebu teuluoedd ym mhob gwlad a rhanbarth ac rydym wedi gweithio'n agos gyda llywodraethau datganoledig, meiri rhanbarthol a llywodraeth leol i ddeall eu cyd-destunau a dysgu o'u ffyrdd o weithio. Ers y strategaeth ddiwethaf ar gyfer y DU gyfan, mae pwerau a chyllid sylweddol wedi cael eu datganoli, ac mae gwledydd a rhanbarthau wedi defnyddio'r rhain i gymryd camau cadarnhaol i drechu tlodi plant. Bydd angen i ni ddod o hyd i ffyrdd o ddysgu o rai o'r gwahaniaethau sy'n bodoli mewn polisïau ac arferion, a datblygu ffyrdd o gydweithio rhwng gwahanol lefelau o lywodraeth.

## Lleihau tlodi plant ledled y DU

Mae parchu setliadau datganoli ac ategu gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo mewn gwledydd a rhanbarthau yn rhan ganolog o'r strategaeth hon. Mae gan bob gwlad ei setliad datganoli unigryw ei hun sy'n nodi pwerau i drechu tlodi plant. Mae'r pwerau hyn yn amrywio o un wlad i'r llall, gyda rhai ysgogiadau wedi'u datganoli i lywodraethau'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, ac eraill wedi'u cadw'n ôl gan Lywodraeth y DU.

Rhoddir cyllid i'r llywodraethau datganoledig drwy fformiwla Barnett.[75] Mae'r ffordd y byddant yn penderfynu gwario'r cyllid hwn yn dibynnu ar eu blaenoriaethau eu hunain.

- Amlinellodd ail Gynllun Cyflawni ar Drechu Tlodi Plant Llywodraeth yr Alban, sef 'Best Start, Bright Futures (2022–2026)'[76] gamau gweithredu i gynyddu incwm o gyflogaeth, lleihau costau aelwydydd, a sicrhau cymaint â phosibl o incwm o nawdd cymdeithasol a buddion mewn nwyddau, gan wella llesiant ehangach teuluoedd a chanlyniadau plant a phobl ifanc hefyd ar yr un pryd
- Mae Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru,[77] a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024, yn nodi fframwaith hirdymor ar gyfer trechu tlodi plant ac yn amlinellu pum amcan allweddol: lleihau costau a chynyddu incymau teuluoedd cymaint â phosibl, creu llwybrau allan o dlodi, cefnogi llesiant, sicrhau urddas mewn gwasanaethau, a gwella cydweithio ym mhob rhan o'r llywodraeth.

- Ymrwymodd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i gyflwyno Strategaeth Gwrth-dlodi[78] o dan ei Rhaglen Lywodraethu ddiweddaraf, sef “Our Plan: Doing What Matters Most”. Bydd y strategaeth o fudd i bawb sy’n ei chael hi’n anodd ymdopi â chostau byw. Dan arweiniad yr Adran Cymunedau, bydd y strategaeth hon yn mynd i’r afael â thlodi a hefyd yn canolbwyntio ar faterion fel bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol ac anghydraddoldebau iechyd. Bydd y strategaeth hefyd yn sicrhau bod cymdeithas a’r economi’n cynnig cyfleoedd ar gyfer y dyfodol, megis swyddi medrus ac ystyrlon.

## Lleihau tlodi plant ledled rhanbarthau ac ardaloedd lleol

Mae arweinyddiaeth ar bob lefel o lywodraeth yn hanfodol er mwyn gweithredu ar dlodi plant, ac mae’r llywodraethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gweithio’n agos gydag arweinwyr rhanbarthol a lleol yn y gwledydd hynny.

- Mae Cynllun Cymunedau diwygiedig Glasgow yn sicrhau bod dileu tlodi teuluoedd wrth wraidd agenda gyffredin y ddinas. Mae hyn yn gwneud datganiad, sef bod arweinwyr Glasgow, gyda’i gilydd, yn ymrwymedig i newid eu ffordd o weithio i drechu tlodi plant. Mae dros 200 o sefydliadau, o’r sector cyhoeddus i’r sector tai a’r trydydd sector, wedi ymrwymo i lunio’r dull ‘Dim Drws Anghywir’ ledled Glasgow, gan sicrhau y caiff gwasanaethau cydgysylltiedig eu darparu ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir i’r bobl hynny y mae angen cymorth arnynt.
- Mae Partneriaeth Bwyd Blaenau Gwent yn ymrwymedig i sicrhau y gall pob trigolyn gael gafael ar fwyd iach a fforddiadwy. Fel rhan o rwydwaith o 22 o Bartneriaethau Bwyd Lleol ledled Cymru, mae’n dod ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau’r trydydd sector ynghyd mewn ymdrech gydweithredol i fynd i’r afael ag ansicrwydd bwyd. Drwy fynd i’r afael ag achosion sylfaenol ansicrwydd bwyd, ehangu mynediad at fwyd maethlon, a sicrhau bod gan drigolion y wybodaeth a’r adnoddau sydd



eu hangen arnynt i wneud dewisiadau deallus, mae Blaenau Gwent yn datblygu system fwyd iachach a thecach i bawb.

- Ar hyn o bryd, mae Gogledd Belfast a The Moor yn Derry/Londonderry wedi'u cynnwys mewn treial o fenter 'Collaboration Test and Learn', sy'n rhychwantu sawl awdurdodaeth ledled Gogledd Iwerddon. Nod y dull trawsadrannol hwn yw sicrhau gwell canlyniadau i gymunedau drwy gydweithio rhwng adrannau'r Llywodraeth, cynghorau lleol, grwpiau cymunedol a phartneriaid eraill. Mae grŵp traws-system wedi pennu themâu â blaenoriaeth sy'n seiliedig ar ardaloedd ac sy'n gysylltiedig â chynllunio cymunedol, gan gynnwys tlodi, y blynyddoedd cynnar, ymyriadau cynnar, ac anghenion addysgol (nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr). Drwy weithio gyda'n gilydd, ein nod yw adnabod anghenion cymunedau yn well a dyrannu adnoddau ar y cyd er mwyn sicrhau gwell canlyniadau.

Yn Lloegr, mae arweinwyr rhanbarthol a lleol yn cymryd camau rhagweithiol ac yn dangos arweinyddiaeth draws-system er mwyn lleihau tlodi plant a lliniaru ei effeithiau.

- Mae Maer Gogledd-ddwyrain Lloegr, sef Kim McGuinness, wedi gwneud trechu tlodi plant yn brif flaenoriaeth. Fel rhan o hyn, sefydlwyd yr uned lleihau tlodi plant traws-sector gyntaf o'i bath, sydd wedi arwain ar waith i ddatblygu cynllun gweithredu pum mlynedd ar y cyd ar gyfer y rhanbarth. Mae'r Maer a'r Cabinet wedi ymrwymo £30 miliwn o gyllid newydd yn ychwanegol at weithgarwch sydd eisoes yn mynd rhagddo gan yr Awdurdod Cyfun i gyflawni'r cynllun gweithredu rhanbarthol, sy'n nodi'r camau sy'n cael eu cymryd i wneud Gogledd-ddwyrain Lloegr yn rhanbarth lle y caiff pob babi, plentyn a pherson ifanc gymorth i ffynnu a chyfle i lwyddo, waeth beth fo'u cefndir neu ble y maent yn byw.
- Mae Maer Llundain Fwyaf, Syr Sadiq Khan, wedi cyflwyno prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd, gan arbed £500 y flwyddyn fesul plentyn i deuluoedd; ac mae hefyd wedi dod â phartneriaid ynghyd o fwrdeistrefi a'r sector gwirfoddol a chymunedol i gyflawni rhaglen cynyddu incwm sydd wedi rhoi dros £90 miliwn hyd yma ym mhocedi Llundeinwyr sy'n byw ar incymau isel, y mae'r rhan fwyaf ohono ar ffurf cynnydd rheolaidd mewn incwm blynyddol. Mae Cynllun Twf Llundain yn nodi uchelgais Llundain i sicrhau cynnydd o 20% yn incymau wythnosol gwirioneddol aelwydydd yr 20% o Lundeinwyr sy'n ennill yr incwm isaf dros 10 mlynedd.
- Mae Maer Manceinion Fwyaf, Andy Burnham, wedi gwneud yr uchelgais 'Live Well' a chyflawni statws 'Prevention Demonstrator' yn flaenoriaeth i'r dinas-ranbarth. Mae hyn yn dangos sut y gall arweinyddiaeth seiliedig ar le mewn ardal awdurdod cyfun maerol ad-drefnu gwasanaethau cyhoeddus er mwyn mynd i'r afael â thlodi plant a lleihau anghydraddoldebau. Daw Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf â'r 10 awdurdod lleol, partneriaid iechyd a chymdeithas sifil ynghyd i fwrw ymlaen â'r weledigaeth hon. Drwy 'Live Well', mae'r rhanbarth yn integreiddio iechyd, cyflogaeth, cymorth tai a chymorth cynnar er mwyn creu cynnig cymorth beunyddiol ym mhob cymdogaeth. Mae'r dull cydweithredol hwn, a gaiff ei hyrwyddo gan y Maer, yn creu'r amodau i deuluoedd ffynnu.
- Bu Comisiwn y Gwir am Dlodi yn Salford yn cydweithio â Chyngor y Ddinas er mwyn diwallu anghenion rhai o'r trigolion sydd fwyaf agored i niwed ac yn y sefyllfa fwyaf gofidus yn ariannol, gan gynnwys: helpu dros 25,000 o bobl ar incymau isel drwy newid y ffordd y mae'r Cyngor yn

adennill dyledion, rhoi cymorth cynnar i bobl mewn anawsterau ariannol ac esemptio pobl ifanc sy'n gadael gofal rhag talu'r dreth gyngor.

## Lleihau tlodi plant drwy weithio mewn partneriaeth

Er mwyn troi'r llanw ar dlodi plant, mae angen gweithredu y tu hwnt i lywodraeth. Mae gan arweinwyr cenedlaethol, rhanbarthol a lleol rôl i ddefnyddio eu pwerau cynnull i gynyddu cydweithio a rhoi hwb i alluedd partneriaid cyflawni. Mae amrywiaeth eang ac ymroddgar o bartneriaid eisoes yn gweithio i flaenoriaethu plant a theuluoedd sydd mewn tlodi. Y rhai mwyaf hanfodol yw'r plant a'r rhieni sydd eisoes yn rhannu eu profiadau a'u harbenigedd, nid yn unig â'i gilydd ond hefyd â phobl a all helpu i gyd-ddylunio cymorth a gwasanaethau. Ceir nifer o sefydliadau sy'n helpu plant a rhieni i ddod ynghyd fel hyn – gan gynnwys y rhai sydd wedi cefnogi'r strategaeth hon, megis Changing Realities, y Comisiynwyr Plant ac Achub y Plant – ac sy'n helpu i ddysgu'n uniongyrchol gan deuluoedd sy'n wynebu gwirioneddau beunyddiol tlodi.

Mae cymdeithas sifil hefyd yn hollbwysig er mwyn trechu tlodi plant, drwy ddarparu gwasanaethau hanfodol, cynnal gweithgarwch atal a chynnig cymorth cofleidiol i blant a theuluoedd sydd mewn tlodi. Mae eu hymdrechion yn hollbwysig, nid yn unig er mwyn cau'r bwlch rhwng gwasanaethau ehangach, ond hefyd er mwyn sicrhau y gall cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol neu gymunedau anodd eu cyrraedd gael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae hyn yn cynnwys:

- Ymdrechion dosbarthu bwyd Prosiect Felix yn Llundain, sy'n achub bwyd da sydd dros ben o'r diwydiant bwyd a fyddai'n cael ei wastraffu fel arall.
- Mae gan Christians Against Poverty tua 3000 o weithwyr lleol ac mae'n cefnogi tua 10,000 o bobl y flwyddyn ledled y DU, gan roi cyngor ar arian a dyled a chymorth ymarferol ac adnoddau i unigolion a theuluoedd.
- Rhoddodd Sophie's Legacy £5,000 yr un i 15 o ysbytai ym mis Mawrth 2024 i brofi ffyrdd o ddarparu prydau bwyd i rieni a fyddai'n mynd heb fwyd wrth ymweld â'u plant yn yr ysbyty fel arall am na allant fforddio'r hyn y byddai'n ei gostio i'w bwydo eu hunain, sef tua £12 i £15 y dydd, yn enwedig yn ystod cyfnod hir yn yr ysbyty. Dywedodd y rhieni fod y pwysau ariannol wedi lleihau'n sylweddol. Y nod yw cyflwyno'r cynllun yn genedlaethol. Mae'r elusen yn bwriadu defnyddio'r hyn a ddysgir er mwyn helpu ysbytai eraill i roi menter debyg ar waith.

Caiff llawer o'r ymdrechion hyn eu hariannu oherwydd hanes balch y DU o ddyngarwch, gan fod cyhoedd Prydain wedi rhoi bron i £2 biliwn i elusennau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc, a £496 miliwn yn rhagor i sefydliadau sy'n canolbwyntio ar dlodi neu ryddhad yn 2024.

Mae systemau iechyd ac addysg a gwasanaethau cyhoeddus yn cyflawni rôl hanfodol er mwyn lliniaru effeithiau tlodi plant a gwella canlyniadau i blant yn genedlaethol ac yn lleol. Y rhain yw'r systemau a'r gwasanaethau sy'n rhoi cymorth hanfodol, gan ymwneud yn ddyddiol â phlant a'u teuluoedd mewn gwasanaethau i deuluoedd, ysgolion, meithrinfeydd, llyfrgelloedd, gwasanaethau ieuenctid ac amrywiaeth eang o ddarpariaeth iechyd.

Mae hyn yn cynnwys:

- Cydweithredfa Iechyd y Cyhoedd Champs, a arweinir gan y naw Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a Chyfarwyddwr Iechyd y Boblogaeth y GIG, sydd wedi bod yn cydweithio

â phartneriaid ar gamau gweithredu cydgysylltiedig i drechu tlodi plant yn is-ranbarth Swydd Gaer a Glannau Mersi. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi dadansoddiad annibynnol o'r sefyllfa a fframwaith strategol cynhwysfawr ar gyfer gweithredu yn ddiweddar.

- Adnodd 'Poverty Proofing' Children North East, a gydnabyddir yn genedlaethol ac a ddatblygwyd yn 2014 gan Children North East er mwyn helpu sefydliadau i chwalu rhwystrau sy'n wynebu plant sy'n byw mewn tlodi, gan weithio mewn lleoliadau addysg, gofal iechyd a diwylliannol. Mae'n cynnig opsiynau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a hyfforddiant ymwybyddiaeth o dlodi, ymgynghori (disgyblion, rhieni, staff) a chynlluniau gweithredu wedi'u cydgynhyrchu er mwyn goresgyn rhwystrau systemig sy'n gysylltiedig â chostau a stigma. Mae'n helpu i wella presenoldeb a chyrhaeddiad; cynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar wasanaethau a lleihau nifer yr apwyntiadau a gollir. Mae'r elusen hefyd yn gweithio gyda 'Libraries Connected' i adnabod rhwystrau sy'n atal teuluoedd incwm isel rhag cael gafael ar yr amrywiaeth lawn o wasanaethau a ddarperir gan lyfrgelloedd.

Mae'r sector preifat yn bartner allweddol er mwyn mynd i'r afael â thlodi plant. Mae'n darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau y bydd teuluoedd yn dibynnu arnynt a chyflogaeth sicr a sefydlog i rieni. Gwyddom hefyd fod llawer o fusnesau'n mynd ati i roi yn ôl i gymunedau a helpu i wella bywydau drwy ymrwymiad i gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Ymhlith yr enghreifftiau grymus mae:

- rhaglen 'Fairer Futures' Nationwide sydd, drwy ei phartneriaeth â Gweithredu dros Blant, yn anelu at roi cymorth ymarferol ac emosiynol i 100,000 o blant, pobl ifanc a rhieni sy'n byw mewn tlodi neu sy'n wynebu caledi ariannol;
- yn ddiweddar, cyhoeddodd y Llywodraeth gynigion arbennig gan enwau adnabyddus fel Weetabix, Magic Breakfast, Morrisons a Sainsbury's ar gyfer yr ysgolion sydd wedi mabwysiadu ein cynllun clybiau brecwast am ddim yn gynnar. Bydd y partneriaethau hyn yn sicrhau y caiff ein clybiau brecwast am ddim gymaint o effaith â phosibl, gan sicrhau y byddant yn gweithio'n well i bob ysgol ac y bydd pob plentyn yn gallu cael amrywiaeth o fwyd maethlon gan ryddhau amser i ysgolion ar yr un pryd drwy ei gwneud yn haws iddynt gynnal eu clybiau brecwast am ddim.

Mae gan academia a melinau trafod rôl hollbwysig i'w chyflawni o ran gwneud gwaith ymchwil i ddeall natur gymhleth tlodi plant, a llunio tystiolaeth o effeithiolrwydd er mwyn i bolisïau a gwasanaethau fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi plant. Rydym wedi cael budd o amrywiaeth eang iawn o arbenigedd a thystiolaeth sydd eisoes yn bodoli mewn perthynas â'r materion hyn o bob cwr o'r DU ac yn rhyngwladol, ac adlewyrchir hyn yn y cyngor arbenigol annibynnol a'r gwaith craffu a gafwyd gan y Grŵp Cyfeirio Arbenigol Dadansoddol ar Dlodi Plant.

Mae'r DU hefyd yn arloesi ym maes buddsoddi mewn effaith gymdeithasol, sy'n cynnwys cydweithio rhwng cyllidwyr, y sector mentrau cymdeithasol cymunedol gwirfoddol a chymunedau i greu'r ymyriadau mwyaf cynaliadwy a mawr eu heffaith. Mae'n adnodd allweddol ar gyfer datgloi cynaliadwyedd a thwf yn y sector mentrau cymdeithasol cymunedol gwirfoddol, gan gynnig mwy o gyfleoedd i'r bobl a'r cymunedau y mae'r sefydliadau hyn yn eu cefnogi. Mewn llawer o achosion, mae hyn yn golygu bod modd rhoi cymorth uniongyrchol ychwanegol i blant a theuluoedd, mewn ardaloedd o amddifadedd yn y DU, na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall.

Mae hyn yn cynnwys y Gronfa Cyfleoedd Bywyd, a ariennir gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sydd wedi helpu dros 50,000 o unigolion i gael canlyniadau gwell mewn bywyd mewn meysydd megis iechyd, cyflogaeth a thai drwy gefnogi 29 o brosiectau yn Lloegr. Rydym yn gweithio i wreiddio dulliau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau cymdeithasol, gan gynnwys drwy'r Gronfa Dyfodol Gwell a drafodir ym mhennod 5.

Bydd y Llywodraeth yn parhau i greu'r amodau cywir a gwneud y newidiadau hollbwysig sy'n ofynnol i gefnogi partneriaid, gan eu grymuso i gydweithio â'i gilydd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, ochr yn ochr â'r Llywodraeth er mwyn mynd ymhellach tuag at gyflawni ein huchelgais a rennir i leihau tlodi plant.

## Cyfeiriadau ar gyfer Pennod 1 a Phennod 2


1 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Child Poverty Strategy: Impact on low income poverty levels and children gaining in the United Kingdom. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/child-poverty-strategy-impact-on-low-income-poverty-levels-and-children-gaining-in-the-uk-december-2025

2 Unicef (2025). The State of the World's Children 2025: Ending child poverty: Our shared imperative. Ar gael yn: The State of the World's Children 2025: Ending child poverty

3 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Households Below Average Income (HBAI) statistics for 2023/24. Ar gael yn: Households below average income: for financial years ending 1995 to 2024 - GOV.UK

4 Lai, Wickham, Law, Whitehead, Barr a Taylor-Robinson (2019). Poverty dynamics and health in late childhood in the UK: evidence from the Millennium Cohort Study. Ar gael yn: Poverty dynamics and health in late childhood in the UK: evidence from the Millennium Cohort Study | Archives of Disease in Childhood

5 Sefydliad Joseph Rowntree (2008). The costs of child poverty for individuals and society. Ar gael yn: 2301-child-poverty-costs.pdf

6 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022). Why free school meal recipients earn less than their peers. Ar gael yn: Why free school meal recipients earn less than their peers - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

7 Bramley a Fitzpatrick (2017). Homelessness in the UK: who is most at risk? Ar gael yn: Full article: Homelessness in the UK: who is most at risk?

8 Y Sefydliad Polisi Addysg (2024). Annual Report. Ar gael yn: Annual Report 2024: Disadvantage - Y Sefydliad Polisi Addysg

9 Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2022). The UK education system preserves inequality – new report. Ar gael yn: The UK education system preserves inequality – new report | Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

10 Griggs a Walker (2008). The costs of child poverty for individuals and society: A literature review. Ar gael yn: 2301-child-poverty-costs.pdf

11 Barnardos (2022). At what cost? The impact of the cost-of-living crisis on children and young people. Ar gael yn: At what cost_impact of cost of living final report.pdf

12 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022). Why free school meal recipients earn less than their peers. Ar gael yn: Why free school meal recipients earn less than their peers - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

13 Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2020). A Broken Social Elevator? How to Promote Social Mobility. Ar gael yn: http://dx.doi.org/https://doi.org/10.1787/9789264301085-en

14 GIG Lloegr (2024). National Child Measurement Programme, England, 2024/25 School Year. Ar gael yn: National Child Measurement Programme, England, 2023/24 School Year - NHS England Digital

15 Y Swyddfa Gwella Iechyd a Gwahaniaethau (2025). National Dental Epidemiology Programme (NDEP) for England: oral health survey of 5 year old children 2024. Ar gael yn: National Dental Epidemiology Programme (NDEP) for England: oral health survey of 5 year old schoolchildren 2024 - GOV.UK

16 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025). Healthy life expectancy by national area deprivation, England and Wales: between 2013 to 2015 and 2020 to 2022. Ar gael yn: Healthy life expectancy by national area deprivation, England and Wales - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

17 Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2025). Living standards, poverty and inequality in the UK. Ar gael yn: Living standards, poverty and inequality in the UK | Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

18 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Households Below Average Income (HBAI) statistics for 2023/24. Ar gael yn: Households below average income: for financial years ending 1995 to 2024 - GOV.UK

19 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Households Below Average Income (HBAI) statistics for 2023/24. Ar gael yn: Households below average income: for financial years ending 1995 to 2024 - GOV.UK

20 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Deep Material Poverty: FYE 2024. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/deep-material-poverty-financial-year-ending-2024

21 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Households Below Average Income (HBAI) statistics for 2023/24. Ar gael yn: Households below average income: for financial years ending 1995 to 2024 - GOV.UK

22 Sefydliad Resolution (2025). No half measures: Settling child poverty on a downward course and the Autumn Budget. Ar gael yn: No half measures • Sefydliad Resolution

23 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Child Poverty Strategy: Impact on low income poverty levels and children gaining in the United Kingdom. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/child-poverty-strategy-impact-on-low-income-poverty-levels-and-children-gaining-in-the-uk-december-2025

24 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Introduction of single maintenance collection and transfer service in the Child Maintenance Service – impact on child poverty levels. Ar gael yn: Introduction of single maintenance collection and transfer service in the Child Maintenance Service – impact on child poverty levels - GOV.UK

25 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Free School Meals expansion to all children on Universal Credit – Impact on individual and child poverty levels and number of children in households receiving Universal Credit. Ar gael yn: Free School Meals expansion to all

children on Universal Credit – Impact on individual and child poverty levels and number of children in households receiving Universal Credit - GOV.UK

26 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Child Poverty Strategy: Impact on low income poverty levels and children gaining in the United Kingdom. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/child-poverty-strategy-impact-on-low-income-poverty-levels-and-children-gaining-in-the-uk-december-2025

27 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Child Poverty Strategy Parents and Carers Research (Adroddiad ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau rhif 1097). Ar gael yn: Child Poverty Strategy parents and carers research - GOV.UK

28 Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr (2025). Research with children to inform the Government's Child Poverty Strategy. Ar gael yn: Research with children to inform the Government's Child Poverty Strategy | Comisiynydd Plant Lloegr

29 Changing Realities (2025). Ar gael yn: changingrealities.org

30 Swyddfa'r Cabinet (2024). Child Poverty Analytical Expert Reference Group - Terms of Reference. Ar gael yn: Child Poverty Analytical Expert Reference Group - Terms of Reference (HTML) - GOV.UK

31 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Households Below Average Income (HBAI) statistics for 2023/24. Ar gael yn: Households below average income: for financial years ending 1995 to 2024 - GOV.UK

32 Sefydliad Resolution (2025). No half measures: Settling child poverty on a downward course and the Autumn Budget. Ar gael yn: No half measures • Sefydliad Resolution

33 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Deep Material Poverty: FYE 2024. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/deep-material-poverty-financial-year-ending-2024

34 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Deep Material Poverty: FYE 2024. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/deep-material-poverty-financial-year-ending-2024

35 Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr (2025). Research with children to inform the Government's Child Poverty Strategy. Ar gael yn: Research with children to inform the Government's Child Poverty Strategy | Comisiynydd Plant Lloegr

36 Unicef (2025). The State of the World's Children 2025: Ending child poverty. Ar gael yn: The State of the World's Children 2025: Ending child poverty

37 Ffigur 1: Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Households Below Average Income (HBAI) statistics for 2023/24. Ar gael yn: Households below average income: for financial years ending 1995 to 2024 - GOV.UK; Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2025). Living standards, poverty and inequality in the UK. Ar gael yn: Living standards, poverty and inequality in the UK | Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. Nodiadau: Data ar gyfer blynyddoedd calendr a geir tan 1994/95, cyn iddynt newid yn ddata ar gyfer

blynyddoedd ariannol. Mae'r data'n cynnwys Prydain Fawr cyn 2002/03, a'r DU wedi hynny

38 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Households Below Average Income (HBAI) statistics for 2023/24. Ar gael yn: Households below average income: for financial years ending 1995 to 2024 - GOV.UK

39 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025). Employment rates of people by parental status: Table P. Ar gael yn: Employment rates of people by parental status: Table P - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

40 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Households Below Average Income (HBAI) statistics for 2023/24. Ar gael yn: Households below average income: for financial years ending 1995 to 2024 - GOV.UK

41 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Households Below Average Income (HBAI) statistics for 2023/24. Ar gael yn: Households below average income: for financial years ending 1995 to 2024 - GOV.UK

42 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Households Below Average Income (HBAI) statistics for 2023/24. Ar gael yn: Households below average income: for financial years ending 1995 to 2024 - GOV.UK

43 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025). House price to workplace-based earnings ratio. Ar gael yn: House price to workplace-based earnings ratio - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

44 Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2025). Social housing lettings in England, tenancies: April 2024 to March 2025. Ar gael yn: Social housing lettings in England, tenancies: April 2024 to March 2025 - GOV.UK

45 Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2025). Local authority housing data. Ar gael yn: Local authority housing data - GOV.UK

46 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Households Below Average Income (HBAI) statistics for 2023/24. Ar gael yn: Households below average income: for financial years ending 1995 to 2024 - GOV.UK

47 Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2025). Statutory homelessness England level time series "live tables", Table TA1 - Number of households in temporary accommodation at the end of quarter by type of TA provided England, 1998 Q1 to 2025 Q2. Ar gael yn: Tables on homelessness - GOV.UK

48 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025). CPI ANNUAL RATE 00: ALL ITEMS 2015=100. Ar gael yn: CPI ANNUAL RATE 00: ALL ITEMS 2015=100 - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

49 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025). Household Cost Indices for UK household groups by children status and income group: February 2007 to September 2025.

Ar gael yn: Household Cost Indices for UK household groups by children status and income group: February 2007 to September 2025 - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

50 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Abstract of DWP benefit rate statistics 2024. Ar gael yn: Abstract of DWP benefit rate statistics 2024 - GOV.UK; Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Benefit and pension rates 2025 to 2026. Ar gael yn: Benefit and pension rates 2025 to 2026 - GOV.UK.

51 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025). Dataset(s): Consumer price inflation tables. Ar gael yn: Consumer price inflation tables - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol;

52 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025). Household Cost Indices for UK household groups by children status and income group: February 2007 to September 2025. Ar gael yn: Household Cost Indices for UK household groups by children status and income group: February 2007 to September 2025 - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

53 Davies ac Evans (2023). The Poverty Premium in 2022: Progress and problems. Ar gael yn: The poverty premium in 2022 - Progress and problems

54 Davies ac Evans (2023). The Poverty Premium in 2022: Progress and problems. Ar gael yn: The poverty premium in 2022 - Progress and problems

55 Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2024). How have English councils' funding and spending changed? 2010 to 2024. Ar gael yn: How have English councils' funding and spending changed? 2010 to 2024 | Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

56 Sefydliad Joseph Rowntree (2024). The impact of hardship on primary schools and primary and community Healthcare. Ar gael yn: https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/pdfs/the-impact-of-hardship-on-primary-schools-and-primary-and-community-healthcare-828c827367f788149908654d208a81cd.pdf

57 Ffigur 2: Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Households Below Average Income (HBAI) statistics for 2023/24. Ar gael yn: Households below average income: for financial years ending 1995 to 2024 - GOV.UK

58 Ffigur 3: Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Households Below Average Income (HBAI) statistics for 2023/24. Ar gael yn: Households below average income: for financial years ending 1995 to 2024 - GOV.UK

59 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Households Below Average Income (HBAI) statistics for 2023/24. Ar gael yn: Households below average income: for financial years ending 1995 to 2024 - GOV.UK

60 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Deep Material Poverty: FYE 2024. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/deep-material-poverty-financial-year-ending-2024

61 Changing Realities (2025). Ar gael yn: changingrealities.org

62 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Child Poverty Strategy Parents and Carers Research. Adroddiad ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau rhif 1097. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/child-poverty-strategy-parents-and-carers-research

63 Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr (2025). Research with children to inform the Government's Child Poverty Strategy. Ar gael yn: Research with children to inform the Government's Child Poverty Strategy | Comisiynydd Plant Lloegr

64 Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr (2025). Research with children to inform the Government's Child Poverty Strategy. Ar gael yn: Research with children to inform the Government's Child Poverty Strategy | Comisiynydd Plant Lloegr

65 Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr (2025). Research with children to inform the Government's Child Poverty Strategy. Ar gael yn: Research with children to inform the Government's Child Poverty Strategy | Comisiynydd Plant Lloegr

66 Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant (2025). Effects of poverty. Ar gael yn: Effects of poverty | CPAG

67 Llywodraeth EF (2021). The Best Start for Life A Vision for the 1,001 Critical Days The Early Years Healthy Development Review Report. Ar gael yn: The Best Start for Life - The Early Years Healthy Development Review Report

68 Cyfadran Iechyd y Cyhoedd (dim dyddiad). Why Poverty Matters to Health. Ar gael yn: Why Poverty Matters to Health - Cyfadran Iechyd y Cyhoedd

69 Lai, Wickham, Law, Whitehead, Barr a Taylor-Robinson (2019). Poverty dynamics and health in late childhood in the UK: evidence from the Millennium Cohort Study. Ar gael yn: Poverty dynamics and health in late childhood in the UK: evidence from the Millennium Cohort Study | Archives of Disease in Childhood

70 Y Ganolfan Iechyd Meddwl (2015). Children of the new century. Ar gael yn: Children of the new century - Y Ganolfan Iechyd Meddwl

71 Yr Adran Addysg (2017). Analysing family circumstances and education: Increasing our understanding of ordinary working families. Ar gael yn: Analysing family circumstances technical consultation document.pdf

72 Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2022).The UK education system preserves inequality – new report. Ar gael yn: The UK education system preserves inequality – new report | Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

73 Y Sefydliad Polisi Addysg (2025). Annual Report 2025. Ar gael yn: Annual Report 2025 - Y Sefydliad Polisi Addysg

74 Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr (2025). Research with children to inform the Government's Child Poverty Strategy. Ar gael yn: Research with children to inform the Government's Child Poverty Strategy | Comisiynydd Plant Lloegr

75 Trysorlys EF (2025). Statement of Funding Policy: Funding the Sottish Government, Welsh Government and Northern Ireland Executive. Ar gael yn: Statement_of_Funding_Policy.pdf

76 Llywodraeth yr Alban (2022). Best Start, Bright Futures. Ar gael yn: Best Start, Bright Futures | GOV.SCOT

77 Llywodraeth Cymru (2024). Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024. Ar gael yn: Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024 | LLYW.CYMRU

78 Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon (2025). Northern Ireland Executive's Anti Poverty Strategy. Ar gael yn: Consultation on NI Executive Anti-Poverty Strategy | NI GOV



# Pennod 3: Cynyddu incwm teuluoedd

***"Rywbryd yn y dyfodol, fe hoffwn i gael gyrfa yn hytrach na dim ond pa swydd fach bynnag y galla i ei gwneud ar yr un pryd â magu'r plant. Dydw i ddim yn gwybod sut y gallwn i wneud hynny ar hyn o bryd."***

(Rhiant/gofalwr, Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban)[79]

## Crynodeb

Gwyddom fod rhieni'n gwneud popeth o fewn eu gallu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i'w plant drwy sicrhau eu bod yn cael cartref diogel a chynnes, bwyd ar y bwrdd, a chyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'u ffrindiau.

Rydym am i bob rhiant sy'n gallu gweithio gael budd o waith da a sicr sy'n ei alluogi i gamu ymlaen mewn bywyd a chefnogi ei deulu. Bydd byw ar aelwyd sy'n gweithio yn fuddiol i blant mewn ffyrdd ehangach hefyd. Mae tyfu i fyny mewn teulu sy'n gweithio yn gysylltiedig â chyrhaeddiad addysgol gwell a llai o risg o dlodi a diweithdra i blant eu hunain pan fyddant yn oedolion.[80,81]

Mae rhieni'n cydnabod manteision gweithio ac felly mae cyfraddau cyflogaeth rhieni eisoes yn uchel. Ar hyn o bryd, mae bron i dri chwarter y plant sy'n tyfu i fyny mewn tlodi yn byw mewn teulu sy'n gweithio.[82] Dyma pam rydym yn cynnal rhaglen helaeth i drawsnewid gwasanaethau cyflogaeth drwy ein cynllun i Gael Prydain i Weithio, gan chwalu rhwystrau rhag gwaith drwy fuddsoddiad parhaus yn y gofal plant a ariennir gan y Llywodraeth lle rydym yn disgwyl gwario dros £9 biliwn y flwyddyn nesaf, a thrawsnewid hawliau cyflogaeth yn y ffordd fwyaf erioed drwy ein cynllun i Wneud i Waith Dalu.

Ceir rhieni na allant weithio o bosibl, er enghraifft oherwydd anabledd difrifol neu gyfnodau anodd y tu hwnt i'w rheolaeth. Nid yw'n iawn bod gennym system lle y caiff eu cosbi heb fod bai arnynt o gwbl. Dyma pam rydym am sicrhau bod y system nawdd cymdeithasol ar gael i gefnogi pob teulu, pryd bynnag y bydd angen hynny a beth bynnag fo maint y teulu, gan gymryd camau ar yr un pryd i sicrhau bod gwaith yn talu.

Yn y tymor hwy, ein huchelgais yw sicrhau y bydd nawdd cymdeithasol yn cynnig rhwyd ddiogelwch pan fydd angen; na fydd amgylchiadau'r rhan fwyaf o rieni yn cyfyngu ar eu cyfleoedd i weithio a chamu ymlaen; ac y gall teuluoedd gael gafael ar ofal plant fforddiadwy o ansawdd da. Byddwn yn cadw golwg ar y sefyllfa drwy'r metrigau Cael Prydain i Weithio a gyhoeddir ar y bwlch o ran cyfraddau cyflogaeth rhwng rhieni sengl a rhieni mewn cwpl, a chanran y teuluoedd mewn cwpl lle mae o leiaf un rhiant yn ddi-waith.

## Yr her sy'n wynebu plant a theuluoedd

I ormod o deuluoedd, nid yw gwaith yn ffordd sicr o godi allan o dlodi mwyach.

Mae'r system nawdd cymdeithasol yn parhau i gyflawni rôl allweddol i gefnogi teuluoedd. O nawdd cymdeithasol y daw tua



40% o'r incwm ar gyfer y plant tlotaf.[83] Mae'r newidiadau strwythurol a'r toriadau a wnaed i les dros y blynyddoedd diwethaf wedi cyfyngu ar y cymorth sydd ar gael i blant, gan dorri'r cysylltiad rhwng angen a hawl a'i gwneud yn anos i deuluoedd gael deupen llinyn ynghyd.

Mae teuluoedd mwy bellach yn cynrychioli cyfran gynyddol o'r rhai sy'n byw mewn tlodi, gan gyfrif am tua hanner yr holl blant mewn tlodi o gymharu â thraean yn 2010/11 – cynnydd o 900,000[84] a hanner y plant mewn tlodi materol dwfn.[85]

Cyflwynwyd y cap dau blentyn ar Gredyd Cynhwysol yn 2017 ac mae'n rhoi terfyn o ddau blentyn ar y cymorth sydd ar gael i'r rhan fwyaf o aelwydydd. Mae'r cap dau blentyn yn effeithio ar 1.6 miliwn o blant mewn tua 450,000 o deuluoedd.[86] Mae bron i chwech o bob 10 o'r aelwydydd hynny mewn gwaith ac maent yn gwneud y pethau cywir ar gyfer eu plant, ond mae lleihad mewn nawdd cymdeithasol a chynnydd mewn costau byw wedi gadael llawer ohonynt islaw'r ffin tlodi. Mae angen i rieni sy'n gweithio'n galed ac sydd â mwy na dau o blant wybod y bydd y system nawdd cymdeithasol yno i'w cefnogi os byddant yn dioddef caledi. Cafodd llawer o'r teuluoedd hyn eu plant ymhell cyn iddynt wneud hawliad Credyd Cynhwysol.

Er eu bod yn wynebu rhwystrau ychwanegol, mae cyfradd cyflogaeth gyfartalog rhieni yn y DU, sef 84%, yn llawer uwch na'r gyfradd cyflogaeth o 71% ymhlith oedolion heb blant dibynnol.[87]

Gall cydbwyso gweithio a magu plant fod yn heriol, a menywod fydd yn ysgwyddo'r rhan fwyaf o gyfrifoldebau yn y cartref yn aml.[88] Mae 80% o famau mewn cyplau a 65% (o gymharu â 71% yn 2019) o rieni sengl (sef menywod yn bennaf) yn gweithio.[89]

Plant mewn teuluoedd lle nad yw'r naill riant na'r llall yn gweithio sy'n wynebu'r cyfraddau tlodi uchaf yn seiliedig ar incwm cymharol isel (62%). Os bydd un rhiant yn gweithio'n llawn amser a'r llall yn ddi-waith, bydd 41% o blant mewn tlodi; bydd hyn yn gostwng i 16% os bydd un rhiant yn gweithio'n llawn amser a'r llall yn gweithio'n rhan-amser, ac i 8% os bydd y ddau'n gweithio'n llawn amser. I rieni sengl, bydd 43% o blant mewn tlodi os bydd y rhiant yn gweithio'n rhan-amser, a bydd hyn yn gostwng i 19% os bydd yn gweithio'n llawn amser.[90]

Mae rhieni'n wynebu rhwystrau sylweddol sy'n eu hatal rhag gweithio mwy, megis trafnidiaeth annibynadwy a diffyg mynediad at ofal plant fforddiadwy o ansawdd. Mae data arolwg a gasglwyd yn 2024,[91] cyn i ofal plant a ariennir gan y Llywodraeth gael ei ehangu i 30 awr yn ddiweddar, yn dangos bod rhwystrau'n dal i fodoli i rai teuluoedd. Ymhlith teuluoedd â phlant hyd at 4 oed, dywedodd bron i bedwar o bob 10 rhiant nad oedd digon o leoedd gofal plant ar gael yn lleol, a'u bod o'r farn bod fforddiadwyedd

gofal plant lleol yn weddol wael neu'n wael iawn. O blith y mamau nad oeddent yn gweithio yn y teuluoedd hyn, dywedodd dros hanner (54%) pe gallent drefnu gofal plant cyfleus, dibynadwy a fforddiadwy o ansawdd da, y byddai'n well ganddynt weithio. Gall cost uchel gofal plant leihau budd dychwelyd i'r gwaith yn sylweddol. Hefyd, mae argaeledd darpariaeth gofal plant lleol yn her, a dywedodd 39% o'r rhieni a holwyd yn 2024 oedd â phlant hyd at 4 oed ei fod yn 'annigonol'.[92]

Er gwaethaf cymhellion ariannol cryf i weithio o fewn Credyd Cynhwysol, mae'n bosibl na fydd yr enillion ariannol yn ddigon i rai rhieni i'w cymell i weithio neu weithio mwy o oriau.

Hefyd, gwyddom nad yw rhai rhieni sengl yn cael y cymorth y mae ganddynt hawl iddo gan y rhieni nad ydynt yn byw gyda nhw. Ymhlith teuluoedd sydd wedi gwahanu ac nad oes ganddynt drefniant cynhaliaeth plant, mae 51% o'r plant mewn tlodi, o gymharu â 37% o'r rhai sydd â threfniant o'r fath.[93]

## Mynd ymhellach i gynyddu incymau teuluoedd

Drwy'r strategaeth hon, byddwn yn adeiladu ar waith y Llywodraeth hon hyd yma, ac yn mynd i'r afael â'r heriau hyn ymhellach drwy wneud y canlynol:

1. Sicrhau bod y system nawdd cymdeithasol yno i'r bobl y bydd ei hangen arnynt a'i bod yn helpu teuluoedd i gynyddu incwm drwy waith
2. Sicrhau newid sylweddol mewn cymorth cyflogaeth a sgiliau
3. Sicrhau bod gwaith yn talu a galluogi rhieni i gydbwyso gwaith a chyfrifoldebau gofal plant drwy swyddi hyblyg o ansawdd da.
4. Gwella mynediad at ofal plant o ansawdd da gan gynnwys y 30 awr a ariennir gan y Llywodraeth er mwyn i rieni allu gweithio
5. Helpu rhieni sengl i sicrhau na fydd plant ar eu colled pan fydd teuluoedd yn gwahanu

## Sicrhau bod y system nawdd cymdeithasol yno i'r bobl y bydd ei hangen arnynt a'i bod yn helpu teuluoedd i gynyddu eu hincwm drwy waith

Rydym yn cydnabod y bydd mynd i'r afael â thlodi plant a'i achosion sylfaenol sydd â gwreiddiau dwfn yn cymryd amser, ond mae angen i deuluoedd sy'n delio ag effaith tlodi gael cymorth nawr. Felly, mae angen i ni gymryd camau i wrthdroi'r duedd o gynnydd mewn tlodi plant yn y tymor byr. Os na fyddwn yn gweithredu, bydd miloedd yn rhagor o blant yn mynd i galedi.

Er mwyn gostwng cyfraddau tlodi plant yn ystod y senedd hon, byddwn yn gweithredu ar unwaith i ddiddymu'r cap dau blentyn.

Plant mewn teuluoedd mawr sydd wedi wynebu'r rhan fwyaf o'r cynnydd mewn tlodi, ac mae 300,000 o blant mewn tlodi yn uniongyrchol oherwydd y cap dau blentyn. Heb weithredu, bydd yn tynnu 150,000 yn rhagor o blant i mewn i dlodi erbyn 2030, gan olygu y bydd mwy o blant yn wynebu caledi heddiw, tra bydd effeithiau andwyol



tyfu i fyny mewn tlodi yn ymestyn ymhell i'w dyfodol.[94]

Dyma pam y bydd y Llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth i ddiddymu'r cap dau blentyn cyn gynted â phosibl.

Bydd y weithred hon yn codi 450,000 o blant allan o incwm cymharol isel yn ystod y senedd hon. Bydd tua 2 filiwn o blant yn byw ar aelwydydd y bydd eu hincwm yn cynyddu o ganlyniad i ddiddymu'r cap dau blentyn, gan gynnwys 600,000 o blant ar aelwydydd mewn tlodi materol dwfn.[95] Ynghyd â'r camau gweithredu ehangach a nodir yn y strategaeth hon, mae hyn yn cynrychioli buddsoddiad yn ein cenhedlaeth nesaf o bobl ifanc, gan sicrhau y caiff pob plentyn y dechrau gorau mewn bywyd.

Teuluoedd sydd mewn gwaith yw'r mwyafrif (59%) y bydd diddymu'r cap yn effeithio arnynt. Bydd y newid hwn yn lleddfu caledi yn uniongyrchol, ac yn helpu mwy o deuluoedd i fforddio'r hanfodion, gan gynnig cyfle mawr ei angen iddynt gael eu gwynt.

Mae'r buddsoddiad hwn yn gyfystyr â blaendal ar ddyfodol Prydain. Bydd peidio â gwneud dim byd yn costio llawer mwy i'r DU na buddsoddi nawr, gan y bydd pob punt a gaiff ei gwario gennym ar godi plant allan o dlodi yn fuddsoddiad mewn gwell iechyd, cyrhaeddiad addysgol, a chanlyniadau cyflogaeth – ac yn gosod sylfaen fwy cadarn ar gyfer ein heconomi yn y dyfodol.

Wrth wneud y newid hwn, bydd y Llywodraeth yn diddymu'r gyfundrefn esemptiadau sy'n gysylltiedig â'r cap dau

blentyn, gan gynnwys achosion o genhedlu anghydsyniol. Pan ddaw'r diwygiadau hyn i rym, ni fydd neb yn gofyn byth eto i'r un fam brofi bod ei phlentyn wedi cael ei genhedlu drwy drais neu orfodaeth er mwyn cael cymorth hanfodol.

## Astudiaeth Achos: Stori Tasha: effaith y cap dau blentyn

Mae Tasha, sy'n byw yn Ne-orllewin Lloegr gyda'i phartner a'i phedwar plentyn, yn gweithio'n hunangyflogedig fel glanhäwr a goruchwyliwr arholiadau, a thirmon yw ei phartner. Yn 2018, bu gŵr Tasha farw yn sydyn, gan ei gadael hi ar ei phen ei hun gyda thri o blant. Ar ôl ychydig flynyddoedd, cyfarfu â'i phartner presennol, a gwnaethant benderfynu cael plentyn gyda'i gilydd – eu merch, Mabel.

Er bod y ddau riant yn gweithio, mae eu sefyllfa ariannol wedi bod dan bwysau cynyddol oherwydd y cynnydd mewn costau byw ers COVID-19. Roedd her ychwanegol yn wynebu'r teulu pan gafodd eu cais am Gredyd Cynhwysol ar gyfer eu plentyn ieuengaf, Mabel, ei wrthod am iddi gael ei geni ar ôl i'r cap dau blentyn gael ei gyflwyno, gan ei gwneud yn anodd iddynt dalu costau hanfodol a gorfodi eu plant hŷn i fynd heb brofiadau pwysig.

Mae Tasha yn teimlo nad oherwydd diffyg ymdrech y maent yn wynebu caledi, ond am nad yw'r system budd-daliadau'n adlewyrchu eu hamgylchiadau go iawn. Mae'n credu y byddai diddymu'r cap dau blentyn yn galluogi ei theulu i gynnig cyfleoedd gwell i'r plant, fel mynd ar deithiau ysgol, fforddio dillad newydd, a chymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol, gan eu helpu i gael plentyndod sy'n rhoi mwy o foddhad a mwynhad iddynt.

Yn ogystal ag ailgyflwyno cymorth i bob plentyn drwy ddiddymu'r cap dau blentyn, mae'r Llywodraeth eisoes wedi cymryd camau i gefnogi pob teulu.

Fel rhan o Gynllun ar gyfer Newid y Llywodraeth i roi mwy o arian ym mhocedi pobl a chodi safonau byw, rhoddwyd y Gyfradd Ad-dalu Teg ar waith ym mis Ebrill 2025. Mae'r newid hwn wedi gostwng y cap cyffredinol ar ddidyniadau Credyd Cynhwysol o 25% i 15% o lwfans safonol cwsmer, gan gefnogi 1.2m o aelwydydd (700,000 o deuluoedd â phlant) â £420 y flwyddyn a £35 y mis ar gyfartaledd. Bydd hyn yn ategu cyllidebau teuluoedd ac yn eu helpu i dalu costau o ddydd i ddydd, gan barhau i fynd i'r afael â rhai dyledion penodol ar yr un pryd.

Yn ddiweddar, gwnaethom hefyd ymgynghori ar newidiadau i wella prosesau casglu a gorfodi'r dreth gyngor. Bydd hyn yn sicrhau bod aelwydydd mewn sefyllfa well i reoli eu biliau, ac y cânt eu trin yn deg pan fyddant yn wynebu camau gorfodi. Fel rhan o hyn, byddwn yn ystyried sut y gall y newidiadau hyn gefnogi teuluoedd agored i niwed yn benodol. Gallai hyn gynnwys cyhoeddi canllawiau anstatudol sy'n nodi disgwyliadau'r Llywodraeth ar gyfer cynghorau ac arferion gorau wrth gefnogi teuluoedd agored i niwed sydd mewn dyled. Mae llywodraeth ganolog hefyd yn ymrwymedig i wella'r ffordd y caiff aelwydydd sydd mewn dyled eu trin a bydd yn lansio modiwl hyfforddiant cynhwysfawr ar fod yn agored i niwed y bydd disgwyl i bob gwas sifil sy'n gweithio ym maes rheoli dyledion ei gwblhau. Cafodd cymorth

ehangach i bobl â phroblemau dyled, gan gynnwys cynnydd mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori ar ddyledion, ei nodi yn y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol. Nod y Strategaeth hon yw sicrhau y gall pawb gael gafael ar y cynhyrchion ariannol y bydd eu hangen arnynt i gefnogi eu gwydnwch ariannol a chymryd rhan yn yr economi, gyda ffocws ar fynediad at wasanaethau bancio, mynediad at gredyd, a galluogrwydd ariannol.

Ar ben hynny, arweiniodd y Ddeddf Credyd Cynhwysol at y cynnydd parhaus cyntaf uwchlaw chwyddiant yng nghyfradd sylfaenol Credyd Cynhwysol ers iddo gael ei gyflwyno. Mae hyn yn golygu y bydd ychydig yn llai na phedair miliwn o aelwydydd yn cael budd o benderfyniad y Llywodraeth i gynyddu lwfans safonol Credyd Cynhwysol – a fydd, yn ôl yr amcangyfrifon, yn werth £725 y flwyddyn erbyn 2029/30 mewn termau arian parod yn seiliedig ar ragdybiaethau economaidd Datganiad y Gwanwyn 2025 ar gyfer rhieni sengl sy'n 25 oed neu'n hŷn (£250 y flwyddyn uwchlaw chwyddiant).[96]

Bydd y newid hwn, ynghyd â gwrthdroi'r newidiadau i Asesiadau Gallu i Weithio a gyflwynwyd gan y Llywodraeth flaenorol, yn helpu i godi 50,000 o blant allan o incwm cymharol isel yn ystod y senedd hon.[97] Mae'r effaith hon wedi'i chynnwys yn y llinell sylfaen a ddefnyddir i ragamcanu effaith gyffredinol y Strategaeth.

Y tu hwnt i roi cymorth uniongyrchol, mae'r system nawdd cymdeithasol yn anelu at sicrhau bod gwaith bob amser yn talu. Fodd bynnag, gall y rhyngweithio rhwng amgylchiadau unigolion a systemau eraill arwain yn anfwriadol at gyfyngiadau a dibynnau. Hefyd, gall fod yn anodd i bobl ddeall p'un a fyddent mewn sefyllfa well pe baent yn dechrau gweithio neu'n cynyddu eu horiau ai peidio.

Fel rhan o'r adolygiad o Gredyd Cynhwysol, rydym wedi ystyried effaith budd-daliadau a drosglwyddir ar gymhellion i weithio o fewn Credyd Cynhwysol. Ceir dros 30 o fudd-daliadau a drosglwyddir, ac mae gan lawer o'r budd-daliadau hyn wahanol reolau neu drothwyon incwm. Gall pryder teuluoedd ynghylch colli un neu fwy o'r rhain beri iddynt osgoi gweithio mwy. Rydym eisoes wedi gweithredu ar un o'r rhai mwyaf arwyddocaol o'u plith, gan ymestyn prydau ysgol am ddim i aelwydydd sy'n cael Credyd Cynhwysol ac sydd â phlant yn yr ysgol, mewn meithrinfeydd ar safleoedd ysgolion ac mewn lleoliadau addysg bellach, newid sy'n golygu na chaiff rhieni eu cymell i weithio llai na 12 awr ar y Cyflog Byw Cenedlaethol mwyach.

Rydym hefyd yn ei gwneud yn haws i rieni a phobl ifanc sy'n byw mewn tai dros dro neu dai â chymorth gynyddu eu henillion, heb ofni y byddant yn colli cymorth budd-daliadau. Ar hyn o bryd, caiff budd-daliadau'r grŵp agored i niwed hwn eu tapro mewn ffordd lai ffafriol na phobl debyg sy'n byw mewn mathau eraill o lety. Yn dilyn y cyhoeddiad yng Nghyllideb yr Hydref 2025, byddwn yn newid hyn drwy gyflwyno mesurau a fydd yn diystyru incwm a enillir wrth gyfrifo Budd-dal Tai ar gyfer y grŵp hwn, fel na fyddant ar eu colled yn ariannol os byddant yn dechrau gweithio neu'n gweithio mwy o oriau.

Byddwn hefyd yn ystyried sut mae cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor a ddylunnir yn lleol ac a roddir ar waith gan gynghorau yn rhyngweithio â'r system budd-daliadau ehangach, ac yn cymell pobl i weithio. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn cyhoeddi canllawiau statudol er mwyn annog cynghorau i ystyried amgylchiadau ac anghenion teuluoedd agored i niwed yn ofalus wrth ddylunio eu cynlluniau cymorth ar gyfer y dreth gyngor.

### Pa rannau o'r DU y bydd y polisïau hyn yn effeithio arnynt?

Mae polisïau Llywodraeth y DU sydd â'r nod o sicrhau bod y system nawdd cymdeithasol yno i'r bobl y bydd ei hangen arnynt a'i bod yn helpu teuluoedd i gynyddu incwm drwy waith yn berthnasol i Gymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r system nawdd cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon yn gweithredu yn seiliedig ar egwyddor cydraddoldeb â system nawdd cymdeithasol Llywodraeth y DU.

Dim ond yn Lloegr y mae polisïau Llywodraeth y DU ar y dreth gyngor a newidiadau i gymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim yn berthnasol.

## Sicrhau newid sylweddol mewn cymorth cyflogaeth a sgiliau

Gall y cymorth cyflogaeth cywir helpu rhieni i oresgyn rhwystrau cymhleth rhag gweithio, cynyddu eu horiau a'u henillion, a chamu ymlaen ym myd gwaith. Mae'r Llywodraeth yn bwrw ymlaen ag ymyriadau yn y farchnad lafur a fydd yn arwain at newid sylweddol mewn cymorth ac yn helpu rhieni i ddechrau gweithio a chamu ymlaen ym myd gwaith. Mae Papur Gwyn Cael Prydain i Weithio, a ategwyd gan £240 miliwn yng Nghyllideb Hydref 2024, yn nodi cynlluniau uchelgeisiol y Llywodraeth i drawsnewid cymorth cyflogaeth. Hefyd, cadarnhaodd Adolygiad Gwariant mis Mehefin 2025 y byddwn yn cynyddu cyllid ar gyfer cymorth cyflogaeth i bron i £3.8 biliwn y flwyddyn erbyn 2028/29 er mwyn galluogi pobl i ddechrau gweithio a chamu ymlaen ym myd gwaith.

Ar gyfer y rhai nad ydynt mewn gwaith eto, rydym yn profi sut y gall ardaloedd lleol arloesi er mwyn ymgysylltu â phobl economaidd anweithgar a'u cefnogi'n well, gan gynnwys rhieni, er mwyn iddynt allu symud tuag waith, drwy ein cyllid gwerth £160 miliwn dros ddwy flynedd ar gyfer naw Arloeswr Anweithgarwch seiliedig ar le yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn gweithio gydag Awdurdod Llundain Fwyaf sydd, drwy un o'i Arloeswyr, yn ceisio lleihau rhwystrau cysylltiedig â chostau gofal plant sy'n atal rhieni rhag dychwelyd i'r gwaith, hyfforddi neu fynd yn hunangyflogedig drwy gynnig grantiau cymorth gofal plant. Rydym hefyd yn gweithio gydag Awdurdod Cyfun Gogledd-ddwyrain Lloegr ar ei gynllun Arloeswyr, lle mae'n tyfu rhaglen grantiau gofal plant er mwyn cynyddu'r cymorth gofal plant sydd ar gael er mwyn helpu i chwalu rhwystrau ymarferol rhag cyflogaeth sy'n wynebu rhieni.

***"Dydy [fy nhad] ddim yn hoffi [ei swydd], ond mae'n ei gwneud ar gyfer fy nheulu oherwydd does gennyn ni ddim llawer o arian; mae ond yn ei gwneud er mwyn i ni allu prynu ein siopa wythnosol."***

**(Bachgen 8 oed, Gwaith Ymchwil Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr)[98]**

Gofynnwyd i bob ardal yn Lloegr ddatblygu cynlluniau Cael Prydain i Weithio lleol sy'n nodi eu heriau yn y farchnad lafur leol ac yn nodi sut y byddant yn cydweithio ar lefel leol i fynd i'r afael â'r rhain. Gall hyn gynnwys camau gweithredu y gellir eu cymryd er mwyn helpu menywod sy'n gofalu am eu teuluoedd i ddechrau gweithio neu i gamu ymlaen ym myd gwaith lle mae hyn wedi cael ei nodi fel blaenoriaeth yn lleol.



Bydd rhieni nad ydynt yn gweithio yn aml yn wynebu rhwystrau sy'n ei gwneud yn anodd iddynt ddechrau gweithio, gan gynnwys anableddau a/neu gyflyrau iechyd. Nid yw bob amser yn hawdd i rieni gael gwybodaeth am y cymorth arbenigol y gallent ei gael a bydd eu cyfrifoldebau magu plant yn aml yn cuddio eu potensial i gael budd o hyn. Byddwn yn sicrhau y gall rhieni gael gafael ar raglenni priodol ac y bydd y rhaglenni hynny'n eu cefnogi, gan gynnwys Llwybrau at Waith sy'n cynnig cymorth cyflogaeth wedi'i bersonoli a'i deilwra i bobl sâl ac anabl drwy gyllid ychwanegol gwerth £1 biliwn y flwyddyn erbyn 2029/2030. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen deall y rhwystrau unigol a phenodol a all eu hwynebu, gan osgoi neidio i gasgliadau yn eu cylch fel rhieni a chydnabod eu cyfrifoldebau ychwanegol.

Bydd y cymorth a gynigir gan y Ganolfan Byd Gwaith a'r Gwasanaeth Swyddi a Gyrfaoedd sydd ar ddod yn addas i lawer o rieni. Byddwn yn sicrhau bod y gwasanaeth yn rhoi cyngor a chymorth wedi'u teilwra ar gyfer eu hanghenion fel rhieni – gan eu trin ag urddas a pharch bob amser. Byddwn hefyd yn symud i ffwrdd oddi wrth ddull 'ticio blychau' er mwyn hwyluso sgyrsiau mwy effeithiol am baratoi i weithio. Byddwn yn gweithio i chwalu unrhyw stigma a all fod yn gysylltiedig â mynd i Ganolfan Gwaith, gan sicrhau ei bod yn lle y bydd pobl yn mynd iddo i gael cymorth, yn hytrach na theimlo eu bod yn cael eu cosbi neu eu beirniadu am gael cymorth nawdd cymdeithasol.

Mae meddu ar y sgiliau cywir yn hanfodol, a chaiff gormod o rieni eu dal yn ôl gan ddiffyg sgiliau i ddechrau gweithio a chamu ymlaen ym myd gwaith. Mae sicrhau y gall rhieni gael yr hyfforddiant a'r cymorth cywir yn allweddol er mwyn sicrhau y gallant gael gwaith da a chamu ymlaen yn eu gyrfaoedd, ac y bydd plant yn teimlo nad oes terfyn ar eu huchelgeisiau. Dyna pam mae'r Llywodraeth, mewn partneriaeth â meiri ac arweinwyr lleol eraill, yn rhoi cymorth i rieni er mwyn datblygu eu sgiliau ar gyfer gwaith, gan gynnwys drwy Wersylloedd Sgiliau, hyfforddiant hyblyg a rhad ac am ddim wedi'i ddylunio ar y cyd â chyflogwyr ar gyfer oedolion yn Lloegr er mwyn mynd i'r afael â phrinder sgiliau mewn sectorau twf uchel, prentisiaethau a'r Gronfa Sgiliau

Oedolion gwerth £1.4 biliwn. Mae ein papur gwyn ar Addysg a Sgiliau ôl-16 yn nodi ein cynlluniau ar gyfer adeiladu ar y rhain er mwyn sicrhau y bydd gan bobl y sgiliau a'r wybodaeth y bydd eu hangen arnynt i lwyddo ym myd gwaith.

Dim ond y cam cyntaf yw hyn. Bydd y penderfyniad diweddar i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am sgiliau oedolion o'r Adran Addysg i'r Adran Gwaith a Phensiynau yn golygu bod gwaith datblygu sgiliau'n agosach at gyfleoedd gwaith, gan osod sgiliau wrth wraidd yr ymdrechion i helpu mwy o bobl i ddechrau gweithio a gwella rhagolygon gyrfa. Byddwn yn ymgorffori'r hyn a ddysgir o'n holl ymyriadau yn y farchnad lafur wrth ddylunio'r Gwasanaeth Swyddi a Gyrfaoedd newydd er mwyn sicrhau bod anghenion rhieni'n rhan greiddiol o'r gwasanaeth wedi'i drawsnewid yn y dyfodol.

### Pa rannau o'r DU y bydd y polisïau hyn yn effeithio arnynt?

Mae polisïau Llywodraeth y DU sydd â'r nod o sicrhau newid sylweddol mewn cymorth cyflogaeth yn berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Mae polisïau Llywodraeth y DU sydd â'r nod o sicrhau newid sylweddol mewn cymorth sgiliau yn berthnasol yn Lloegr.

## Sicrhau bod gwaith yn talu a galluogi rhieni i gydbwyso gwaith a chyfrifoldebau gofal plant drwy swyddi hyblyg o ansawdd da.

Er mwyn gallu bod yn gynhyrchiol yn y gwaith a diwallu anghenion eu plant, mae angen i rieni gael swyddi sy'n cynnig hyblygrwydd a chyfleoedd i gamu ymlaen iddynt. Mae gan gyflogwyr rôl allweddol i'w chyflawni a byddant yn elwa ar sgiliau rhieni yn y gweithlu. Mae gan y DU hanes hirsefydlog o sicrhau y caiff hawliau gweithwyr eu diogelu, er mwyn i bobl gael eu trin yn deg yn y gwaith, cael sicrwydd swydd, a chydbwyso gwaith â chyfrifoldebau teuluol.

***"Fel mam sengl i ddau o blant yn eu harddegau sydd â dwy swydd – mae gen i swydd amser llawn mewn swyddfa ac rwy'n gwneud gwaith gofal rhan-amser ar benwythnosau – bydda i'n aml yn gweithio mwy na 50 awr yr wythnos. Rwy'n teimlo'n rhwystredig am fy mod i'n dal i'w chael hi'n anodd diwallu anghenion sylfaenol."***

**(Rosa K, rhiant/gofalwr, Changing Realities)[99]**

Er bod yn rhaid i nawdd cymdeithasol chwarae ei ran, rhaid i'r gwaith ei hun dalu hefyd. Dyna pam y cyflwynwyd yr isafswm cyflog yn 1999 er mwyn diogelu gweithwyr incwm isel a chymell pobl i weithio. Gwnaethom gynyddu'r Cyflog Byw Cenedlaethol ar gyfer pawb 21 oed a throsodd 6.7% i £12.21 yr awr o fis Ebrill 2025 ymlaen, a bydd yn cynyddu i £12.71 yr awr o fis Ebrill 2026 ymlaen, er mwyn cynnig

cyflog teg i'r gweithwyr sydd ar y cyflogau isaf.

Bydd Cynllun Gwneud i Waith Dalu yn gwella hawliau cyflogaeth ar gyfer miliynau o bobl ledled Prydain Fawr. Bydd rhieni, yn enwedig rhieni sydd ar incymau isel neu mewn gwaith ansicr afreolaidd, yn cael budd o'r newidiadau arfaethedig a fydd yn gwella hyblygrwydd ac amddiffyniadau yn y gwaith. Yn amodol ar brosesau ymgynghori a deddfu, bydd y cyfreithiau a gaiff eu moderneiddio drwy'r Bil Hawliau Cyflogaeth[100] yn cynnwys:

- dod â chontractau dim oriau camfanteisiol i ben drwy ddeddfu i sicrhau y bydd gweithwyr yn cael cyfnod rhesymol o rybudd ynghylch eu patrymau shifftiau a hawl i oriau wedi'u gwarantu, gan alluogi rhieni i gynllunio ymlaen llaw er mwyn trefnu gofal plant, a thaliadau am shifftiau a gaiff eu canslo neu eu cwtogi ar fyr rybudd, gyda hawliau cyfatebol i weithwyr asiantaeth
- gwella mynediad at drefniadau gweithio hyblyg. Bydd 'prawf rhesymoldeb' newydd yn sicrhau y caiff ceisiadau dichonadwy am gael gweithio'n hyblyg eu derbyn. Bydd y Llywodraeth yn ymgynghori ar y diwygiadau hyn ar ddechrau 2026, a byddant yn dod i rym yn 2027
- hawliau ac amddiffyniadau newydd a fydd yn cynnig mwy o sicrwydd swyddi. Bydd hawl i absenoldeb tadolaeth ac absenoldeb rhiant heb dâl o'r diwrnod cyntaf, yn ogystal â gwell amddiffyniad i fenywod beichiog a mamau newydd rhag cael eu diswyddo, yn rhoi tawelwch meddwl i rieni
- gwella'r ffordd y caiff hawliau cyflogaeth eu gorfodi, drwy Asiantaeth Gwaith Teg a fydd yn dod â gorfodi hawliau cyflogaeth ynghyd â phwerau i ymchwilio i amrywiaeth ehangach o achosion o gam-drin gweithwyr, rhoi cosbau, a dwyn achosion i'r tribiwnlys cyflogaeth ar ran gweithwyr.

> ***"Mae'n fain arnon ni ond mae gennyn ni ddigon i fyw arno... ond does gennyn ni ddim llawer yn sbâr, sy'n ein gwneud ni'n rhwystredig oherwydd mae'r ddau ohonon ni'n gweithio'n galed a does gennyn ni ddim digon i ddangos am hynny."***
>
> **(Rhiant/gofalwr, Gwaith ymchwil gyda rhieni a gofalwyr ar gyfer y Strategaeth Tlodi Plant)[101]**

Bydd dyfodiad plentyn yn gyfnod trawsnewidiol ym mywyd teulu. Mae angen gwella'r system bresennol am nad yw'n cefnogi teuluoedd sy'n gweithio cystal ag y gallai eu cefnogi. Dyna pam y gwnaethom lasio'r Adolygiad o Absenoldeb a Thâl Rhiant ar 1 Gorffennaf 2025, a oedd yn cwmpasu'r holl hawliau cyfredol ac arfaethedig i absenoldeb a thâl rhiant. Nod yr adolygiad yw archwilio sut y gall y system gefnogi teuluoedd sy'n gweithio ac adlewyrchu realiti byd gwaith a gofal plant yr oes fodern yn well.

Mae gan gyflogwyr rôl allweddol i'w chyflawni er mwyn helpu rhieni i ffynnu yn y gwaith. Mae gan lawer o rieni nad ydynt yn gweithio, neu nad ydynt yn gweithio'n llawn amser, anableddau neu gyflyrau iechyd. Gwnaeth adolygiad nodedig Cadw Prydain i Weithio[102] gan Syr Charlie Mayfield, a gyhoeddwyd ar 5 Tachwedd, nodi'r effaith niweidiol ar unigolion, cyflogwyr a'r wladwriaeth yn sgil anweithgarwch economaidd. Mewn ymateb iddo, bydd y Llywodraeth yn gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr i ail-lunio'r ffordd y caiff problemau iechyd ac anableddau eu rheoli yn y gweithle drwy lansio blaengadau a arweinir gan gyflogwyr. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar atal, cymorth cynnar, a

gwell prosesau dychwelyd i'r gwaith, gan helpu mwy o bobl i aros mewn gwaith a rhoi hwb i gynhwysiant ar gyfer pobl anabl ledled y DU. Bydd hyn yn arbennig o fuddiol i rieni sy'n ei chael hi'n anodd dechrau gweithio, parhau i weithio a chamu ymlaen ym myd gwaith oherwydd rhwystrau sy'n gysylltiedig ag anabledd neu iechyd, ac yn arwain at fanteision ehangach i bob rhiant yn sgil dull sy'n canolbwyntio ar gynnig hyblygrwydd a chymorth sy'n seiliedig ar anghenion pobl.

Mae'n gallu bod yn arbennig o anodd i rieni â chyfrifoldebau gofalu am blentyn anabl neu blentyn â chyflwr iechyd hirdymor gyfuno'r rhain â gwaith am dâl, ac mae hynny hefyd yn wir am rieni sydd â chyfrifoldebau gofalu am aelodau eraill o'r teulu neu ffrindiau. Bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda gofalwyr a chyflogwyr i adolygu Deddf Absenoldeb Gofalwyr 2023, a roddodd hawl i gyflogeion gael amser i ffwrdd i ofalu am rywun sy'n anabl neu sydd â chyflwr iechyd hirdymor neu anaf.

### Pa rannau o'r DU y bydd y polisïau hyn yn effeithio arnynt?

Mae polisïau Llywodraeth y DU sydd â'r nod o sicrhau bod gwaith yn talu a galluogi rhieni i gydbwyso gwaith a chyfrifoldebau gofal plant drwy swyddi hyblyg o ansawdd da yn berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Mae'r Cyflog Byw Cenedlaethol hefyd yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon.

## Gwella mynediad at ofal plant o ansawdd da gan gynnwys y 30 awr a ariennir gan y Llywodraeth er mwyn i rieni allu gweithio

Mae angen i ofal plant fod yn fforddiadwy, ar gael, yn ddibynadwy ac yn ddigon hyblyg i anghenion rhieni. Mae'r Llywodraeth yn rhoi cymorth helaeth, ond gwyddom nad yw bob amser yn hawdd deall y cynigion hyn, manteisio arnynt na'u cyfuno. Mae'r rhwystrau hyn yn arbennig o ddifrifol i deuluoedd incwm isel a'u plant – yr union deuluoedd a allai gael y budd mwyaf. Rydym am sicrhau system sy'n helpu rhieni i weithio ac sy'n helpu plant i ffynnu. Mae'r Strategaeth Dechrau Gorau mewn Bywyd yn nodi sut y byddwn yn ehangu ac yn atgyfnerthu gwasanaethau i deuluoedd ac yn gwella hygyrchedd, fforddiadwyedd ac ansawdd addysg blynyddoedd cynnar a gofal i blant oedran ysgol yn Lloegr.

O fis Medi 2025 ymlaen, mae 30 awr o ofal plant a ariennir gan y Llywodraeth bellach ar gael i rieni cymwys sy'n gweithio ac sydd â phlant naw mis oed a throsodd, gan helpu miloedd yn rhagor o blant i ddechrau ysgol yn barod i ddysgu, a rhoi mwy o ryddid i rieni ynglŷn â swyddi ac oriau gwaith. Mae data diweddar o arolwg gan yr Adran Addysg[103] yn dangos ei bod yn bosibl bod penderfyniad blaenorol i ehangu gofal plant a ariennir gan y Llywodraeth – i 15 awr ar gyfer rhieni cymwys sy'n gweithio ac sydd â phlant rhwng naw mis a 2 oed, ym mis Medi 2024 – wedi cael effaith arbennig o gadarnhaol ar deuluoedd incwm is. Dywedodd bron i un o bob pump o rieni ag incymau aelwyd rhwng £20,000 a £39,000 fod eu horiau gwaith wedi cynyddu ers iddynt ddechrau hawlio gofal plant, sef yr uchaf o blith yr holl grwpiau incwm. Gall teuluoedd cymwys arbed hyd at £7,500 y flwyddyn fesul plentyn. Am y tro cyntaf ers



blynyddoedd, mae tystiolaeth o arolwg yn dangos bod costau gofal plant wedi lleihau ar gyfer plant o dan 3 oed yn Lloegr. Rhwng 2024 a 2025, mae pris lle rhan-amser mewn meithrinfa i blant 2 oed ac iau yn Lloegr wedi mwy na haneru – a hynny'n bennaf oherwydd oriau gofal plant a ariennir gan y Llywodraeth i rieni sy'n gweithio.[104]

Mae'r rhaglen meithrinfeydd ar safleoedd ysgolion, a ategir gan fwy na £400 miliwn, eisoes yn cyflawni ein hymrwymiad i greu degau o filoedd o leoedd mewn meithrinfeydd ar safleoedd ysgolion, gan helpu mwy o deuluoedd i gael gafael ar ofal plant a ariennir a rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant. Mae data gan ysgolion yn y rhaglen yn dangos bod y cylch cyntaf o gyllid eisoes ar y trywydd cywir i greu hyd at 6,000 o leoedd o'r flwyddyn academaidd hon ymlaen. Mae meithrinfeydd ar safleoedd ysgolion yn fwy tebygol o weithredu mewn ardaloedd o anfantais ac mae ganddynt gyfran uwch o blant ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau na darparwyr preifat. Yng Ngogledd neu Ganolbarth Lloegr y mae'r mwyafrif o'r meithrinfeydd newydd sy'n agor fel rhan o'r cam cyntaf wedi'u lleoli, gan gynnwys tua un o bob 10 yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr, gan gynyddu mynediad at ofal plant mewn ardaloedd â diffyg argaeledd a chefnogi'r cymunedau y mae ei angen arnynt fwyaf.

Rydym hefyd yn buddsoddi £600 miliwn i ymestyn y rhaglen Gweithgareddau a Bwyd Gwyliau am dair blynedd. Yn ogystal â mynd i'r afael â llwgu, bydd y rhaglen hon yn parhau i ddarparu gofal plant yn ystod y gwyliau ledled y wlad er mwyn helpu i ddiwallu anghenion gofal plant rhieni sy'n gweithio. Bydd hyn yn ychwanegol at tua 50,000 yn rhagor o leoedd gofal plant llawn a grëir drwy'r rhaglen Gofal Plant Cofleidiol Genedlaethol, sydd â'r nod o sicrhau y bydd pob rhiant i blant oedran ysgol gynradd y mae angen gofal plant yn ystod y tymor arno

yn gallu ei gael yn ei ardal leol rhwng 8am a 6pm.

Rydym hefyd yn creu clybiau brecwast am ddim ym mhob ysgol gynradd er mwyn cynnig dewisiadau gofal plant mwy fforddiadwy i rieni a helpu teuluoedd i fforddio costau byw, ble bynnag yn y wlad y maent yn byw. Mae ysgolion sy'n cynnig clybiau brecwast am ddim yn dweud bod ymddygiad, presenoldeb a chyflawniad academaidd wedi gwella. Lansiodd cynllun mabwysiadwyr cynnar yr Adran Addysg ym mis Ebrill 2025 gyda 750 o ysgolion ledled y wlad. Mae'r cyfnod profi a dysgu hwn yn dangos bod y dull hwn yn gweithio, ac mae ysgolion eisoes yn rhoi gwybod am fuddiannau, gan gynnwys gwell prydlondeb a phresenoldeb, yn ogystal ag amgylchedd tawelach yn ystod y diwrnod ysgol, sy'n sicrhau bod plant yn barod i ddysgu.

Bydd clybiau brecwast am ddim ym mhob ysgol gynradd yn cynnig dewisiadau gofal plant mwy fforddiadwy i rieni ac yn helpu teuluoedd i fforddio costau byw, ble bynnag yn y wlad y maent yn byw. Byddant yn arbed hyd at £450 a 95 awr y flwyddyn i rieni. Byddwn yn buddsoddi £80 miliwn dros y flwyddyn nesaf i'w cyflwyno mewn 2,000 o ysgolion ychwanegol. Rydym yn cynnig lleoedd ar gyfer hyd at 500,000 yn rhagor o blant, gan flaenoriaethu'r ysgolion mwyaf difreintiedig yn y wlad, ar gyfer y cyfnod cyntaf hwn o gyflwyno'r clybiau yn genedlaethol.

Ledled y DU, gall teuluoedd incwm isel sy'n cael Credyd Cynhwysol gael cryn dipyn o gymorth er mwyn eu helpu i dalu costau gofal plant. O dan y system bresennol, gall rhieni cymwys adhawlio hyd at 85% o'u costau gofal plant, hyd at uchafswm o £1,031.88 y mis ar gyfer un plentyn a £1,768.94 ar gyfer dau neu fwy o blant. Nod y cymorth hwn yw ei gwneud yn haws i rieni ddechrau gweithio neu aros mewn gwaith drwy leihau'r rhwystr ariannol y bydd gofal plant yn aml yn ei greu. Rydym yn cydnabod bod costau gofal plant yn berthnasol i bob plentyn unigol ac nid yw'n iawn bod gennym system nad yw'n adlewyrchu hyn.

Dyna pam y byddwn yn rhoi cymorth gofal plant o fewn Credyd Cynhwysol er mwyn helpu i dalu costau gofal plant ar gyfer pob plentyn yn hytrach na chyfyngu ar hyn i ddau blentyn, gan helpu rhieni sydd â theuluoedd mawr i ddechrau gweithio am ein bod yn cydnabod y rhwystrau sy'n eu hwynebu. Mae hyn yn golygu y bydd yr uchafswm y gellir ei ad-dalu ar gyfer costau gofal plant yn cynyddu £736.06 ar gyfer pob plentyn ychwanegol.

Gwyddom fod y broses o adhawlio costau gofal plant ymlaen llaw yn anodd i rieni ei deall ac felly byddwn yn symleiddio'r broses ac yn sicrhau ei bod yn glir i rieni sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd fod ganddynt hawl i gael cymorth ymlaen llaw, er mwyn iddynt fod yn hyderus y byddant yn cael help. Byddwn hefyd yn ymestyn cymhwysedd i gynnwys rhieni sy'n dychwelyd o absenoldeb rhiant er mwyn lleddfu'r broses anodd o ddychwelyd i'r gwaith.

Nod y mesurau hyn, ochr yn ochr â'r camau sy'n mynd rhagddynt i ehangu hawliau i rieni sy'n gweithio gael addysg gynnar wedi'i hariannu, yw sicrhau y bydd teuluoedd incwm isel mewn sefyllfa well i gael gofal plant o ansawdd da a gwella eu rhagolygon gwaith.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod mwy y gallwn ei wneud o hyd, a bydd yr Adran Addysg hefyd yn arwain adolygiad o ddarpariaeth gofal plant. Diben yr adolygiad hwn fydd symleiddio'r system ar gyfer darparwyr a theuluoedd, gan ei gwneud yn haws cael gafael ar ofal plant a chynyddu effaith gyffredinol cynnig y Llywodraeth.




## Pa rannau o'r DU y bydd y polisïau hyn yn effeithio arnynt?

Mae polisïau Llywodraeth y DU sydd â'r nod o wella mynediad at ofal plant o ansawdd da er mwyn i rieni allu gweithio yn berthnasol yn Lloegr.

Mae polisïau Llywodraeth y DU ar gynnig gofal plant Credyd Cynhwysol yn berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r system nawdd cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon yn gweithredu yn seiliedig ar egwyddor cydraddoldeb â'r DU.

## Helpu rhieni sengl i sicrhau na fydd plant ar eu colled pan fydd teuluoedd yn gwahanu

Gwyddom y gall unrhyw deulu wynebu digwyddiadau mewn bywyd sy'n arwain at chwalu'r berthynas rhwng rhieni, ac ni ddylai plant fod ar eu colled o ganlyniad i hynny. Rydym am sicrhau y bydd rhieni'n cael y cymorth y mae ganddynt hawl i'w gael. Bydd rhieni sengl yn ysgwyddo baich gorfod deall systemau hawliau cymhleth, a hynny weithiau yn dilyn profiadau o golled a cham-drin sy'n ychwanegu haen o fregusrwydd ac ansefydlogrwydd pan fydd teulu'n gwahanu ac yn rhoi plant mewn perygl o fyw mewn tlodi.

Mae'r Gwasanaeth Cynnal Plant (CMS) yn ffynhonnell incwm hanfodol i lawer o deuluoedd. Uchelgais y Llywodraeth yw creu gwasanaeth effeithlon a dibynadwy sy'n mynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio ac sy'n annog llawer o rieni i fanteisio arno er mwyn cynyddu'r arian sy'n llifo i'r rhieni y mae ei angen arnynt fwyaf.

> ***"Mae arna i ormod o ofn cysylltu â'r gwasanaeth cynhaliaeth plant am fod tad fy mab wedi bod yn talu rhy ychydig ers blynyddoedd, ond bydd yn cosbi fy mab os bydda i'n dweud unrhyw beth. Alla i ddim fforddio baich meddyliol hyn, heb sôn am y baich ariannol."***
>
> **(Evelyn D, rhiant/gofalwr, Changing Realities)[105]**

Byddwn yn deddfu i ailwampio'r CMS, a fydd yn gweithredu yn y dyfodol ar ffurf un gwasanaeth sy'n seiliedig ar y model Casglu a Thalu presennol lle y caiff yr holl daliadau eu rheoli, gyda gwell gallu i adnabod achosion o ddiffyg cydymffurfio a gweithredu arnynt.

Fel rhan o'r diwygiadau hyn, byddwn yn haneru'r ffioedd ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r CMS, gan gynnal ffi o 20% ar gyfer rhieni nad ydynt yn byw gyda'u plant ac sy'n gwrthod talu ar amser ac yn llawn.

Bydd gan rieni sydd yn y system Talu Uniongyrchol ar hyn o bryd ddewis:

- cadw eu hachos CMS a gaiff ei symud i'r gwasanaeth newydd a gwell, gan roi tawelwch meddwl iddynt y caiff eu taliadau cynhaliaeth eu gwneud ac y caiff camau dilynol eu cymryd ynghylch unrhyw broblemau, yn gyfnewid am ffi fach
- gwell cymorth i wneud a chynnal trefniant teuluol

Rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynigion hyn a chredwn y byddant yn mynd i'r afael â'r problemau sylfaenol â Thalu Uniongyrchol. Bydd y newid hwn yn atal rhieni rhag mynd yn gaeth i drefniadau aneffeithiol lle y bydd y taliadau a wneir i blant yn rhy isel neu'n anwadal, neu lle na chânt eu gwneud o gwbl. Gwyddom o waith ymchwil gyda chwsmeriaid Talu Uniongyrchol[106] mai dim ond chwech o bob 10 rhiant sy'n dweud eu bod yn cael yr holl daliadau cynhaliaeth plant sy'n ddyledus iddynt, ac mai dim ond pedwar o bob 10 sy'n dweud eu bod yn cael pob taliad ar amser. Bydd cael gwared ar Dalu Uniongyrchol yn golygu y gallwn fynd i'r afael â'r achosion cudd hyn o ddiffyg cydymffurfio a sicrhau bod arian yn llifo i'r plant yn yr achosion hyn.

Er mwyn cael yr effaith orau ar dlodi plant, mae angen i ni sicrhau bod mwy o blant mewn trefniadau effeithiol, ac rydym yn rhagweld y bydd y newidiadau hyn yn helpu i gyflawni hynny. Rydym yn amcangyfrif y gallai'r newid hwn olygu y bydd tua 20,000 yn llai o blant mewn tlodi yn ôl y metrig incwm cymharol isel ar ôl costau tai.[e,107] Er mwyn rhoi cymorth pellach i blant sy'n cael taliadau cynhaliaeth, gwnaed ymrwymiad, dros dro, gyda'r bwriad o'i wneud yn barhaol, i osod didyniadau cynhaliaeth plant yn uwch ar y rhestr o flaenoriaethau didyniadau Credyd Cynhwysol o fis Ebrill 2025 ymlaen, gan olygu mai hwn fydd y didyniad trydydd parti cyntaf i gael ei ddidynnu o ddyfarniad Credyd Cynhwysol. Bydd hyn yn rhoi mwy o amddiffyniad, gan sicrhau y caiff taliadau cynhaliaeth plant eu gwneud mewn achosion lle y caiff y cap ar ddidyniadau o 15% ei gyrraedd.

e Noder y cafodd y rhain eu cyfrifo gan ddefnyddio dull gwahanol i effeithiau tlodi cronnol y strategaeth.

Bydd cael gwared ar Dalu Uniongyrchol hefyd yn welliant sylweddol i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig sy'n defnyddio'r CMS, drwy leihau cyswllt â'r rhiant arall a lleihau gallu'r rhiant sy'n talu i reoli'r rhiant sy'n derbyn drwy dalu rhy ychydig neu dalu'n rhy hwyr, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd o dan y trefniadau Talu Uniongyrchol.

Rydym hefyd yn adolygu'r cyfrifiad Cynhaliaeth Plant er mwyn ystyried sut mae'n annog cydymffurfiaeth a threfniadau cynaliadwy yn well er mwyn sicrhau bod plant yn cael y lefel gywir o gymorth. Yn ogystal â hynny, rydym yn gwella dulliau cyfathrebu er mwyn codi ymwybyddiaeth o gynhaliaeth plant a chael gwared ar gamsyniadau cyffredin.

## Pa rannau o'r DU y bydd y polisïau hyn yn effeithio arnynt?

Mae polisïau Llywodraeth y DU sydd â'r nod o gefnogi rhieni sengl er mwyn sicrhau na fydd plant ar eu colled pan fydd teuluoedd yn gwahanu yn berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Yng Ngogledd Iwerddon, caiff nawdd cymdeithasol a darpariaeth Cynnal Plant eu gweinyddu yn unol ag egwyddor hirsefydlog cydraddoldeb â'r ddarpariaeth yng ngweddill y DU.

## References

79 Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban (2025). Children Experiencing Poverty in Scotland A Review of Sources Reflecting Children's Voices and Experiences. Ar gael yn: Scottish-version-Child-Poverty-Children-and-Young-Peoples-Voices.pdf

80 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2017). Improving Lives: Helping Workless Families. Ar gael yn: Improving lives: helping workless families

81 Macmillan, Gregg, Jerrim, a Shure (2018). Children in jobless households across Europe: evidence on the association with medium-and long-term outcomes. Journal of Poverty and Social Justice, 26(3), 335-358. Ar gael yn: Children in jobless households across Europe: evidence on the association with medium- and long-term outcomes yn: Journal of Poverty and Social Justice Cyfrol 26 Rhifyn 3 (2018)

82 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Households Below Average Income (HBAI) statistics for 2023/24. Ar gael yn: Households below average income: for financial years ending 1995 to 2024 - GOV.UK

83 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Households Below Average Income (HBAI) statistics for 2023/24. Ar gael yn: Households below average income: for financial years ending 1995 to 2024 - GOV.UK

84 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Households Below Average Income (HBAI) statistics for 2023/24. Ar gael yn: Households below average income: for financial years ending 1995 to 2024 - GOV.UK

85 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Deep Material Poverty: FYE 2024. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/deep-material-poverty-financial-year-ending-2024

86 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Universal Credit claimants statistics on the two child limit policy, April 2025. Ar gael yn: Universal Credit claimants statistics on the two child limit policy, April 2025 - GOV.UK

87 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025). Employment rates of people by parental status: Table P. Ar gael yn: Employment rates of people by parental status: Table P - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

88 Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (2023). British Social Attitudes 40: Gender roles. Ar gael yn: BSA 40: Gender roles

89 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025). Employment rates of people by parental status: Table P. Ar gael yn: Employment rates of people by parental status: Table P - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

90 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Households Below Average Income (HBAI) statistics for 2023/24. Ar gael yn: Households below average income: for financial years ending 1995 to 2024 - GOV.UK

91 Yr Adran Addysg (2025). Childcare and early years survey of parents. Ar gael yn: Childcare and early years survey of parents, Reporting year 2024 - GOV.UK

92 Yr Adran Addysg (2025). Childcare and early years survey of parents. Ar gael yn: Childcare and early years survey of parents, Reporting year 2024 - GOV.UK

93 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Separated families statistics: April 2014 to March 2024. Ar gael yn: Separated families statistics: April 2014 to March 2024 - GOV.UK

94 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Removing the two-child limit on Universal Credit: Impact on low income poverty levels in the United Kingdom. Ar gael yn: Removing the two-child limit on Universal Credit: Impact on low income poverty levels in the United Kingdom - GOV.UK

95 ibid, cyfeiriad 1.

96 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). The Universal Credit Bill: Universal Credit Rebalancing. Ar gael yn: https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/59-01/0267/IA0707.pdf

97 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Spring statement social security changes – updated impact on poverty levels in Great Britain, July 2025. Ar gael yn: Spring statement social security changes – updated impact on poverty levels in Great Britain, July 2025 - GOV.UK

98 Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr (2025). Research with children to inform the Government's Child Poverty Strategy. Ar gael yn: Research with children to inform the Government's Child Poverty Strategy | Comisiynydd Plant Lloegr

99 Changing Realities (2025). Ar gael yn: changingrealities.org

100 Yr Adran Busnes a Masnach (2024). Employment Rights Bill: factsheets. Ar gael yn: Employment Rights Bill: factsheets - GOV.UK

101 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Child Poverty Strategy Parents and Carers Research. (Adroddiad ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau rhif 1097). Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/child-poverty-strategy-parents-and-carers-research

102 Yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Busnes a Masnach (2025). Keep Britain Working: Adroddiad Terfynol. Ar gael yn: Keep Britain Working: Final report - GOV.UK

103 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Expansion to early childcare entitlements: Childcare Experiences Survey. Ar gael yn: Expansion to early childcare entitlements: Childcare Experiences Survey, Spring term 2025/26 Second Wave - Explore education statistics - GOV.UK

104 Coram (2025). Coram Childcare Survey 2025. Ar gael yn: Childcare Survey 2025

105 Changing Realities (2025). Ar gael yn: changingrealities.org

106 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Child Maintenance Service: Direct Pay Research. Ar gael yn: Child Maintenance Service: Direct Pay Research - GOV.UK

107 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Introduction of single maintenance collection and transfer service in the Child Maintenance Service – impact on child poverty levels. Ar gael yn: Introduction of single maintenance collection and transfer service in the Child Maintenance Service – impact on child poverty levels - GOV.UK



# Pennod 4: Lleihau costau hanfodion

***"Rwy'n credu, cyn gynted ag y daw'r lwfans, caiff y rhent ei dalu yn gyntaf ac yna caiff y biliau eu talu nesaf. Felly, beth bynnag fydd ar ôl, bydda i'n meddwl 'lawn, dyna ni, dyma fy nghyllideb tan ddiwedd y mis.'"***

**(Rhiant/gofalwr, Gwaith ymchwil gyda rhieni a gofalwyr ar gyfer y Strategaeth Tlodi Plant)[108]**

## Crynodeb

Rydym am i bob teulu allu fforddio'r hanfodion sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod gan blant yr hyn sydd ei angen arnynt i ddysgu a thyfu.

Mae hyn yn golygu byw mewn cartref cynnes a diogel, cael eu bwydo â phrydau iach a maethlon a gallu cymryd rhan yn llawn yn yr ysgol ac mewn gweithgareddau allgyrsiol cysylltiedig.

Ochr yn ochr â chynyddu incymau teuluoedd, byddwn yn arbed arian i deuluoedd drwy fynd i'r afael â'r argyfwng tai a digartrefedd; helpu teuluoedd i fforddio costau ynni a dŵr; cynyddu mynediad at fwyd iach a fforddiadwy; a lleihau rhwystrau i addysg a chyflogaeth, megis trafnidiaeth leol wael.

Wrth i ni gyflawni'r strategaeth hon, rydym am i gyfran yr incwm y bydd teuluoedd mewn tlodi yn ei wario ar hanfodion leihau.

## Yr heriau sy'n wynebu plant a theuluoedd

Mae cydbwyso cyllidebau wedi bod yn anodd i deuluoedd mewn tlodi erioed, ond mae pwysau'r blynyddoedd diwethaf wedi gwaethygu hyn.

***"Weithiau, rydym yn ei chael hi'n anodd talu'r biliau. Mae pethau'n iawn ar hyn o bryd... O'r blaen byddai Mam bob tro'n crïo cyn talu'r biliau."***

**(Bachgen 16 oed, Gwaith Ymchwil Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr)[109]**

Bydd teuluoedd mewn tlodi yn gwario cyfran lawer mwy o'u hincwm ar hanfodion, sy'n golygu y bydd ganddynt lai o gyfleoedd i dorri'n ôl ar eitemau nad ydynt yn hanfodol pan fydd prisiau'n codi. Ymhlith y costau cynyddol sy'n cael effaith anghymesur ar deuluoedd mewn tlodi mae:

- costau tai – plant mewn llety rhentu preifat sy'n wynebu'r costau tai uchaf ar gyfartaledd (canolrif), sef £141 yr wythnos, ac mae'r costau tai canolrifol ar gyfer yr holl fathau eraill o ddeiliadaeth yn is na £100 yr wythnos (lle mae'r costau

wedi cael eu gwneud yn gymaradwy drwy eu haddasu ar gyfer teuluoedd o wahanol feintiau a strwythurau), gan adael llai o arian ar gyfer hanfodion eraill.[110] Mae biliau ynni a dŵr wedi cynyddu'n gyflym ac maent yn gorfodi llawer o deuluoedd i dorri'n ôl ar gostau gwresogi: mae biliau ynni wedi codi 62% ers mis Ebrill 2020.[111]

- cael gafael ar fwyd iach fforddiadwy, sy'n anodd i lawer – mae 18% o blant yn byw mewn aelwydydd ag ansicrwydd bwyd, gyda llawer o rieni'n methu â rhoi'r bwyd iach sydd ei angen ar eu plant, gan fod costau bwyd wedi codi 37% ers mis Ebrill 2020;[112]
- mae mynediad at addysg a gwasanaethau yn gostus i rieni. Mae cost y diwrnod ysgol wedi codi dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae addysg gynradd yn Lloegr bellach yn costio mwy na £1,000 y flwyddyn ar gyfartaledd; ar gyfer ysgolion uwchradd, roedd y ffigur hwn yn 2024 bron i £2,300 y flwyddyn.[113]

Mae tangyflenwad parhaus o gartrefi a chynnydd yn y galw wedi arwain at restrau aros cynyddol am dai cymdeithasol, ac wedi cyfrannu at gynnydd sydyn mewn costau tai, gan wthio teuluoedd i mewn i dlodi. Mae gormod o deuluoedd yn byw mewn cartrefi cost uchel, ansicr ac o ansawdd gwael. Lle mae'r argyfwng tai ar ei waethaf, mae dros 172,000 o blant yn byw mewn llety dros dro yn Lloegr yn unig. Mae hyn dros ddwywaith yn fwy na'r nifer yn 2010.[114]

Mae teuluoedd yn wynebu cynnydd mewn biliau cyfleustodau, ac mae aelwydydd incwm isel sydd â phlant yn gwario cyfran fwy o'u cyllideb ar gostau tai, dŵr, ac ynni.[115] Ceir cysylltiad rhwng tyfu i fyny mewn cartref oer a llaith â chanlyniadau iechyd ac addysg gwaeth i blant a phobl ifanc.[116] Mae cymorth i dalu biliau dŵr yn bodoli ar gyfer teuluoedd mewn tlodi, ond nid yw'r cymorth hwn yn gyson ymhob rhan o'r wlad ac mae'r nifer sy'n manteisio arno yn fach.[117]

I lawer o deuluoedd mewn tlodi ledled y DU, nid oes modd iddynt gael bwyd iach fforddiadwy, ac maent yn byw mewn ansicrwydd bwyd. Mae bron i un o bob pum plentyn bellach yn byw mewn aelwydydd sydd ag ansicrwydd bwyd,[118] sy'n golygu nad oes ganddynt fynediad at y bwyd iach sy'n angenrheidiol i ffynnu. O ganlyniad i hynny, mae llawer o rieni wedi gorfod dibynnu ar barseli bwyd brys i fwydo eu plant,[119] gan olygu nad ydynt yn cael y maeth sy'n angenrheidiol i ffynnu.

Mae manteision bwydo ar y fron i iechyd y plentyn a'r fam yn dra hysbys.[120] I deuluoedd na allant fwydo ar y fron, neu sy'n dewis peidio â gwneud hynny, mae'n hanfodol eu bod yn gallu cael gafael ar fformiwla babanod sy'n ddiogel, yn gyflawn o ran maeth, ac yn fforddiadwy. Mae cost fformiwla babanod wedi cynyddu 25% rhwng 2021 a 2023.[121] Cwblhaodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd astudiaeth o'r farchnad mewn perthynas â fformiwla babanod oherwydd pryder ynghylch diffyg cystadleuaeth o ran pris, gan ddod i'r casgliad bod y fframwaith rheoleiddio presennol, tueddiad rhieni i brynu ar sail enw da brandiau, ac ymddygiad gwneuthurwyr a manwerthwyr yn golygu bod defnyddwyr yn talu prisiau uchel.[122]

Gwyddom fod addysg dda a mynediad at wasanaethau yn hollbwysig er mwyn gwella cyfleoedd bywyd plant. Fodd bynnag, mae gormod o blant yn methu â chael mynediad llawn a chymryd rhan lawn mewn addysg oherwydd cost y diwrnod ysgol. Yn rhy aml, bydd rhieni'n wynebu costau uchel am wisg ysgol ac offer, ond hefyd am bethau fel teithiau ysgol, gweithgareddau ar ôl ysgol, a phwysau i brynu dillad ar gyfer diwrnodau dim gwisg ysgol a digwyddiadau arbennig.

Bydd teuluoedd mewn tlodi'n dibynnu'n fwy helaeth ar drafnidiaeth gyhoeddus nag eraill, ond cânt eu siomi'n rhy aml gan drafnidiaeth nad yw'n cyflawni ar eu cyfer.[123]

Gall darpariaeth a chostau trafnidiaeth fod yn rhwystr rhag cael gafael ar lu o wasanaethau ac, yn aml, ni chaiff llwybrau bysiau eu dylunio â theuluoedd mewn tlodi mewn golwg.

Bydd mynediad at addysg a gwasanaethau ehangach yn aml yn dibynnu ar fynediad digidol. Roedd dros chwarter yr aelwydydd yn y DU yn ei chael hi'n anodd fforddio gwasanaethau cyfathrebu ym mis Mai 2025.[124]

## Mynd ymhellach i leihau costau hanfodion

**Drwy'r strategaeth hon, byddwn yn adeiladu ar waith y Llywodraeth hon hyd yma, ac yn mynd i'r afael â'r heriau hyn ymhellach drwy wneud y canlynol:**

1. Adeiladu mwy o gartrefi, a sicrhau eu bod yn fforddiadwy, yn ddiogel ac yn weddus
2. Atal digartrefedd a'r defnydd o lety brys
3. Gwella profiad aelwydydd ac ansawdd llety dros dro
4. Sicrhau gwerth am arian i gynghorau lleol
5. Arbed arian i deuluoedd ar gostau ynni a dŵr
6. Rhoi cymorth sydd wedi'i dargedu'n well ar gyfer biliau cyfleustodau drwy well trefniadau rhannu data
7. Ei gwneud hi'n haws cael gafael ar fwyd iach fforddiadwy
8. Mynd i'r afael â chost y diwrnod ysgol
9. Creu system drafnidiaeth well, fwy integredig a fforddiadwy
10. Gwella mynediad digidol er mwyn arbed arian i deuluoedd a gwella mynediad at wasanaethau





## Adeiladu mwy o gartrefi, a sicrhau eu bod yn fforddiadwy, yn ddiogel ac yn weddus

Mae cartrefi da yn rhan annatod o safonau byw a chyfleoedd bywyd. Mae costau tai uchel yn rhoi straen ar gyllid teuluoedd, mae amodau gwael yn niweidiol i iechyd[125] ac urddas ac mae tai ansicr yn tanseilio cyflawniad addysgol[126] a chymorth cymunedol. Yn Lloegr, mae'r Llywodraeth wedi nodi gweledigaeth ar gyfer system dai sy'n gweithio i bawb, er mwyn i dai fod yn fforddiadwy, yn ddiogel, yn sicr ac yn addas i'n hanghenion.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau'r cynnydd mwyaf mewn tai cymdeithasol a fforddiadwy ers cenhedlaeth. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'r sector i adfer ei allu ariannol i fenthyca a buddsoddi mewn cyflenwi tai newydd ochr yn ochr â'r rhai sydd eisoes yn bodoli. Bydd y Rhaglen Cartrefi Cymdeithasol a Fforddiadwy 10 mlynedd newydd, sy'n werth £39 biliwn, yn sbarduno gwaith adeiladu tai cymdeithasol a fforddiadwy ar raddfa ledled y wlad. Bydd cartrefi a ariennir drwy gyllid grant yn cael eu cyflenwi ochr yn ochr â'r rhai a ariennir drwy gyfraniadau gan ddatblygwyr mewn cytundebau A106. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddiweddaru canllawiau statudol ar ddyraniadau tai cymdeithasol er mwyn sicrhau bod dyraniadau'n adlewyrchu anghenion lleol ac yn cefnogi aelwydydd agored i niwed, gan gynnwys y rhai sy'n cynnwys plant mewn tlodi, yn effeithiol.

Mae mwy o blant yn tyfu i fyny yn y sector rhentu preifat[127] a bydd ein diwygiadau blaenllaw yn sicrhau ei fod yn addas at y diben ar gyfer teuluoedd y mae angen sicrwydd arnynt. Drwy'r Ddeddf Hawliau Rhentwyr, byddwn yn diddymu achosion o droi allan heb fai o dan Adran 21 o 1 Mai 2026 ymlaen. Bydd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i denantiaid ac yn eu grymuso i herio amodau gwael neu gynnydd annheg mewn rhent heb ofni y byddant yn colli eu cartrefi.

Mae pob plentyn, a theulu pob plentyn, yn haeddu cartref diogel a gweddus. Dyna pam rydym wedi rhoi Cyfraith Awaab ar waith ym maes tai cymdeithasol ac wedi ymrwymo i'w rhoi ar waith yn y sector rhentu preifat, gan ddarparu amddiffyniadau clir ar gyfer tenantiaid a sicrhau y bydd landlordiaid yn mynd i'r afael â pheryglon lleithder a llwydni o fewn amserlenni penodol. Byddwn yn moderneiddio'r Safon Cartrefi Gweddus gan sicrhau mai diogelwch tenantiaid sydd wrth ei gwraidd ac, am y tro cyntaf, bydd y safonau'n berthnasol i gartrefi rhent preifat a chymdeithasol. Byddwn yn rhoi canllawiau er mwyn annog awdurdodau lleol i flaenoriaethu camau gorfodi pan fydd tystiolaeth bod plant yn byw mewn cartrefi rhent preifat nad ydynt yn cyrraedd y safonau hyn.

> ***"Efallai, pe bai gen i ychydig yn fwy o arian, y byddwn i'n meddwl am y dyfodol[...]"***
>
> **(Bachgen 15 oed, Gwaith Ymchwil Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr)[128]**

Bydd y system nawdd cymdeithasol yn parhau i helpu aelwydydd incwm isel i fforddio eu rhent. Yn y sector rhentu preifat, bydd y cymorth yn cyd-fynd â'r rhenti a bennir yn y setliad rhent cymdeithasol. Yn y sector preifat, byddwn yn parhau i adolygu'r lefelau cymorth. O fis Ebrill 2026 ymlaen, bydd cymorth ychwanegol i dalu costau tai ar gael gan awdurdodau lleol, drwy'r Gronfa Argyfwng a Gwydnwch yn Lloegr a Thaliadau Disgresiwn at Gostau Tai yng Nghymru.

### Pa rannau o'r DU y bydd y polisïau hyn yn effeithio arnynt?

Mae polisïau Llywodraeth y DU sydd â'r nod o adeiladu mwy o gartrefi, a sicrhau eu bod yn fforddiadwy, yn ddiogel ac yn weddus, yn berthnasol yn Lloegr. Mae polisïau Llywodraeth y DU sydd â'r nod o roi cymorth yn y sector tai cymdeithasol a'r sector rhentu preifat yn berthnasol ym Mhrydain Fawr ac yn gweithredu ar sail egwyddor cydraddoldeb yng Ngogledd Iwerddon.

## Atal digartrefedd a'r defnydd o lety brys

Dylid cydnabod bod plant sy'n byw mewn llety dros dro, yn enwedig am gyfnodau hir, yn wynebu un o'r mathau dyfnaf o dlodi. Byddwn yn rhoi diwedd ar y defnydd anghyfreithlon o lety gwely a brecwast ar gyfer teuluoedd, yn gwella ansawdd llety dros dro ac yn cymryd camau i leihau'r gost i gynghorau. Cyn bo hir, byddwn yn cyhoeddi Strategaeth Ddigartrefedd drawslywodraethol a fydd yn nodi ein cynllun i ddod yn ôl ar y trywydd cywir tuag at ddileu digartrefedd yn Lloegr.

Gall cyfnod mewn llety dros dro – a fwriadwyd yn wreiddiol fel mesur argyfwng yn unig – arwain at effeithiau sylweddol i blant[129], gan gynnwys hollti teuluoedd, colli ysgol a niwed i iechyd corfforol ac iechyd meddwl. O ganlyniad i bwysau aruthrol digartrefedd, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddibynnu ar opsiynau cost uchel anaddas fel llety gwely a brecwast er mwyn cynnig lleoedd i deuluoedd fyw ynddynt. Ar hyn o bryd, mae 3,340 o deuluoedd â phlant yn byw mewn llety gwely a brecwast, ac mae 2,070 o deuluoedd â phlant wedi bod yn byw mewn llety gwely a brecwast ers mwy

na chwe wythnos[130]. Mae hyn yn annerbyniol a bydd yn aml yn golygu bod y teulu wedi'i gyfyngu i un ystafell, lle y bydd y plant nid yn unig yn cysgu ond hefyd yn gwneud eu gwaith cartref ac yn byw o ddydd i ddydd. Mewn rhai achosion, bydd hyn yn golygu rhannu cyfleusterau coginio ag aelwydydd eraill neu fod heb gyfleusterau coginio o gwbl.[131,132]

Rydym yn atal digartrefedd cyn iddo ddigwydd drwy fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol. Rydym yn atgyfnerthu hawliau rhentwyr preifat, gan roi mwy o sicrwydd iddynt yn eu cartrefi. Hefyd, mae cynghorau yn Lloegr wedi cael £644.17 miliwn eleni er mwyn helpu i atal digartrefedd a chadw teuluoedd allan o lety dros dro. Dyma'r buddsoddiad mwyaf erioed mewn gwasanaethau atal digartrefedd, ac mae'n rhan o gyfanswm o fwy na £1 biliwn sy'n cael ei fuddsoddi mewn digartrefedd a chysgu allan eleni (2025/26). Caiff y lefel hon o gyllid, sef yr uchaf erioed, ei chynnal am y tair blynedd nesaf, yn ychwanegol at £100 miliwn yn rhagor a ddarperir ar gyfer atal digartrefedd, gan roi mwy o sicrwydd i gynghorau ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau atal hanfodol. Bydd Rhaglen Partneriaeth Teuluoedd yn Gyntaf hefyd yn cyflawni rôl bwysig yn yr ymdrechion atal. Bydd symud gofal cymdeithasol plant tuag at ymyrryd yn gynharach yn arwain at roi cymorth cyfannol er mwyn cadw teuluoedd gyda'i gilydd yn ddiogel a helpu i adnabod risgiau – gan gynnwys digartrefedd – cyn gynted â phosibl.

Er ei bod yn addawol gweld rhywfaint o gynnydd yn ein hymdrechion i leihau nifer y teuluoedd mewn llety gwely a brecwast, gan fod y niferoedd wedi gostwng mwy na 40% ers mis Mehefin y llynedd, rydym yn ymrwymedig i ddod â'r defnydd ohonynt i ben heblaw am gyfnodau byr iawn mewn argyfwng. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae'r Llywodraeth yn cefnogi 20 o awdurdodau lleol ledled Lloegr sydd â'r cyfraddau uchaf o ran defnyddio llety gwely a brecwast ar gyfer teuluoedd digartref drwy'r Cynlluniau Peilot Lleihau Llety Brys, y darparwyd £8 miliwn dros ddwy flynedd ar eu cyfer. Rydym yn bwriadu parhau â'r rhaglen hon dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r Gronfa Tai Awdurdodau Lleol yn helpu cynghorau i gyflenwi tai i'w defnyddio fel llety dros dro o ansawdd gwell ac er mwyn helpu i ailgartrefu pobl, gan leihau nifer y teuluoedd sy'n byw mewn opsiynau drud ac anaddas fel gwestai a llety gwely a brecwast. Bydd pedwerydd cylch y Gronfa, sef y cylch mwyaf a fydd yn werth £950 miliwn, yn cyflenwi hyd at 5,000 o gartrefi erbyn 2030.

### Pa rannau o'r DU y bydd y polisïau hyn yn effeithio arnynt?

Mae polisïau Llywodraeth y DU sydd â'r nod o atal digartrefedd a'r defnydd o lety dros dro yn berthnasol yn Lloegr.

## Gwella profiad aelwydydd ac ansawdd llety dros dro

Yn ogystal â rhoi diwedd ar y defnydd anghyfreithlon o lety gwely a brecwast ar gyfer teuluoedd, byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd ac addasrwydd lleoliadau llety dros dro, gan gynnwys camau i atal arferion lleoli gwael y tu allan i'r ardal. Dylai pobl sy'n byw mewn llety dros dro ddisgwyl amddiffyniadau cadarn rhag amodau tai gwael ac rydym yn ymrwymedig i wella safonau ar gyfer pob math o dai, gan gynnwys llety dros dro.

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi £10.9 miliwn o gyllid ar gyfer 2025/26 i 61 o awdurdodau lleol sydd â'r niferoedd mwyaf o blant mewn llety dros dro, er mwyn gwella mynediad at gymorth a gwasanaethau i deuluoedd a chael effeithiau gwirioneddol ar



ansawdd eu bywyd. Bwriedir i'r cyllid arwain at fanteision i ganlyniadau addysg ac iechyd plant.

Rydym hefyd wedi rhoi ymyriadau penodol ar waith i liniaru'r niwed y gall byw mewn llety dros dro ei achosi i iechyd, datblygiad a chanlyniadau addysgol plant.

Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno system hysbysu ynghylch llety dros dro, lle y byddai awdurdodau tai lleol yn hysbysu sefydliadau addysgol, ymwelwyr iechyd a meddygon teulu pan fyddai plentyn yn cael ei leoli mewn llety dros dro. Byddai hyn yn galluogi darparwyr iechyd ac addysg i ymateb yn briodol er mwyn cefnogi plant sy'n ddigartref a lliniaru effeithiau niweidiol byw mewn llety dros dro. Byddai hyn hefyd yn helpu ysgolion a cholegau i ystyried cynnig cymorth bugeiliol neu ymarferol, lle bo hynny'n bosibl ac yn berthnasol, er enghraifft clybiau brecwast, gweithgareddau ar ôl ysgol a chymorth i wneud gwaith cartref.

Ein huchelgais hirdymor yw lleihau nifer y diwrnodau ysgol a gollir gan blant sy'n byw mewn llety dros dro.

Diolch i'n hadnoddau data presenoldeb o'r radd flaenaf, mae eisoes yn bosibl i ysgolion, ymddiriedolaethau ac awdurdodau lleol dracio presenoldeb plant dan anfantais, a hynny bron mewn amser real. Mae hyn yn eu galluogi i adnabod tueddiadau'n gynnar, meincnodi deilliannau ysgolion er mwyn cau bylchau a gostwng cyfraddau absenoldeb, gan gynnwys ar gyfer plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Drwy adeiladu ar y data hyn sydd eisoes ar gael, byddwn yn darganfod nifer y diwrnodau ysgol a gollir gan blant mewn llety dros dro er mwyn gallu rhoi cymorth wedi'i dargedu yn fwy effeithiol.

Byddwn yn helpu awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau ac ysgolion i gofnodi statws llety dros dro yn gyson.

Rydym hefyd wedi rhoi fframwaith cadarn ar waith er mwyn atal disgyblion rhag cael eu tynnu oddi ar gofrestr ysgol yn anghyfreithlon. Dylai staff sy'n cefnogi plant agored i niwed, megis timau cymorth bugeiliol ysgolion, weithio'n agos gyda theuluoedd er mwyn rhoi'r cymorth cywir pan fydd plentyn yn byw mewn llety dros dro.

Rydym hefyd wedi lansio Cronfa Dyfodol Gwell, a fydd yn cefnogi hyd at 200,000 o blant a phobl ifanc sy'n dioddef caledi, a'u teuluoedd, drwy brosiectau ariannu effaith arloesol, gan geisio chwalu rhwystrau rhag cyfleoedd a chyflawni Cynllun ar gyfer Newid y Llywodraeth, er mwyn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant. Drwy'r Gronfa Dyfodol Gwell, byddwn yn ceisio gwella canlyniadau digartrefedd ieuenctid a theuluoedd. Mae rhagor o wybodaeth am y Gronfa i'w gweld ym mhennod 5.

Rhwng 2019 a 2024, bu farw 74 o blant – gan gynnwys 58 a oedd o dan 1 oed – mewn amgylchiadau lle y cofnodwyd llety dros dro fel ffactor a allai fod wedi cyfrannu at eu marwolaeth.[133] Mae hyn yn annerbyniol. Rhaid i ni atal marwolaethau a achosir gan lety sy'n anaddas neu o ansawdd gwael, neu fylchau mewn darpariaeth gofal iechyd.

Byddwn yn atgyfnerthu amddiffyniadau rhag amodau tai gwael mewn llety dros dro, ac yn sicrhau y bydd gwasanaethau iechyd yn cymryd camau rhagweithiol i gysylltu â theuluoedd mewn llety dros dro. Byddwn yn cyflwyno cod clinigol ar gyfer plant mewn llety dros dro er mwyn gwella data ar ddamweiniau a derbyniadau i'r ysbyty er mwyn adnabod ac atal achosion yn well.

Ni ddylai babanod newydd-anedig fyth gael eu rhyddhau o'r ysbyty i lety gwely a brecwast na mathau eraill o lety a rennir sy'n anaddas. Mae'r Llywodraeth yn ymrwymo i roi diwedd ar yr arfer o ryddhau babanod newydd-anedig i lety gwely a brecwast neu fathau eraill o lety a rennir sy'n anaddas. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol, gyda chymorth llwybrau cadarn y GIG, er mwyn sicrhau bod dewisiadau amgen diogel a phriodol ar gael ac yn cael eu defnyddio.

### Pa rannau o'r DU y bydd y polisïau hyn yn effeithio arnynt?

Mae polisïau Llywodraeth y DU sydd â'r nod o wella profiad aelwydydd ac ansawdd llety dros dro yn berthnasol yn Lloegr.



## Sicrhau gwerth am arian i gynghorau lleol

Rydym yn cydnabod bod angen i gynghorau gael ffrwd refeniw sefydlog i gefnogi modelau cyllid arloesol sy'n eu galluogi i lesio eiddo o ansawdd da neu ddatgloi buddsoddiad mewn cyflenwad newydd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'r Llywodraeth yn gwario mwy ar gymorth digartrefedd nag erioed o'r blaen ac nid yw safon ac ansawdd y tai yn adlewyrchu'r gwariant hwn. Mae hyn yn cynnwys gwariant sylweddol drwy'r Hen Fudd-dal Tai, gyda systemau a dulliau ariannu nad ydynt wedi cael eu diweddaru ers blynyddoedd. Ceir cyfle i wella'r gwerth am arian a geir yn gyfnewid am y gwariant a gwella'r canlyniadau i ddinasyddion agored i niwed. Felly, mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i ystyried y ffordd orau o ariannu llety dros dro o ansawdd da mewn modd cynaliadwy a lleihau'r defnydd o lety o ansawdd gwael. Mae hyn yn cynnwys archwilio'r cymorth mwyaf priodol drwy'r system budd-daliadau ar gyfer llety dros dro a thai â chymorth. Byddwn yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol a phartneriaid yn y sector er mwyn dod o hyd i'r ffyrdd mwyaf priodol o daro cydbwysedd rhwng sicrwydd i gynghorau, gwerth am arian, a chymorth i bobl agored i niwed.

***"Pan fyddai'n rhaid i mi fynd i westy yn [rhan arall o LLE], byddwn i'n mynd ar ddau fws, a byddai [yr ysgol] yn dweud y byddai'n rhoi arian i mi ar gyfer y tocynnau bws"***

**(Bachgen 12 oed, Gwaith Ymchwil Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr)[134]**

### Pa rannau o'r DU y bydd y polisïau hyn yn effeithio arnynt?

Mae polisïau Llywodraeth y DU sydd â'r nod o sicrhau gwerth am arian i gynghorau lleol yn berthnasol yn Lloegr yn bennaf. Mae'r hen fudd-daliadau tai yn berthnasol i Gymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r hen fudd-daliadau tai yng Ngogledd Iwerddon yn gweithredu ar sail egwyddor cydraddoldeb.

## Arbed arian i deuluoedd ar gostau ynni a dŵr

O'u cyfuno, costau tai, ynni a dŵr yw'r gwariant hanfodol mwyaf i aelwydydd incwm isel sydd â phlant.[135]

Problem lle na all aelwydydd incwm isel gadw'n gynnes am gost resymol yw tlodi tanwydd. Mae pob gwlad wedi rhoi gwahanol fetrigau, targedau a strategaethau ar waith i fynd i'r afael â'r broblem hon. Yn Lloegr, mae'r metrig Effeithlonrwydd Ynni Isel Incwm Isel (LILEE) yn pennu bod aelwyd mewn tlodi tanwydd os oes ganddi incwm gweddilliol sydd islaw'r ffin tlodi (ar ôl cyfrif am gostau tai a chostau tanwydd gofynnol) ac os yw'n byw mewn cartref sydd â sgôr effeithlonrwydd ynni islaw Band C.

Yn gynharach eleni, gwnaethom adolygu Strategaeth Tlodi Tanwydd Lloegr a daethom i'r casgliad bod angen gwneud mwy i gyrraedd y targed tlodi tanwydd erbyn 2030. Byddwn yn cyhoeddi Strategaeth Tlodi Tanwydd newydd i lywio ein camau nesaf i drechu tlodi tanwydd yn Lloegr.

Mae biliau ynni yn rhy uchel ac mae gan y Llywodraeth hon ffocws diwyro ar eu lleihau. Gan fod prisiau nwy yn dal yn llawer uwch na lefelau hanesyddol, effaith marchnadoedd

tanwydd ffosil rhyngwladol arnom yw'r prif ffactor sy'n achosi biliau ynni uchel o hyd.

Mae Cyllideb Hydref 2025 y Llywodraeth yn cymryd camau i dynnu cyfartaledd o £150 o gostau oddi ar filiau ynni pobl o fis Ebrill 2026 ymlaen. O ganlyniad i'r camau hyn, gall teuluoedd ledled Prydain ddisgwyl gwneud arbedion sylweddol ar eu biliau.

Bydd y Cynllun Cartrefi Cynnes yn helpu i drawsnewid ein stoc dai sy'n heneiddio yn gartrefi carbon isel cyfforddus sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn uwchraddio cartrefi ledled y wlad drwy gyflymu'r broses o osod deunydd inswleiddio a thechnolegau newydd effeithlon fel pympiau gwres, paneli solar ffotofoltaidd a batris cartref.

Mae'r Llywodraeth yn gwneud y buddsoddiad cyfalaf mwyaf erioed mewn ailosod cartrefi, a chyhoeddwyd £1.5 biliwn ychwanegol o gyllid yn y gyllideb er mwyn trechu tlodi tanwydd drwy'r Cynllun Cartrefi Cynnes – yn ychwanegol at y £13.2 biliwn a ddyrannwyd yn yr Adolygiad Gwariant. Mae'r Llywodraeth yn dal yn ymrwymedig i gyflawni'r cynllun hwn, gan gynnwys gweithio gydag awdurdodau lleol a darparwyr tai cymdeithasol i osod mesurau arbed ynni ledled y wlad, drwy Gronfa Tai Cymdeithasol a Grant Lleol y Cynllun Cartrefi Cynnes, a helpu pob aelwyd i bontio i systemau gwresogi glân drwy'r Cynllun Uwchraddio Boeleri.

Mae'r Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes yn helpu teuluoedd incwm isel i dalu eu biliau ynni drwy roi ad-daliad biliau ynni gwerth £150. Yng Nghymru a Lloegr, caiff yr ad-daliadau eu gwneud yn uniongyrchol i aelwydydd incwm isel os bydd rhywun ar fudd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd (neu ei bartner / rhywun a enwebir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau) wedi'i enwi ar y bil ynni. Yn yr Alban, dim ond i bobl ar Gredyd Gwarant Credyd Pensiwn y gellir gwneud ad-daliadau uniongyrchol, a dylai pobl sydd ar fudd-daliadau eraill wneud cais yn uniongyrchol i'w cyflenwr ynni, a all fod yn defnyddio meini prawf cymhwysedd sydd fymryn yn wahanol.

Mae'r cynllun wedi cael ei ehangu y gaeaf hwn i gynyddu nifer yr aelwydydd cymwys ledled Prydain Fawr i gyfanswm o tua chwe miliwn, gan gynnwys bron dyblu nifer yr aelwydydd â phlant sy'n cael y gostyngiad i 1.9 miliwn, yn ôl yr amcangyfrifon. Bydd ehangu'r cynllun hefyd yn sicrhau y bydd tua 45% o aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd yn cael y gostyngiad, o gymharu â dim ond 30% cyn hynny.

Rydym yn cydnabod ei bod yn bosibl bod llawer o aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd yn dal i fynd heb gymorth hollbwysig, ac felly byddwn yn archwilio gwelliannau y gellir eu gwneud. Mae hyn yn cynnwys ymgynghoriad diweddar a aeth ati i ystyried y ffordd orau o roi cymorth drwy'r Gostyngiad Cartrefi Cynnes yn ystod cyfnod nesaf y cynllun. Ymhlith yr opsiynau posibl mae rhoi cymorth ychwanegol i aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd (sydd â sgôr EPC ym mand D neu'n is), a/neu drwy lwybr gwneud cais digidol a fyddai'n golygu bod modd cynnig cymorth i aelwydydd incwm isel nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cynllun ar hyn o bryd.

Ochr yn ochr â'r Llywodraeth, y Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem) yw rheoleiddiwr ynni Prydain Fawr ac mae'n diogelu buddiannau defnyddwyr ynni ac yn cyflawni rôl allweddol. Mae amddiffyniadau Ofgem i ddefnyddwyr yn berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, ac mae wedi rhoi amddiffyniadau ychwanegol ar waith ar gyfer cwsmeriaid agored i niwed er mwyn sicrhau na fyddant yn talu mwy. Ymhlith y rhain mae rheolau llymach ynghylch gosod mesuryddion rhagdalu yn anwirfoddol a sicrhau na fydd pobl â mesuryddion rhagdalu yn talu mwy am eu hynni na phobl ar ddebyd uniongyrchol. Mae Ofgem wedi

cyhoeddi ei Strategaeth Bregusrwydd Defnyddwyr, sy'n nodi'r canlyniadau y mae'r rheoleiddiwr am eu cyflawni ar gyfer defnyddwyr sydd mewn sefyllfaoedd bregus.

Mae'r Llywodraeth yn cynnal cynllun cymorth statudol ym maes dŵr ar gyfer pobl ag anghenion meddygol sy'n golygu bod angen iddynt ddefnyddio mwy o ddŵr, neu deuluoedd â mwy na dau o blant. Caiff biliau dŵr eu capio gan y cynllun yn unol â'r lefelau cyfartalog er mwyn helpu'r aelwydydd hynny i dalu'r costau ychwanegol sy'n eu hwynebu. Byddwn yn mynd ymhellach drwy wella'r cymorth sydd ar gael i aelwydydd incwm isel cymwys. Mae'r Llywodraeth wedi cwblhau ymgynghoriad ar ddiwygiadau i gynllun WaterSure a bydd yn cyhoeddi ei hymateb maes o law.

## Pa rannau o'r DU y bydd y polisïau hyn yn effeithio arnynt?

Mae polisïau Llywodraeth y DU sydd â'r nod o arbed arian i deuluoedd ar gostau ynni a dŵr yn berthnasol mewn ffyrdd gwahanol mewn rhannau gwahanol o'r DU:

- mae'r Strategaeth Tlodi Tanwydd yn berthnasol yn Lloegr.
- mae'r Gostyngiad Cartrefi Cynnes, yn ogystal â safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer cartrefi rhent preifat, yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr.
- mae amddiffyniadau Ofgem i ddefnyddwyr yn berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes hefyd ar waith yn yr Alban.
- mae'n rhaid i bob cwmni yn Lloegr gynnig cynllun WaterSure ac mae'n berthnasol yn Lloegr, ond mae cwmnïau yng Nghymru hefyd wedi bod yn rhoi'r cynllun ar waith yn wirfoddol. Mae'r newidiadau arfaethedig a gafodd eu cynnwys yn yr ymgynghoriad yn berthnasol yn Lloegr yn unig.

## Rhoi cymorth sydd wedi'i dargedu'n well ar gyfer biliau cyfleustodau drwy well trefniadau rhannu data

Bydd y Llywodraeth yn parhau i chwilio am ffyrdd gwell a mwy arloesol o baru a rhannu data er mwyn gallu targedu defnyddwyr agored i niwed, gan gynnwys y rhai sydd ar incwm isel. Rydym wedi dod ag arbenigwyr ym meysydd y gyfraith a diogelu data o bob rhan o'r Llywodraeth ynghyd i edrych ar y ffordd y gellir defnyddio data sydd gan y Llywodraeth i adnabod pobl yn Lloegr y mae angen cymorth arnynt i dalu biliau cyfleustodau aelwydydd. Bydd y Llyfrgell Ddata Genedlaethol yn yr Adran dros Wyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg yn helpu'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net ac adrannau eraill i ddefnyddio data i wneud gwelliannau ystyrlon, gyda'r nod o adnabod y bobl y gall fod angen cymorth arnynt yn well. Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar ddata aelwydydd i gefnogi cynlluniau rhyddhad ar filiau sydd ar waith ym Mhrydain Fawr.

Yn yr un modd, bydd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn gweithio gydag adrannau gan gynnwys yr Adran dros Wyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg, Cyllid a Thollau EF a'r Adran Gwaith a Phensiynau i dargedu cymorth ar gyfer biliau dŵr yn well. Bydd y Llywodraeth yn ei gwneud yn haws i gwsmeriaid gael cymorth i dalu eu biliau dŵr drwy bwerau newydd yn y Ddeddf Dŵr (Mesurau Arbennig). Byddwn yn lleihau biwrocratiaeth er mwyn helpu cwmnïau dŵr i gofrestru cwsmeriaid sy'n gymwys i gael cymorth yn haws.

Mae hyn yn golygu y byddwn yn ei gwneud mor hawdd â phosibl i deuluoedd sydd mewn tlodi i gael cymorth i dalu eu biliau cyfleustodau os bydd ei angen arnynt.

### Pa rannau o'r DU y bydd y polisïau hyn yn effeithio arnynt?

Mae polisïau Llywodraeth y DU sydd â'r nod o roi cymorth wedi'i dargedu'n well ar gyfer biliau cyfleustodau drwy well trefniadau rhannu data yn berthnasol yn Lloegr a ledled y DU, yn dibynnu ar yr ardaloedd lle y gwneir gwaith yn y dyfodol.

## Ei gwneud hi'n haws cael gafael ar fwyd iach fforddiadwy

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod lefel ansicrwydd bwyd aelwydydd yn y DU yn annerbyniol. Rydym eisoes wedi cyhoeddi camau gweithredu i ehangu prydau ysgol am ddim, helpu rhieni i dalu costau bwyd iach y tu allan i'r ysgol, a thrawsnewid ein system fwyd er mwyn sicrhau ei bod yn cynnig mynediad at fwyd iach fforddiadwy. Er mwyn atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng ffermydd ac elusennau, a helpu i ddatrys problem gwastraff bwyd ar ffermydd, rydym yn darparu cronfa newydd gwerth £15 miliwn er mwyn helpu elusennau i roi cynnyrch sbâr i bobl mewn angen. Rydym yn gweithredu ac yn cefnogi teuluoedd drwy gydol beichiogrwydd, genedigaeth, addysg ac yn ehangach ym mhob rhan o'r sector bwyd. Drwy wneud hynny, rydym yn talu teyrnged i'r gwaith y mae manwerthwyr ac eraill yn y diwydiant bwyd yn ei wneud i gefnogi plant mewn tlodi.


40
00 yds

## Astudiaeth Achos: Archfarchnadoedd

Mae manwerthwyr bwyd ledled y DU yn cymryd camau er mwyn helpu teuluoedd i gael mynediad at fwyd. Drwy gydweithio â phartneriaid elusennol gan gynnwys FareShare ac Ymddiriedolaeth Trussell, mae archfarchnadoedd wedi llwyddo i ailddosbarthu bwyd dros ben drwy bob rhan o'u cadwyni cyflenwi.

Mae manwerthwyr gan gynnwys Tesco, Asda, Sainsbury's, Iceland, Morrisons, Lidl, Waitrose a Co-op yn gweithredu y tu hwnt i hyn er mwyn gwella mynediad at fwyd iach fforddiadwy. Dyma rai enghreifftiau o'r gwaith hwn:

- Drwy raglen Lidl Foodies, mae Lidl yn darparu adnoddau am ddim er mwyn helpu ysgolion cynradd i gynnal gwersi ar fwyta'n iach, gyda ffocws ar ffrwythau a llysiau. Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, cymerodd mwy na 2300 o ysgolion cynradd ledled Prydain Fawr ran yn y fenter, gan gyrraedd tua 244,000 o ddisgyblion.
- Mae Sainsbury's wedi ymrwymo i wneud bwydydd iach yn fforddiadwy ac yn hygyrch i bob teulu drwy gyfateb prisiau ar brif gynhyrchion iach yn ei holl siopau, ariannu mwy na 100,000 o leoedd ar y rhaglen Gweithgareddau a Bwyd Gwyliau yn ystod yr haf, ac ymrwymo i gefnogi'r 750 o ysgolion sy'n rhan o gyfnod profi a dysgu rhaglen clybiau brecwast y Llywodraeth.
- Mae Clwb Bwyd Iceland yn helpu teuluoedd i gael gafael ar gredyd cyfrifol di-log er mwyn gwasgaru cost siopa bwyd heb fynd i ddyled, gan alluogi teuluoedd i gynllunio eu cyllid yn well.
- Mae cynllun ffrwythau a llysiau Stronger Starts Tesco wedi darparu 10.8m o ddognau o ffrwythau a llysiau i fwy na 140,000 o blant mewn dros 400 o ysgolion yn y DU, gan drawsnewid maeth i blant. Bydd yn cael ei ehangu i fwy na 500 o ysgolion ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd i ddod.
- Yn ystod gwyliau'r Pasg eleni, cynigiodd Morrisons frecwast am ddim i deuluoedd a oedd yn cynnwys powlen o rawnfwyd a darn o ffrwyth er mwyn cefnogi rhieni yn ystod y gwyliau ysgol.
- Mae Asda, drwy'r sefydliad annibynnol a ariennir ganddo, wedi helpu i ddarparu prydau bwyd yn y gymuned ac, y llynedd, lansiodd gronfa Foodbank Fundamentals newydd er mwyn canolbwyntio ar leddfu tlodi bwyd. Yn 2024, cefnogodd 271 o sefydliadau ledled y DU ac, yn 2025, cefnogodd dros 550 o sefydliadau, drwy roi cyllid grant gwerth cyfanswm o fwy na £400,000.
- Drwy weithio gyda chyflenwr ei frand pasta ei hun, sef Daybreak, bydd Waitrose yn dargyfeirio tua 130 o dunelli o basta dros ben y flwyddyn – sy'n gyfwerth â 350,000 o brydau bwyd – i FareShare, sef rhwydwaith cenedlaethol y DU o ailddosbarthwyr bwyd elusennol ac un o bartneriaid prosiect Coronation Food. Bydd hyn yn darparu cyflenwad sefydlog o basta – sy'n brif fwyd amlbwrpas â blaenoriaeth uchel – i leoliadau arlwyo a phobl sy'n wynebu ansicrwydd bwyd.
- Mae Co-op yn helpu i ddarparu bwyd i'r gymuned ledled y DU drwy ei waith gyda Hubbub ac Your Local Pantry, sy'n galluogi teuluoedd i gael bwyd iach fforddiadwy yn eu cymunedau lleol. Mae hefyd yn gweithio gyda Barnardo's i gefnogi dyfodol cadarnhaol i bobl ifanc ledled y DU. Mae gwasanaethau partneriaeth wedi cael eu sefydlu mewn cymunedau lleol ledled y DU mewn ardaloedd lle mae'r angen mwyaf amdanynt, gan ganolbwyntio'n bennaf ar gyfleoedd llesiant a bwyd.

Dim ond cyfran fach o'r gwaith sy'n mynd rhagddo yw'r mentrau hyn. Bydd y Llywodraeth yn cydweithio law yn llaw â manwerthwyr i sicrhau bod ei strategaeth fwyd yn cael cymaint o effaith a phosibl a gwella mynediad at fwyd iach fforddiadwy i blant a theuluoedd.



Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i roi diwedd ar y ddibyniaeth dorfol ar barseli bwyd brys. Mae ansicrwydd bwyd a'r defnydd o fanciau bwyd wedi bod yn cynyddu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Yn 2023/24, roedd 7.5 miliwn (11%) o unigolion yn byw ar aelwydydd ag ansicrwydd bwyd, gan gynnwys bron i un o bob pump o blant. Canran y plant sy'n byw ar aelwydydd sy'n defnyddio banciau bwyd erbyn hyn yw 8%.[136]

Mae'r Llywodraeth hon yn cydnabod manteision sylweddol bwydo ar y fron i famau a babanod, ac mae'n dal yn ymrwymedig i helpu teuluoedd i fwydo ar y fron os byddant yn dewis gwneud hynny. Rydym yn buddsoddi £18.5 miliwn eleni mewn gwasanaethau bwydo babanod a chymorth bwydo ar y fron mewn ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd drwy'r Canolfannau Teuluol a rhaglen Dechrau am Oes, ac wedi ymestyn y Llinell Gymorth Genedlaethol ar gyfer Bwydo ar y Fron i gynnig cymorth bob awr o'r dydd i deuluoedd ledled y DU.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod na all rhai teuluoedd fwydo ar y fron, neu eu bod yn dewis peidio â gwneud hynny. I deuluoedd sy'n defnyddio fformiwla babanod, mae'n eitem hanfodol. Cwblhaodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd astudiaeth o'r farchnad mewn perthynas â fformiwla babanod oherwydd pryder ynghylch diffyg cystadleuaeth o ran pris, gan ddod i'r casgliad bod y fframwaith rheoleiddio presennol, tueddiad rhieni i brynu ar sail enw da brandiau, ac ymddygiad gwneuthurwyr a manwerthwyr yn golygu bod defnyddwyr yn talu prisiau uwch.

Mae'r Llywodraeth wedi ystyried argymhellion yr Awdurdod ac wedi cyhoeddi, ochr yn ochr â'r Strategaeth Tlodi Plant hon ac mewn cydweithrediad ag adrannau'r Llywodraeth ym mhedair gwlad y DU, gytundeb i roi amrywiaeth o fesurau




ar waith i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae hyn yn cynnwys negeseuon sy'n dweud bod yr holl fformiwla babanod a werthir ar y farchnad yn y DU yn ddiogel ac yn diwallu anghenion maeth babanod, waeth beth fo'r pris neu'r brand. Dylai hyn helpu i roi hyder i rieni ddewis cynhyrchion fformiwla llai drud, gan fod yn ffyddiog yng ngwerth maeth eu dewis.

Rydym hefyd yn cyflawni un o ymrwymiadau ein hymgyrch etholiadol i adolygu'r rheoliadau ar fformiwla babanod er mwyn galluogi pobl i ddefnyddio pwyntiau teyrngarwch a thalebau i dalu am fformiwla babanod. Daeth yr adolygiad hwnnw i'r casgliad nad yw'r fframwaith deddfwriaethol presennol yn gwahardd y defnydd o gardiau rhodd archfarchnadoedd neu fanwerthwyr, na dulliau talu eraill sy'n cyfateb i arian parod, at y diben hwn. Cyn bo hir, byddwn yn diweddaru'r canllawiau cyfredol er mwyn cefnogi a safoni arferion rhwng manwerthwyr. Bydd hyn yn helpu i chwalu rhwystrau diangen ar gyfer y bobl hynny sy'n dibynnu ar fformiwla babanod.

Mae'r Llywodraeth yn helpu teuluoedd i fforddio costau bwyd yn fwy cyffredinol. Yn y Cynllun Iechyd 10 Mlynedd, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddwn yn cynyddu gwerth y taliadau wythnosol a wneir gan y Cynllun Cychwyn Iach 10%. Mae'r cynllun hanfodol hwn yn rhoi cymorth ariannol i fenywod beichiog a rhieni babanod a phlant bach o dan 4 oed er mwyn iddynt allu prynu bwyd iach, gan gynnwys fformiwla babanod. Drwy'r camau hyn rydym yn eu cymryd yn y farchnad fformiwla babanod, gallai teuluoedd na allant fwydo ar y fron, neu deuluoedd sy'n dewis peidio â gwneud hynny, arbed hyd at £500 yn ystod blwyddyn gyntaf bywyd babi.[137]

O fis Ebrill 2026 ymlaen, bydd menywod beichiog a phlant rhwng 1 a 4 oed yn cael £4.65 yr wythnos yr un (i fyny o £4.25), a bydd plant o dan 1 oed yn cael £9.30 yr wythnos (i fyny o £8.50). Rydym hefyd yn cydnabod y gwaith y mae manwerthwyr wedi'i wneud i hyrwyddo'r cynllun hwn er mwyn cynyddu'r nifer sy'n manteisio arno, a lle mae cyllid ychwanegol wedi cael ei

ddarparu, ochr yn ochr â llawer o fentrau eraill ganddynt i drechu tlodi.

Rydym yn creu clybiau brecwast am ddim ym mhob ysgol gynradd er mwyn cynnig dewisiadau gofal plant mwy fforddiadwy i rieni a helpu teuluoedd i fforddio costau byw, ble bynnag yn y wlad y maent yn byw. Bydd clybiau brecwast am ddim yn sicrhau y caiff plant eu paratoi'n dda â dechrau cynhyrchiol i'r diwrnod, gan helpu i sbarduno gwelliannau o ran ymddygiad, presenoldeb a chyrhaeddiad.

Yn gynharach eleni, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddwn yn ymestyn prydau ysgol am ddim i'r holl blant o aelwydydd sy'n cael Credyd Cynhwysol yn Lloegr o fis Medi 2026 ymlaen. Bydd yr estyniad digynsail hwn yn codi 100,000 o blant allan o incwm cymharol isel erbyn diwedd y senedd, sy'n gyfwerth â chynyddu incymau teuluoedd £500 y flwyddyn fesul plentyn.[138] Rydym hefyd yn cynnwys meithrinfeydd ar safleoedd ysgolion, chweched dosbarth ysgolion a lleoliadau addysg bellach, gan sicrhau y byddwn yn cefnogi plant drwy gydol eu haddysg orfodol. Bydd hyn yn golygu y bydd dros hanner miliwn yn rhagor o blant o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig yn cael cinio maethlon am ddim bob diwrnod ysgol.[139] Bydd hyn yn cyfrannu at gyrhaeddiad uwch, gwell ymddygiad, a gwell deilliannau i'r plant hynny ac yn cyfrannu at well addysg a chyfle i lwyddo ym myd gwaith ac mewn bywyd.[140]

Byddwn yn parhau i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob disgybl Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, gan gyrraedd 1.3 miliwn yn rhagor o blant.

Dylai'r prydau bwyd a ddarperir mewn ysgolion fod yn faethlon, yn gytbwys ac o ansawdd da. Er mwyn rhoi hyder i rieni y bydd eu plant yn bwyta prydau ffres ac iach, rydym yn diweddaru'r Safonau Bwyd mewn Ysgolion er mwyn codi safon prydau ysgol a thrawsnewid diwylliant bwyd mewn ysgolion drwy sicrhau mai bwyta'n iach yw'r norm.

Gall ansicrwydd bwyd ddwysáu i blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau ysgol, a gall clybiau gwyliau helpu i gynnig rhwyd ddiogelwch er mwyn lliniaru achosion o lwgu yn ystod y gwyliau ar gyfer y grŵp hwn. Felly, mae'r Llywodraeth yn buddsoddi yn y rhaglen Gweithgareddau a Bwyd Gwyliau, gan ddarparu £200 miliwn yn 2025/26, yn ogystal â £600 miliwn yn rhagor er mwyn ymestyn y rhaglen am dair blynedd arall, yn Lloegr. Mae'r rhaglen yn darparu prydau bwyd iach, gweithgareddau cyfoethogi a lleoedd gofal plant am ddim i blant o deuluoedd incwm isel yn ystod gwyliau'r haf, y Pasg a'r Nadolig. Mae'n cynnig lleoedd am ddim i blant oedran ysgol sy'n cael prydau ysgol am ddim sy'n gysylltiedig â budd-daliadau. Bydd hyn yn helpu rhieni i fforddio costau bwyd yn ystod y gwyliau, gan olygu na fydd plant yn llwgu y tu allan i'r tymor ysgol.

Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i sicrhau bod y system fwyd yn darparu ar gyfer pawb, gan sicrhau y gall teuluoedd mewn tlodi gael gafael ar y bwyd iach sydd ei angen arnynt. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi'r Cylch Bwyd Da, sy'n nodi'r weledigaeth lefel uchel ar gyfer y strategaeth fwyd a'r canlyniadau a fydd yn gwireddu'r weledigaeth hon. Ymhlith y canlyniadau hyn mae mynediad at opsiynau bwyd diogel, fforddiadwy, iach, cyfleus ac apelgar i bawb. Bydd mynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd yn rhan allweddol o'r hyn y mae'r strategaeth yn ceisio ei gyflawni, sy'n golygu, yn ymarferol, y bydd mwy o blant yn cael y prydau iach a maethlon sydd eu hangen arnynt i dyfu a ffynnu.

### Pa rannau o'r DU y bydd y polisïau hyn yn effeithio arnynt?

Mae polisïau Llywodraeth y DU sydd â'r nod o'i gwneud yn haws cael gafael ar fwyd iach fforddiadwy yn berthnasol yn Lloegr.

Mae cynllun Cychwyn Iach ar gael yng Nghymru, Lloegr, a Gogledd Iwerddon. Y cynllun cyfatebol yn yr Alban yw Best Start Foods.

## Mynd i'r afael â chost y diwrnod ysgol

Rydym yn cydnabod y gall costau addysg fod yn rhy uchel, ac rydym yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn, fel na fydd teuluoedd yn dioddef caledi oherwydd y costau sy'n gysylltiedig â mynychu'r ysgol.

***"Dydw i ddim yn cael arian poced ond, pe bawn i'n ei gael, byddwn i'n ei gynilo ar gyfer pethau sydd eu hangen arna i fel offer i fynd i'r ysgol."***

**(Merch 14 oed, Gwaith Ymchwil Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr)[141]**

I blant sy'n byw mewn tlodi, gall costau gwisg ysgol, cludiant a bwyd fod yn rhwystr rhag presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol. Fel y gwelwyd mewn gwaith ymchwil gan y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, mae tua chwarter y plant o deuluoedd incwm isel wedi cyfeirio at fethu â fforddio prydau bwyd fel rheswm dros golli ysgol, sy'n awgrymu y gallai ehangu prydau ysgol am ddim hefyd gefnogi presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol.[142] Mae gwaith ymchwil yn dangos ei bod yn bosibl bod disgyblion mewn tlodi hefyd yn teimlo eu bod yn cael eu hatal rhag cymryd rhan yn llawn mewn rhai gweithgareddau yn yr ysgol, gan gynnwys addysg gorfforol, cerddoriaeth, nofio a chelf a dylunio oherwydd costau.[143]

***"Does gen i ddim arian i dalu ffi gofrestru'r [clwb chwaraeon] bob tro. Dywedodd fy mam nad ydw i'n gallu talu amdano bob tro. Does dim digon o incwm i fy mam a fy chwaer... Rwy'n credu, os bydda i'n gwneud [chwaraeon], y gallai fod cyfle i gael contract a gwneud fy nheulu'n hapus, ond dydw i ddim yn gallu mynd i'r gampfa nac i sesiynau ymarfer."***

**(Bachgen 16 oed, Gwaith Ymchwil Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr)[144]**

Gwyddom fod llawer o deuluoedd yn ei chael hi'n anodd fforddio gwisgoedd ysgol drud â brand arnynt, sy'n gallu anghymell rhai rhieni rhag gwneud cais am le mewn rhai ysgolion, neu rwystro disgyblion rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau neu glybiau ysgol. Mae rhieni'n dibynnu ar eraill am gymorth i dalu costau, ac mae dros un o bob pump o neiniau a theidiau'n cyfrannu at dalu costau gwisgoedd ysgol.[145] Drwy'r Bil Lles Plant ac Ysgolion, byddwn yn cyfyngu ar nifer yr eitemau o wisg ysgol a chit addysg gorfforol â brand arnynt y gall ysgolion yn Lloegr eu gwneud yn ofynnol. Bydd hyn yn rhoi mwy o ddewis i rieni ynghylch ble y byddant yn siopa, er mwyn iddynt allu rheoli costau gwisg ysgol. Rydym yn amcangyfrif y gallai ei gwneud yn ofynnol i rieni brynu llai o eitemau â brand arnynt gan gyflenwyr penodedig arbed £50 fesul plentyn i rai rhieni pan fyddant yn siopa cyn i'w plant ddychwelyd i'r ysgol o fis Medi 2026 ymlaen.

Cyhoeddodd yr Adran Addysg ganllawiau statudol wedi'u diweddaru ym mis Hydref sy'n cynnwys canllawiau statudol drafft sy'n

ymwneud â'r terfyn arfaethedig ar eitemau â brand arnynt. Anogir ysgolion yn gryf i ystyried y canllawiau statudol drafft nawr wrth gynllunio gwisgoedd ysgol ar gyfer mis Medi 2026. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi pwysigrwydd sicrhau mynediad at wisgoedd ysgol ail law fel ffordd o leihau cost siopa am wisgoedd – gan gynnwys eitemau â brand arnynt. Er mai lle'r ysgolion fydd penderfynu sut i roi hyn ar waith, dylent sicrhau bod y wybodaeth am sut i gael gafael ar wisgoedd ysgol ail law yn glir i rieni disgyblion presennol a darpar ddisgyblion, a chyhoeddi'r wybodaeth honno ar wefan yr ysgol.

Mae'r Adran Addysg hefyd yn ei gwneud yn glir y gall ymddiriedolaethau ac awdurdodau lleol ddewis rhoi grantiau ar gyfer gwisgoedd ysgol er mwyn helpu teuluoedd i fforddio costau gwisgoedd mewn achosion o galedi ariannol. Gall ysgolion unigol gynnal eu cynlluniau eu hunain i roi cymorth, yn enwedig er mwyn helpu carfannau newydd o ddisgyblion neu os gwneir newidiadau sylweddol i'r wisg gyfredol, a cheir llawer o enghreifftiau o ysgolion yn gwneud hyn yn effeithiol. Mae'r canllawiau wedi'u diweddaru hefyd yn ei gwneud yn glir, mewn achosion lle yr amheuir mai caledi ariannol yw'r rheswm pam nad yw disgybl wedi cydymffurfio â'r polisi gwisg ysgol cyhoeddedig, y dylai ysgolion ddatrys y sefyllfa mewn modd ystyriol, ac na ddylai hyn arwain at sefyllfa lle y bydd y disgybl yn colli unrhyw gyfleoedd i ddysgu.

Hefyd, dylai ysgolion fod yn ymwybodol o'r costau sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu'n ehangach â'r ysgol, e.e. digwyddiadau codi arian neu ddigwyddiadau cymdeithasol y tu allan i oriau ysgol, ac mae'n bosibl y byddant am ystyried chwalu rhwystrau ariannol rhag cymryd rhan yn llawn.

Yn y rheng flaen, gall arweinwyr ysgolion a'u staff ddefnyddio adnoddau, a ddatblygwyd yn 2014 gan Children North East, yn uniongyrchol er mwyn diogelu rhag tlodi. Mae'r dull hwn yn annog cymunedau ysgolion i feddwl yn ofalus am yr hyn y byddant yn gofyn i deuluoedd ei wneud. Gall gofyn i blant ddod ag eitemau neu wisgoedd i mewn, neu ofyn am gyfraniadau ariannol bach drwy gydol y flwyddyn, roi pwysau ychwanegol ar deuluoedd a stigmateiddio'r rhai na allant fforddio cymryd rhan.

### Pa rannau o'r DU y bydd y polisïau hyn yn effeithio arnynt?

Mae polisïau Llywodraeth y DU sydd â'r nod o fynd i'r afael â chostau'r diwrnod ysgol yn berthnasol yn Lloegr.

## Creu system drafnidiaeth well, fwy integredig a fforddiadwy

Mae mynediad at drafnidiaeth ddibynadwy a fforddiadwy yn allweddol er mwyn cael addysg, yn ogystal â chefnogi teuluoedd a phobl ifanc mewn tlodi yn ehangach. Mae'r Llywodraeth yn galluogi lleoedd i fuddsoddi yn eu blaenoriaethau trafnidiaeth lleol, gan gynnwys llwybrau beiciau, hygyrchedd a mesurau gwella tagfeydd, gan fuddsoddi £15.6 biliwn erbyn 2031/32 mewn naw dinas-ranbarth mawr drwy'r setliadau Trafnidiaeth ar gyfer Dinas-ranbarthau, a £2.3 biliwn dros gyfnod yr adolygiad gwariant mewn dinasoedd llai, trefi ac ardaloedd gwledig drwy'r Grant Trafnidiaeth Leol.

Gan gydnabod pwysigrwydd gwasanaethau bysiau i deuluoedd mewn tlodi, mae'r Llywodraeth yn gwella gwasanaethau bysiau ac yn eu helpu i fforddio'r gost. Mae wedi ymrwymo i gynnal y cap £3 ar brisiau siwrneiau bysiau tan fis Mawrth 2027. Mae hyn yn cyfyngu ar bris siwrnai unffordd i £3 ar lwybrau cymwys a wasanaethir gan gwmnïau bysiau yn Lloegr sy'n cymryd rhan



yn y cynllun, a allai arbed hyd at 80% o'r gost ar rai llwybrau i deithwyr.

Rydym hefyd yn diwygio'r sector bysiau er mwyn gwella profiad teithwyr a chynyddu'r defnydd o fysiau ledled Lloegr drwy Ddeddf Gwasanaethau Bysiau 2025. Bydd hyn yn rhoi pwerau newydd i arweinwyr lleol allu dewis y model gorau ar gyfer bysiau yn eu hardal leol. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn darparu dros £1 biliwn yn ystod y flwyddyn ariannol hon a chyllid pellach drwy'r adolygiad gwariant er mwyn cynnal a gwella gwasanaethau bysiau. Mae newidiadau sy'n ei gwneud yn haws i awdurdodau fasnachfreinio eu gwasanaethau bysiau, sydd hefyd yn rhan o'r Ddeddf, yn rhoi mwy o reolaeth i awdurdodau dros agweddau allweddol ar wasanaethau bysiau, megis llwybrau, amserlenni a phrisiau siwrneiau. Gellid defnyddio hyn i sicrhau bod gwasanaethau'n targedu anghenion lleol yn well ac yn fwy fforddiadwy i bobl ar incymau isel.

Er mwyn cynnal momentwm ym mhob rhan o agenda costau trafnidiaeth ehangach y Llywodraeth, byddwn yn datblygu adnodd tlodi trafnidiaeth. Nod hyn fydd darganfod ble mae cysylltedd a fforddiadwyedd gwael ym maes trafnidiaeth yn cyfyngu ar fynediad pobl at gyflogaeth a gwasanaethau hanfodol. Byddwn yn archwilio'r ffyrdd gorau o integreiddio hyn wrth wneud penderfyniadau ym mhob rhan o'r Llywodraeth, er mwyn helpu mwy o bobl, yn enwedig mewn grwpiau incwm isel, i fynd i'r gwaith ac i leoliadau addysg, hyfforddiant a gofal iechyd.

## Pa rannau o'r DU y bydd y polisïau hyn yn effeithio arnynt?

Mae polisïau Llywodraeth y DU sydd â'r nod o greu system drafnidiaeth well a mwy integredig a fforddiadwy yn berthnasol yn Lloegr.

## Gwella mynediad digidol er mwyn arbed arian i deuluoedd a gwella mynediad at wasanaethau

Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i fynd i'r afael ag allgáu digidol. Ym mis Chwefror 2025, cyhoeddodd y Llywodraeth hon y Cynllun Gweithredu ar Gynhwysiant Digidol[146] sy'n nodi'r pum cam gweithredu cyntaf y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd ynghylch cynhwysiant digidol. Roedd hyn yn cynnwys lansio'r Gronfa Arloesi Cynhwysiant Digidol eleni, sydd â'r nod o helpu i roi ymyriadau cynhwysiant digidol ar waith mewn ardaloedd lleol ledled y DU. Rydym wedi gweithio gyda'r llywodraethau datganoledig er mwyn sicrhau y cytunir ar ddyraniadau cyllid cymesur i gefnogi mentrau cynhwysiant digidol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

### Pa rannau o'r DU y bydd y polisïau hyn yn effeithio arnynt?

Er bod Cynllun Gweithredu ar Gynhwysiant Digidol y Llywodraeth yn anelu at gefnogi gweithgarwch ym mhedair gwlad y DU, rydym yn cydnabod y camau y mae'r llywodraethau datganoledig eisoes wedi'u cymryd i gefnogi mentrau cynhwysiant digidol yn eu priod wledydd.

## Cyfeiriadau

108 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Child Poverty Strategy Parents and Carers Research. (Adroddiad ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau rhif 1097). Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/child-poverty-strategy-parents-and-carers-research

109 Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr (2025). Research with children to inform the Government's Child Poverty Strategy. Ar gael yn: Research with children to inform the Government's Child Poverty Strategy | Comisiynydd Plant Lloegr

110 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Households Below Average Income (HBAI) statistics for 2023/24. Ar gael yn: Households below average income: for financial years ending 1995 to 2024 - GOV.UK

111 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025). Dataset(s): Consumer price inflation tables. Ar gael yn: Consumer price inflation tables - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

112 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025). Dataset(s): Consumer price inflation tables. Ar gael yn: Consumer price inflation tables - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

113 Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant (2025). The minimum cost of education in the UK. Ar gael yn: The minimum cost of education in the UK | CPAG

114 Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2025). Statutory homelessness England level time series "live tables", Table TA1 - Number of households in temporary accommodation at the end of quarter by type of TA provided England, 1998 Q1 to 2025 Q2. Ar gael yn: Tables on homelessness - GOV.UK

115 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025). Household Costs Indices (HCI) for UK household groups. Ar gael yn: Household Costs Indices (HCI) for UK household groups - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol;

116 Y Sefydliad Tegwch Iechyd (2022). Fuel Poverty, Cold Homes and Health Inequalities in the UK. Ar gael yn: Fuel Poverty, Cold Homes and Health Inequalities in the UK - IHE

117 Cyngor ar Bopeth (2024). Postcode lottery of social tariffs means people are in the dark about almost £2bn worth of extra bills support. Ar gael yn: Postcode lottery of social tariffs means people are in the dark about almost £2bn worth of extra bills support - Cyngor ar Bopeth

118 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Households Below Average Income (HBAI) statistics for 2023/24. Ar gael yn: Households below average income: for financial years ending 1995 to 2024 - GOV.UK

119 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Households Below Average Income (HBAI) statistics for 2023/24. Ar gael yn: Households below average income: for financial years ending 1995 to 2024 - GOV.UK

120 American Academy of Pediatrics (2025). Breastfeeding and Health Outcomes for Infants and Children: A Systematic Review. Ar gael yn: Breastfeeding and Health Outcomes for Infants and Children: A Systematic Review | Pediatrics | American Academy of Pediatrics and Feeding in the first year of life: SACN report - GOV.UK

121 Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (2023). Price inflation and competition in food and grocery manufacturing and supply. Ar gael yn: Price inflation and competition in food and grocery manufacturing and supply

122 Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (2023). Price inflation and competition in food and grocery manufacturing and supply. Ar gael yn: Price inflation and competition in food and grocery manufacturing and supply

123 Yr Adran Drafnidiaeth (2023). National Travel Survey: 2023. Ar gael yn: National Travel Survey: 2023 - GOV.UK

124 Ofcom (2025). Communications Affordability Tracker. Ar gael yn: Communications Affordability Tracker - Ofcom

125 Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (2025). Paediatricians warn toxic air and poor housing threaten the lives of over a million children in England. Ar gael yn: Paediatricians warn toxic air and poor housing threaten the lives of over a million children in England | RCPCH

126 Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr (2025). No child should be homeless: how housing instability affects a child's GCSE grades. Ar gael yn: No child should be homeless: how housing instability affects a child's GCSE grades | Comisiynydd Plant Lloegr

127 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Households Below Average Income (HBAI) statistics for 2023/24. Ar gael yn: Households below average income: for financial years ending 1995 to 2024 - GOV.UK

128 Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr (2025). Research with children to inform the Government's Child Poverty Strategy. Ar gael yn: Research with children to inform the Government's Child Poverty Strategy | Comisiynydd Plant Lloegr

129 Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr (2025). Research with children to inform the Government's Child Poverty Strategy. Ar gael yn: Research with children to inform the Government's Child Poverty Strategy | Comisiynydd Plant Lloegr

130 Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2025). Tables on homelessness. Ar gael yn: Tables on homelessness - GOV.UK

131 Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr (2025). Research with children to inform the Government's Child Poverty Strategy. Ar gael yn: Research with children to inform the Government's Child Poverty Strategy | Comisiynydd Plant Lloegr

132 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Child Poverty Strategy Parents and Carers Research (Adroddiad ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau rhif 1097). Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/child-poverty-strategy-parents-and-carers-research

133 Y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Aelwydydd mewn Llety Dros Dro (2025). Child Mortality in Temporary Accommodation. Ar gael yn: Child Mortality in Temporary Accommodation – Adroddiad y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Aelwydydd mewn Llety Dros Dro

134 Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr (2025). Research with children to inform the Government’s Child Poverty Strategy. Ar gael yn: Research with children to inform the Government’s Child Poverty Strategy | Comisiynydd Plant Lloegr

135 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025). Family spending in the UK: April 2023 to March 2024. Ar gael yn: Family spending in the UK - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

136 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Households Below Average Income (HBAI) statistics for 2023/24. Ar gael yn: Households below average income: for financial years ending 1995 to 2024 - GOV.UK

137 Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (2023). Price inflation and competition in food and grocery manufacturing and supply. Ar gael yn: Price inflation and competition in food and grocery manufacturing and supply

138 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Free School Meals expansion – Impact on poverty levels. Ar gael yn: Free School Meals expansion - Impact on poverty levels - GOV.UK

139 Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2023). The policy menu for school lunches: options and trade-offs in expanding free school meals in England. Ar gael yn: The policy menu for school lunches: options and trade-offs in expanding free school meals in England | Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

140 Belot a James (2011). Healthy School Meals and Educational Outcomes. Ar gael yn: Healthy_School_Meals_and_Educational_Outcomes.pdf

141 Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr (2025). Research with children to inform the Government’s Child Poverty Strategy. Ar gael yn: Research with children to inform the Government’s Child Poverty Strategy | Comisiynydd Plant Lloegr

142 Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant (2025).Priced out of school: how lack of money prevents young people from attending school. Ar gael yn: Priced out of school: how lack of money prevents young people from attending school | CPAG

143 Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant (2025). The cost of a school day in England: Pupils’ Perspectives. Ar gael yn: Cyflwyniad PowerPoint

144 Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr (2025). Research with children to inform the Government’s Child Poverty Strategy. Ar gael yn: Research with children to inform the Government’s Child Poverty Strategy | Comisiynydd Plant Lloegr

145 ParentKind (2025). The National Parent Survey. Ar gael yn: https://nationalparentsurvey.parentkind.org/p80

146 Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg ac eraill (2025). Digital Inclusion Action Plan: First Steps. Ar gael yn: Digital Inclusion Action Plan: First Steps - GOV.UK



# Pennod 5: Atgyfnerthu cymorth lleol i deuluoedd

***"Weithiau, mae'n teimlo fel ein bod ni wedi cael ein gadael ar ôl oherwydd ein cod post. Mae llai o wasanaethau lleol ar gael, rhestrau aros hir, ac opsiynau gofal plant cyfyngedig. Bydd swyddi da yn aml yn golygu teithiau cymudo hir, sy'n anymarferol pan fyddwch chi hefyd yn ofalwr. Nid dim ond prinder pethau yw'r broblem—mae'n gallu gwneud i ni deimlo'n ynysig hefyd. Fel ein bod ni ddim yn cael ein gweld, ddim yn cael ein cynnwys yn yr un cyfleoedd y bydd pobl eraill yn eu cael. Pe bai cymorth a chyfleoedd yn cael eu gwasgaru'n decach, fyddai ddim rhaid i deuluoedd fel fy nheulu i frwydro mor galed i ddal i fyny."***

(Ollie U, rhiant/gofalwr, Changing Realities)[147]

## Crynodeb

Fel cenedl, rhaid i ni sicrhau bod gennym y gwasanaethau lleol a chymunedol sy'n galluogi teuluoedd a gofalwyr i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i'w plant, gan gynnwys y teuluoedd hynny sy'n wynebu tlodi.

Mae rhaglen y Llywodraeth hon o adnewyddu a diwygio yn gosod y sylfeini ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus cydgysylltiedig a ariennir yn well ac sy'n lleihau cyfradd ac effaith tlodi plant, yn gwella bywyd beunyddiol, yn atal argyfyngau ac yn cynyddu cyfleoedd. Drwy Fil Datganoli a Grymuso Cymunedau Lloegr, mae'r Llywodraeth yn grymuso awdurdodau strategol er mwyn iddynt allu cymryd camau gweithredu sydd wedi'u targedu'n fwy ac sy'n fwy ymatebol yn lleol. Yn Lloegr, mae meiri ac awdurdodau strategol yn cymryd camau rhagweithiol ac yn dangos arweinyddiaeth draws-system er mwyn lleihau tlodi plant a lliniaru ei effeithiau.

Rydym wedi cyhoeddi y byddwn yn ehangu Canolfannau Teuluol Dechrau Gorau, gan roi'r cymorth sydd ei angen ar deuluoedd.

Rydym wedi cyhoeddi Rhaglen Balchder Bro, a fydd yn darparu hyd at £5 biliwn o gyllid a chymorth i 244 o'r lleoedd mwyaf anghenus ym Mhrydain Fawr. Gall y buddsoddiad gynnwys mesurau i fynd i'r afael â thlodi plant, fel sefydlu groseriaid cymunedol newydd neu roi cyngor ar ddyledion.

Rydym hefyd yn ailosod y berthynas â grwpiau lleol a chymunedol, gan gynnig ffocws ac adnoddau er budd ein holl blant, gan gynnwys drwy ein Cronfa Dyfodol Gwell sydd ar flaen y gad.

Dros y 10 mlynedd nesaf, rydym am weld teuluoedd a phlant mewn cymunedau bywiog yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, pan fydd ei angen arnynt. Mae adnewyddu ein gwasanaethau cyhoeddus a'r berthynas â sefydliadau gwirfoddol ac elusennol yn greiddiol i hyn, ac i drechu tlodi plant.



## Yr heriau sy'n wynebu plant a theuluoedd

Mae'r strategaeth hon yn dibynnu ar wasanaethau a chymunedau lleol bywiog. Fodd bynnag, ers 2010, mae gwasanaethau cyhoeddus a chydberthnasau o fewn cymdeithas gyhoeddus a sifil a rhyngddynt wedi bod yn brin o uchelgais cenedlaethol a chyllid priodol. O ganlyniad i hyn, rydym yn wynebu heriau allweddol:

- mae cyllid llywodraeth leol wedi lleihau yn ystod y cyfnod hwn, ac mae'r ffordd hen ffasiwn y caiff awdurdodau lleol eu hariannu yn golygu bod rhai lleoedd wedi cael eu gadael ar ôl
- mae'r GIG, gwasanaethau iechyd i deuluoedd a phobl ifanc a gwasanaethau iechyd lleol yn ei chael hi'n anodd cydweithio â'i gilydd i gefnogi teuluoedd ac ymdopi ag effeithiau tlodi
- mae gwaith mewn partneriaeth â mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol wedi dioddef, ac mae'r disgwyliadau sydd arnynt wedi tyfu, oherwydd y cynnydd mewn tlodi.

Mae ymreolaeth awdurdodau lleol wedi lleihau, oherwydd rheolaeth gynyddol y Llywodraeth ganolog. Erbyn hyn, mae atebolrwydd yn fwy tameidiog ac mae dulliau adrodd niferus, ar draws amrywiaeth o fentrau, wedi atal camau gweithredu, gan gynnwys er mwyn trechu tlodi plant.

O ganlyniad i gyfnod hir o gyni ers 2010, mae gwasanaethau ataliol wedi lleihau, gan gael yr effaith fwyaf ar y bobl dlotaf. Ers 2010, mae cyllid awdurdodau lleol wedi lleihau'n sylweddol, ac roedd eu cyllid craidd wedi gostwng 9% mewn termau real erbyn 2024/25.[148] Mae'r ardal y mae plentyn yn byw ynddi yn gwneud cyfraniad pwysig at y tebygolrwydd y bydd yn byw mewn tlodi a'i brofiad o'r tlodi hwnnw, ac mae cyfraddau tlodi'n amrywio ledled gwledydd a rhanbarthau'r DU a rhwng ardaloedd awdurdodau lleol. Mae gan yr 20 o awdurdodau lleol yn Lloegr sydd â'r cyfraddau tlodi plant uchaf, cyn costau tai, i gyd gyfraddau tlodi plant sy'n uwch na 30%, ac mae gan yr 20 sydd â'r cyfraddau isaf i gyd gyfraddau tlodi plant sy'n is na 10%.[149] Mae'r model ariannu y gwnaethom ei etifeddu wedi gwreiddio anghydraddoldeb, gan adael rhai cynghorau ar ddibyn

ariannol a chymunedau mewn ardaloedd o amddifadedd yn wynebu gwasanaethau sydd wedi mynd â'u pen iddynt, toriadau, a biliau sy'n cynyddu.

O ganlyniad i danariannu hanesyddol ac anghenion uwch heb eu diwallu mewn rhai ardaloedd, mae rhieni sydd mewn tlodi yn aml yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Rhwng 2010 a 2022, cafodd tua thraean o ganolfannau plant eu cau neu eu torri'n ôl, a bu gostyngiad o 73% mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau i deuluoedd.[150] Yn Lloegr, mae cyllid awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth i bobl ifanc wedi lleihau'n sylweddol ers 2011, o £1.1 biliwn yn 2011 i £0.4 biliwn yn 2021. Gwnaeth tua 34% o'r holl awdurdodau lleol yn Lloegr leihau gwariant mewn termau real fesul disgybl ysgol uwchradd a ariennir gan y wladwriaeth fwy na 75% rhwng 2011 a 2021.[151] Mae 29.6% o blant yn gwneud llai na 30 munud o weithgarwch corfforol bob dydd ar gyfartaledd, a dim ond 47.8% sy'n gwneud y 60 munud y dydd a argymhellir. Mae lefelau gweithgarwch yn amrywio ledled y wlad, gydag ardaloedd o amddifadedd uwch yn gysylltiedig â lefelau is o weithgarwch corfforol.[152]

Er bod y GIG yn rhad ac am ddim ar adeg ei ddefnyddio, mae rhai plant a theuluoedd yn wynebu rhwystrau oherwydd y costau cudd sy'n gysylltiedig â theithio i apwyntiadau, gofal plant ar gyfer plant eraill a cholli incwm yn achos y rhai na allant gael amser i ffwrdd o'r gwaith am dâl i fynd i apwyntiadau.[153,154] Mae teithio pellterau hir at wasanaethau iechyd yn gwaethygu'r problemau hyn. Yn aml, bydd plant sydd ag iechyd meddwl gwael fwy na dwywaith yn fwy tebygol o fod yn byw ar aelwyd sydd wedi mynd ar ei hôl hi o ran talu'r rhent, y biliau neu'r morgais.[155] Yn rhy aml, bydd y plant hyn yn ei chael hi'n anodd cael y cymorth iechyd meddwl sydd ei angen arnynt.

Mae'r pwysau sydd ar wahanol wasanaethau yn effeithio ar allu gwasanaethau lleol i gydweithio'n effeithiol â'i gilydd, gan beri risg y bydd plant agored i niwed yn llithro drwy'r rhwyd. Awgryma gwaith ymchwil allanol fod y cynnydd mewn tlodi plant yn Lloegr rhwng 2015 a 2020 yn gysylltiedig â'r ffaith bod 10,000 o blant ychwanegol, yn ôl yr amcangyfrifon, wedi cael eu rhoi mewn gofal.[156] Mae plant mewn gofal yn fwy tebygol o gael canlyniadau gwaeth ym meysydd addysg, cyflogaeth,[157] tai,[158] iechyd meddwl ac iechyd corfforol na phlant eraill,[159,160,161,162] a chanlyniadau gwaeth yn ddiweddarach mewn bywyd yn aml hefyd.

Mae cymdeithas sifil yn cyflawni rôl greiddiol yn ein cymdeithas, ond mae wedi dioddef yn sgil pwysau cynyddol, cydberthnasau â'r Llywodraeth a nodweddir gan gontractau byrdymor, grantiau llai ac amgylchedd polisi nad yw wedi hybu ymddiriedaeth, cydnabyddiaeth a gwerth.

## Mynd ymhellach er mwyn gwella cymorth lleol i deuluoedd

**Drwy'r strategaeth hon, byddwn yn adeiladu ar waith y Llywodraeth hon hyd yma ac yn mynd i'r afael â'r heriau hyn ymhellach drwy wneud y canlynol:**

1. Grymuso ardaloedd lleol i weithredu ar dlodi plant
2. Atgyfnerthu'r GIG, gan ganolbwyntio ar anghydraddoldebau iechyd ac integreiddio'n fwy effeithiol ar y lefel leol
3. Atal iechyd gwael yn ystod plentyndod
4. Buddsoddi mewn gwasanaethau i deuluoedd er mwyn torri cylch tlodi
5. Gwella canlyniadau drwy waith seiliedig ar le
6. Buddsoddi yn nyfodol pobl ifanc
7. Cefnogi plant a theuluoedd 'heb hawl i gyllid cyhoeddus'
8. Buddsoddi mewn prosiectau cymunedol a sefydlu gwell perthynas â chymdeithas sifil

## Grymuso ardaloedd lleol i weithredu ar dlodi plant

Mae llywodraeth leol yn cyflawni rôl hollbwysig er mwyn trechu tlodi plant drwy ddarparu gwasanaethau hanfodol i blant agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod ganddynt le diogel i fyw ynddo ac y gallant fynd i'r ysgol, gan roi mynediad i deuluoedd at gyngor a chymorth drwy Ganolfannau Teuluol Dechrau Gorau, a chynnig mannau diogel fel gwasanaethau ieuenctid a llyfrgelloedd cyhoeddus.

Rydym yn sicrhau bod trechu tlodi plant wrth wraidd canlyniadau llywodraeth leol. Yn Lloegr, mae'r Fframwaith Canlyniadau[163] newydd ar gyfer llywodraeth leol yn nodi'n glir beth yw'r 15 o ganlyniadau â blaenoriaeth yr hoffem weithio gyda chynghorau i'w cyflawni yn ystod cyfnod yr adolygiad gwariant presennol. Yn ychwanegol at symleiddio cyllid grant, bydd gan arweinwyr lleol yr hyblygrwydd i allu cefnogi gwell cydweithio rhwng partneriaid lleol a llywodraeth ganolog a lleol rhwng lleoedd.

Mae'r Fframwaith yn cynnwys pedwar canlyniad â blaenoriaeth, ynghyd â metrigau ategol, sy'n cyd-fynd â chenhadaeth y Llywodraeth ganolog ar gyfleoedd i chwalu rhwystrau a rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant. Mae hyn yn cynnwys canlyniad cyd-destunol i leihau a lleddfu tlodi plant er mwyn gwella bywydau plant a'u cyfleoedd mewn bywyd. Yn ogystal â hynny, mae'r Fframwaith yn cynnwys canlyniadau ehangach â blaenoriaeth a fydd yn helpu i drechu tlodi plant, megis atal a lleihau digartrefedd a chysgu allan; mynediad at gartref gweddus, diogel a fforddiadwy; twf lleol; a hybu iechyd a llesiant plant. Bydd adnodd digidol y Fframwaith, a fydd yn weithredol o Wanwyn 2026 ymlaen, yn tracio cynnydd tuag at gyflawni'r holl ganlyniadau. Bydd hyn yn helpu awdurdodau lleol i flaenoriaethu'r gwasanaethau sy'n gwella canlyniadau i blant.

Rydym yn grymuso arweinwyr rhanbarthol i fynd i'r afael â thlodi yn well drwy Fil Datganoli a Grymuso Cymunedau Lloegr. Bydd awdurdodau strategol yn gallu cymryd camau sydd wedi'u targedu'n well ac sy'n fwy ymatebol yn lleol. Gyda phwerau a chyfrifoldebau datganoledig ym meysydd sgiliau oedolion, cymorth cyflogaeth, trafnidiaeth, a thai, bydd gan awdurdodau strategol yr adnoddau i sbarduno cyfleoedd cyflogaeth a thwf economaidd lleol cynhwysol, er mwyn helpu i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi. Bydd yr awdurdodau strategol mwyaf datblygedig hefyd yn gallu cael setliadau integredig, gan roi'r hyblygrwydd i feiri allu cronni a chysoni cyllidebau rhwng eu cyfrifoldebau datganoledig, a'u galluogi i gyflawni rôl arwain strategol mewn perthynas â thlodi plant.

Ar ben hynny, rydym yn cynyddu cyllid drwy ddyrannu'n decach ar sail angen ac ymrwymo i ddarparu cyllid brys dros y tymor hir.

Mae adolygiad gwariant 2025 yn darparu dros £5 biliwn o gyllid grant newydd ar gyfer gwasanaethau lleol dros y tair blynedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys £3.4 biliwn o gyllid grant newydd a gaiff ei ddarparu drwy'r Setliad Cyllid Llywodraeth Leol amlflwydd cyntaf ers mwy na degawd. Bydd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd hirdymor i awdurdodau lleol ac yn galluogi llywodraeth leol i ganolbwyntio ar flaenoriaethau, gan gynnwys trechu tlodi plant.

Drwy Adolygiad Gwariant Teg 2.0, gwnaethom nodi cynigion i sicrhau y caiff cyllid ei gyfeirio i'r lleoedd a'r cymunedau lle mae ei angen fwyaf, gan gynnwys y rhai â'r lefelau uchaf o dlodi plant. Mae miliynau o bobl yn byw mewn lleoedd sy'n cael eu tanariannu o gymharu â'u hangen, am nad yw'r ffordd y mae'r Llywodraeth yn ariannu cynghorau wedi cael ei diweddaru ers 2013. Mae'r cynigion a nodir yn y Datganiad Polisi Cyllid Llywodraeth Leol diweddar yn golygu y bydd y 10% o awdurdodau â'r mwyaf o amddifadedd, sydd â lefelau uwch o dlodi plant ar gyfartaledd, yn gweld cynnydd sylweddol yn eu Grym Gwario Craidd y pen o gymharu â'r ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf erbyn 2028/29.

Byddwn hefyd yn symleiddio ac yn cyfuno cyllid i awdurdodau lleol, a fydd yn helpu i symud tuag at ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar atal, a diwygio gwasanaethau ehangach. Bydd creu Grant Plant, Teuluoedd ac Ieuenctid newydd o fewn y Setliad Cyllid Llywodraeth Leol yn cyfuno cyllid y Grant Atal Gofal Cymdeithasol a rhaglen Partneriaeth Teuluoedd yn Gyntaf o fewn y Grant Plant a Theuluoedd, ochr yn ochr â buddsoddiad pellach mewn diwygio gofal cymdeithasol i blant.

Mae cymorth mewn argyfwng yn achubiaeth hanfodol i gefnogi teuluoedd mewn argyfwng pan fydd angen help ychwanegol arnynt. Bydd y Gronfa Argyfwng a Gwydnwch, sy'n werth £842 miliwn y flwyddyn, yn diwygio cymorth mewn argyfwng yn Lloegr drwy alluogi awdurdodau lleol i roi cymorth ar unwaith i'r rhai ar incymau isel sy'n mynd drwy broblemau ariannol annisgwyl. Bydd y Gronfa hefyd yn rhoi cymorth tai er mwyn helpu pobl i dalu costau rhent neu symud. Darperir cyllid canlyniadol Barnett i'r llywodraethau datganoledig, gan olygu y bydd y cynllun yn costio cyfanswm o £1 biliwn y flwyddyn.

Yn ogystal â rhoi cymorth mewn argyfwng, bydd y Gronfa Argyfwng a Gwydnwch hefyd yn buddsoddi mewn gwydnwch ariannol lleol er mwyn galluogi cymunedau i ddelio'n well ag argyfyngau yn y tymor hir, gan leihau dibyniaeth ac angen mynych. Bydd awdurdodau lleol, mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol a chymunedol, yn cael eu grymuso i roi cymorth ataliol sydd wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer eu cymunedau, a chyflawni canlyniadau allweddol megis

cynyddu incymau pobl a lleihau'r angen am barseli bwyd brys.

Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i sicrhau y gall pawb ffynnu, beth bynnag fo'u cefndir. I gefnogi hyn, byddwn hefyd yn rhoi'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ar gyrff cyhoeddus (adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) ar waith. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried anfantais economaidd-gymdeithasol a sut y gallai eu penderfyniadau strategol helpu i leihau anghydraddoldebau.

Byddwn yn dysgu o brofiad Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban o roi'r ddyletswydd ar waith, a chan awdurdodau lleol sydd wedi'i mabwysiadu'n wirfoddol. Dywed sefydliadau o'r fath ei bod wedi atgyfnerthu eu hymdrechion i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Rydym bellach yn bwrw ymlaen â gwaith i sicrhau y caiff y ddyletswydd yn Lloegr ei rhoi ar waith mor effeithiol â phosibl, gan sicrhau bod cydraddoldeb wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau er mwyn chwalu rhwystrau rhag cyfleoedd a sicrhau na chaiff yr un plentyn ei adael ar ôl.

Gyda'i gilydd, bydd y diwygiadau hyn yn galluogi cynghorau i weithredu fel partneriaid lleol mwy effeithiol er mwyn trechu tlodi plant.

### Pa rannau o'r DU y bydd y polisïau hyn yn effeithio arnynt?

Mae polisïau Llywodraeth y DU sydd â'r nod o rymuso ardaloedd lleol i weithredu ar dlodi plant yn berthnasol yn Lloegr.

## Atgyfnerthu'r GIG, gan ganolbwyntio ar anghydraddoldebau iechyd ac integreiddio'n fwy effeithiol ar y lefel leol

Mae'r GIG yn meithrin cymdeithas iachach a mwy cynhyrchiol ac economi fwy cadarn, sy'n sail i sefydlogrwydd a ffyniant cenedlaethol. Mae trechu tlodi plant wrth wraidd Cenhadaeth Iechyd y Llywodraeth a'i



huchelgais i fagu'r genhedlaeth iachaf erioed o blant.

Mynd i'r afael ag annhegwch gofal iechyd sydd wrth wraidd y Cynllun Iechyd 10 Mlynedd, a fydd yn sicrhau bod y GIG wrth law i helpu rhieni, babanod, plant a theuluoedd y mae ei angen arnynt, pryd bynnag y bydd ei angen arnynt. Mae'r Cynllun Iechyd 10 Mlynedd yn nodi ein gweledigaeth i helpu'r GIG i sefydlu model Gwasanaeth Iechyd yn y Gymdogaeth sy'n rhoi gofal mwy cydgysylltiedig, ataliol a phersonol i wahanol garfannau o'r boblogaeth yn y gymuned. Rydym yn bwriadu cyhoeddi Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Cynlluniau Iechyd yn y Gymdogaeth yn ystod y misoedd nesaf. Bydd yn nodi sut y dylai ardaloedd ddylunio gwasanaethau iechyd yn y gymdogaeth yn seiliedig ar anghenion lleol a gwahanol garfannau o'r boblogaeth, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Gallai hyn gynnwys sefydlu Timau Amlddisgyblaethol yn y Gymdogaeth ar gyfer plant, a fydd yn gallu cyfeirio at wasanaethau perthnasol i gefnogi plant sy'n byw mewn tlodi. Drwy'r newidiadau hyn, mae'r Llywodraeth yn gosod y sylfeini i holl gyrff y GIG sicrhau mynediad teg at wasanaethau i deuluoedd incwm isel a'r rhai sydd mewn tlodi, gan dorri cylch amddifadedd ac iechyd gwael. Er mwyn sicrhau mynediad teg at wasanaethau, mae cymorth eisoes ar gael drwy Gynllun Costau Teithio Gofal Iechyd y GIG, sy'n cynnig cymorth ariannol ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â theithio i gleifion sy'n rhan o Gynllun Incwm Isel y GIG neu sy'n cael budd-dal cymwys, a'u dibynyddion.

Hefyd, mae'r Papur Gwyn ar Ddatganoli yn nodi uchelgais hirdymor pellach i gysoni ffiniau daearyddol gwasanaethau cyhoeddus ag awdurdodau strategol, gan alluogi gwaith cynllunio a chyflawni mwy cydlynol rhwng gwasanaethau sy'n hanfodol er mwyn cefnogi teuluoedd mewn tlodi, gan gynnwys y Gwasanaeth Swyddi a Gyrfaoedd a gwasanaethau iechyd. Mae Cynllun Iechyd 10 Mlynedd Lloegr yn ailddatgan yr ymrwymiad hwn, gyda bwriad clir i gysoni ffiniau byrddau gofal integredig ag awdurdodau strategol lle bynnag y bo modd. Byddwn yn gwneud meiri awdurdodau strategol (neu eu cynrychiolwyr dirprwyedig) yn aelodau o'u byrddau gofal integredig er mwyn cysoni'r cyfleoedd ar gyfer cynllunio strategol rhwng y GIG a'r awdurdodau strategol fel cyrff allweddol ar gyfer twf yn y ffordd orau posibl. Bydd dyletswydd statudol newydd i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd yn atgyfnerthu rôl awdurdodau strategol o ran llywio canlyniadau hirdymor i blant. Drwy eu harweinyddiaeth mewn systemau gofal integredig a'u gallu i hyrwyddo arferion effeithiol ledled lleoedd, mae meiri mewn sefyllfa dda i sbarduno newid systemig ac ysbrydoli gweithredu ar y cyd ynghylch tlodi plant.

### Pa rannau o'r DU y bydd y polisïau hyn yn effeithio arnynt?

Mae polisïau Llywodraeth y DU sydd â'r nod o atgyfnerthu'r GIG, gan ganolbwyntio ar anghydraddoldebau iechyd ac integreiddio'n fwy effeithiol ar y lefel leol yn berthnasol yn Lloegr.

## Atal iechyd gwael yn ystod plentyndod

Rydym yn benderfynol o ddyrannu cyllid yn well i feddygaeth deulu mewn ffordd sy'n adlewyrchu cymhlethdod ychwanegol rhoi gofal mewn cymunedau â lefelau uchel o salwch. Ym mis Mehefin, gwnaethom gyhoeddi'r adolygiad o'r fformiwla gyllido ar gyfer meddygon teulu er mwyn sicrhau bod adnoddau'n targedu'r mannau lle mae

eu hangen fwyaf. Dechreuodd yr adolygiad ym mis Hydref a disgwylir iddo gael ei gwblhau mewn chwe mis. Yn dilyn hynny, caiff penderfyniadau gweinidogol eu gwneud ynglŷn â rhoi newidiadau ar waith o 2027 ymlaen. Fel y cyhoeddwyd yn y Cynllun Iechyd 10 Mlynedd, rydym yn dod â'r arfer o roi cyllid cymorth diffyg i ben yn raddol ac yn symud sefydliadau tuag at eu cyfran deg o gyllid y GIG – sy'n werth £2.2 biliwn yn 2025/26. Bydd hyn yn rhyddhau cyllid y gellir ei ailgyfeirio'n gyflymach i feysydd sydd â'r anghenion iechyd mwyaf ledled y wlad.

Hefyd yng Nghynllun Iechyd 10 Mlynedd Lloegr, byddwn yn ehangu'r rhaglen i fflworideiddio dŵr yn y gymuned yng ngogledd-ddwyrain Lloegr o 2028 ymlaen er mwyn cyrraedd 1.6 miliwn yn rhagor o bobl erbyn mis Ebrill 2030. Byddwn yn asesu cynlluniau i gyflwyno'r rhaglen ymhellach yn yr ardaloedd â'r canlyniadau iechyd y geg gwaethaf.

Rydym yn cymryd camau i sicrhau na fydd yr un plentyn yn wynebu amrywiadau mewn canlyniadau iechyd oherwydd tlodi. Mae gwasanaethau ymwelwyr iechyd yn allweddol i hyn. Yn aml, nhw yw'r unig weithwyr proffesiynol a fydd yn gweld plant yn eu cartrefi, gan roi cyngor a chymorth hanfodol a helpu i sicrhau y caiff anghenion iechyd, datblygu a diogelu eu canfod yn gynnar. Rydym yn ymrwymedig i atgyfnerthu gwasanaethau ymwelwyr iechyd er mwyn sicrhau bod pob teulu'n gallu cael cymorth o ansawdd da.

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd yn buddsoddi mewn ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer plant, gan gynnwys:

- cyflwyno systemau braenaru yn 2025/26 er mwyn profi opsiynau ar gyfer rhoi brechiadau i blant cyn ysgol o grwpiau na chânt eu gwasanaethu'n ddigonol fel rhan o ymweliadau iechyd
- parhau i helpu teuluoedd i gael y cymorth sydd ei angen arnynt drwy ymyriad y Bartneriaeth Nyrsys Teulu ar gyfer pobl sy'n rhieni am y tro cyntaf ac sy'n wynebu ffactorau ychwanegol sy'n eu gwneud yn agored i niwed, y mae llawer ohonynt yn byw mewn tlodi
- lleihau niwed smygu i fabanod heb eu geni a'u teuluoedd drwy ein Cynllun Cymhellion Beichiogrwydd Di-fwg Cenedlaethol
- buddsoddi £11 miliwn yn y broses o gyflwyno rhaglen brwsio dannedd dan oruchwyliaeth ar gyfer plant rhwng 3 a 5 oed, gan dargedu'r ardaloedd â'r mwyaf o amddifadedd yn Lloegr yn 2025/26

Byddwn yn cyflymu'r broses o gyflwyno Timau Cymorth Iechyd Meddwl mewn ysgolion a cholegau er mwyn iddynt fod ar waith ym mhob rhan o'r wlad erbyn 2029, a disgwylir i filiwn yn rhagor o blant gael budd o'r ehangu eleni.

Rydym yn cydnabod gwerth cydweithio â'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol er mwyn gwella iechyd a chyfleoedd bywyd plant mewn tlodi. Er enghraifft, mae Virgin Media O2 wedi ffurfio partneriaeth â'r elusen 'Supporting Children with Diabetes' ac wedi rhoi 1,000 o ffonau clyfar wedi'u hadnewyddu i deuluoedd ar incymau isel y mae gan eu plant ddiabetes Math 1, sy'n eu helpu i reoli'r cyflwr. Mae Virgin Media O2 hefyd wedi ymrwymo i roi 500 yn rhagor o ddyfeisiau i'r elusen yn ystod y flwyddyn nesaf.

Felly, fel rhan o'r strategaeth hon, mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ymrwymo i ymgysylltu â'r farchnad a rhanddeiliaid ehangach y tu allan i'r Llywodraeth i feithrin gwell dealltwriaeth ac archwilio cyfleoedd posibl i gydweithio er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau tlodi plant ar iechyd, fel rhan o'r ymdrech i fagu'r genhedlaeth iachaf erioed.

### Pa rannau o'r DU y bydd y polisïau hyn yn effeithio arnynt?

Mae polisïau Llywodraeth y DU sydd â'r nod o atal iechyd gwael mewn plentyndod yn berthnasol yn Lloegr.

## Buddsoddi mewn gwasanaethau i deuluoedd er mwyn torri cylch tlodi

Mae'r 1,001 o ddiwrnodau o adeg beichiogi nes y bydd plentyn yn 2 oed yn hollbwysig gan fod cydberthnasau a phrofiadau cynnar babi yn llywio ei ddatblygiad cyflym.[164] Gall gwasanaethau lleol dibynadwy fel llyfrgelloedd gefnogi mynediad at ddosbarthiadau cynenedigol, timau ymwelwyr iechyd, dosbarthiadau magu plant, a chymorth datblygiad ac iechyd meddwl. Mae mynediad at addysg a gofal plant cynnar o ansawdd da yn hanfodol er mwyn cefnogi datblygiad plentyn.

Ni ddylai'r un rhiant wynebu'r heriau sy'n gysylltiedig â bod yn rhiant newydd ar ei ben ei hun. Er mwyn sicrhau y bydd rhieni'n cael y cymorth sydd ei angen arnynt, pan fydd ei angen arnynt, byddwn yn rhoi cyllid trawsnewidiol i bob awdurdod lleol yn Lloegr drwy Ganolfannau Teuluol Dechrau Gorau. Bydd y canolfannau'n rhoi cymorth cyffredinol a chymorth wedi'i dargedu, gyda gweithgareddau mynediad agored a llwybrau atgyfeirio ar gyfer teuluoedd ag anghenion cymhleth. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i gyflawni mewn ardaloedd o anfantais, lle mae teuluoedd yn wynebu'r rhwystrau mwyaf rhag cael cymorth. Drwy'r canolfannau, caiff teuluoedd eu cysylltu ag amrywiaeth eang o gymorth, gan gynnwys cymorth ar dai, cyflogaeth, dyled a lles. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i ariannu parhad gwasanaethau Babanod Iach (Dechrau am Oes gynt) sydd eisoes yn bodoli er mwyn helpu babanod i gael y dechrau iachaf mewn bywyd, gan gynnwys iechyd meddwl amenedigol, y berthynas rhwng rhieni a babanod, a bwydo babanod.

Yn ychwanegol at hynny, mae ymgyrch a gwasanaeth digidol Dechrau Gorau mewn Bywyd yn dod â chyngor, cymorth a gwybodaeth ddibynadwy ynghyd er mwyn helpu i arwain rhieni wrth iddynt fagu eu plentyn o adeg beichiogi a'r 1,001 o ddiwrnodau drwy daith eu plentyn drwy ofal plant, addysg blynyddoedd cynnar a dechrau yn yr ysgol. Drwy wefan, negeseuon e-bost a sianeli cyfryngau cymdeithasol Dechrau Gorau mewn Bywyd, Canolfannau Teuluol Dechrau Gorau a phwyntiau cyswllt y gwasanaeth iechyd, byddwn yn codi ymwybyddiaeth teuluoedd incwm isel o'r cymorth ariannol sydd ar gael, gan gynnwys Cychwyn Iach, Cynllun Incwm Isel y GIG, Costau Teithio Gofal Iechyd a Grantiau Mamolaeth Cychwyn Cadarn, ac yn ei gwneud yn haws iddynt gael gafael ar y cymorth hwnnw.

Paratoi plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd yw'r cam cyntaf hollbwysig er mwyn torri'r cysylltiad rhwng cefndir plentyn a'i lwyddiant yn y dyfodol. Byddwn yn buddsoddi dros £500 miliwn mewn Canolfannau Teuluol Dechrau Gorau yn ystod cyfnod yr adolygiad gwariant. Mae'r buddsoddiad hwn yn rhan greiddiol o'n hymrwymiad i fynd i'r afael â bylchau cyrhaeddiad er mwyn magu'r genhedlaeth iachaf erioed o blant.



## Astudiaeth Achos: Canolfannau Lles Teuluol Brent

Yn 2020, rhoddodd Cyngor Brent y ddarpariaeth Canolfannau Plant flaenorol ar waith eto ar ffurf model newydd, sef wyth canolfan deuluol integredig (Canolfannau Lles Teuluol). Mae'r Canolfannau Lles Teuluol wrth wraidd darpariaeth Cymorth Cynnar Brent yn y gymuned ac maent yn flaenoriaeth yn y Cynllun Bwrdeistref (2023-27). Maent yn darparu gwasanaeth 'teulu cyfan' (ar gyfer plant 0-18 oed a hyd at 25 oed yn achos plant ag AAAA) integredig, sy'n dod â gwasanaethau craidd ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgol, gwasanaethau i blant o dan 5 oed, gwasanaethau magu plant a chymorth i deuluoedd ynghyd mewn un darpariaeth. Mae'r trefniant hwn hefyd yn helpu i gydgysylltu a darparu gwasanaethau ar gyfer plant mwy agored i niwed, wedi'u cydgysylltu'n agos â gofal cymdeithasol i blant. Mae'r canolfannau ar agor yn llawn amser, ac mae sawl un yn cynnig gweithgareddau i bobl ifanc gyda'r hwyr ac ar ddydd Sadwrn.

Caiff pob Canolfan ei llywio gan Grŵp Llywio Lleol o randdeiliaid, a cheir gweithio integredig drwy rwydwaith Cymorth Cynnar Brent er mwyn ymateb yn effeithlon ac yn effeithiol i anghenion teuluoedd lleol gan ddefnyddio dull cyfannol.

Gwasanaeth brysbennu yw'r pwynt cyswllt cychwynnol ar gyfer plant a theuluoedd y mae angen ymyriadau llai dwys arnynt neu ddarnau byrdymor o waith ar gyfer teuluoedd sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cymorth cyffredinol. Ymhlith y materion cyffredin a gaiff eu cyflwyno i'r gwasanaeth brysbennu mae adleoli a diffyg adnoddau, dyled, costau byw, tai, newydd-ddyfodiaid, a rhieni plant sydd ag anghenion ychwanegol heb ddiagnosis y mae angen cymorth arnynt i ddefnyddio gwasanaethau.

Yn ystod blwyddyn 2024/25, cefnogwyd 18,079 o deuluoedd.

Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â chylch hirdymor tlodi drwy roi mesurau ar waith i wella deilliannau addysgol y plant mwyaf difreintiedig yn ystod eu blynyddoedd cynnar. Mae hyn yn hanfodol er mwyn torri'r cysylltiad rhwng cefndir plentyn a'i lwyddiant yn y dyfodol. Rydym eisoes cyflwyno cynnydd digynsail o 45% i Bremiwm Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar, o £388 y flwyddyn fesul plentyn i £570.

Mae amddiffyn plant rhag niwed a'u hatal rhag mynd i mewn i'r system gofal, lle bo hynny'n briodol, yn hanfodol i'w canlyniadau economaidd[165] ac iechyd[166] hirdymor, er mwyn lleihau eu risg o fod mewn tlodi yn y dyfodol. Rydym yn atgyfnerthu ein dulliau atal ac yn rhoi diwygiadau sylweddol ar waith ym maes gofal cymdeithasol i blant yn Lloegr, er mwyn ailgydbwyso'r system tuag at ymyrryd yn gynharach, gan sicrhau y gellir rhoi cymorth cofleidiol i blant a theuluoedd pan fydd ei angen, gan atal y sefyllfa rhag datblygu'n argyfwng.

Rydym wedi rhoi dros £2.4 biliwn o gyllid dros gyfnod yr adolygiad gwariant ar gyfer cyflwyno cymorth i deuluoedd, mesurau amddiffyn plant amlasiantaeth a phrosesau gwneud penderfyniadau mewn grwpiau teuluol drwy raglen Partneriaeth Teuluoedd yn Gyntaf. Mae'r gwasanaethau hollbwysig hyn yn helpu teuluoedd sy'n wynebu heriau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig ac iechyd meddwl, a gallant dorri cylch tlodi.

### Pa rannau o'r DU y bydd y polisïau hyn yn effeithio arnynt?

Mae polisïau Llywodraeth y DU sydd â'r nod o fuddsoddi mewn gwasanaethau i deuluoedd er mwyn torri cylch tlodi yn berthnasol yn Lloegr.

## Gwella canlyniadau drwy waith seiliedig ar le

Mae mynd i'r afael ag anfantais luosog yn rhan o dorri'r cylch er mwyn atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod i bobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf acíwt. Ystyr anfantais luosog yw cyfuniadau o ddigartrefedd, caethiwed, salwch meddwl, cam-drin domestig a chysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Bydd canlyniadau pobl yn y sefyllfa hon yn llawer gwaeth, gan gynnwys disgwyliad oes byrrach mewn rhai achosion.[167] Mae gan lawer o oedolion sy'n wynebu anfantais luosog blant, ac maent hefyd yn debygol iawn o fod mewn diweithdra sydd wedi ymwreiddio ac wynebu anawsterau ariannol sylweddol.

Er mwyn mynd i'r afael ag anfantais luosog, mae angen diwygio'r ffordd y mae gwasanaethau lleol yn cydweithio â'i gilydd i gefnogi pobl mewn argyfwng yn well, atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu a gwella canlyniadau ar gyfer unigolion a'u teuluoedd. Mae Newid y Dyfodol, sef rhaglen drawslywodraethol pum mlynedd o hyd, wedi gweithio mewn 15 o ardaloedd lleol i brofi dulliau, ac mae wedi arwain at well canlyniadau gan gynnwys gostwng lefelau digartrefedd a chysgu allan; lleihau nifer yr achosion o fynd i adrannau damweiniau ac achosion brys; lleihau profiadau o gam-drin domestig, a gwella cydweithio rhwng gwasanaethau. Byddwn yn adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen.

Nod y rhaglen Profi, Dysgu a Thyfu yn Swyddfa'r Cabinet, sy'n werth £100 miliwn, yw cau'r bwlch rhwng polisi a chyflawni, a chyflymu gwelliannau ac arloesedd. Mae'r rhaglen yn gweithio'n agos gyda 10 awdurdod lleol yn Lloegr i brofi ffyrdd newydd o wella gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y rhai sy'n canolbwyntio ar blant, teuluoedd a phobl ifanc dan anfantais er mwyn dysgu beth



sy'n gweithio, a thyfu effaith ar lefel genedlaethol. Mae'r rhaglen yn gweithio gyda'r Adran Addysg, Northumberland a Manceinion ar wella cymorth integredig i deuluoedd er mwyn sbarduno lefel dda o ddatblygiad, yn enwedig ymhlith plant o gefndiroedd difreintiedig. Yn Lerpwl a Plymouth, mae timau amlddisgyblaethol yn helpu i sefydlu a gwella gwasanaethau iechyd yn y gymdogaeth, gan ganolbwyntio ar wella canlyniadau iechyd plant a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Caiff atebion eu datblygu gyda'r bobl sy'n defnyddio ac yn rheoli gwasanaethau cyhoeddus yn y rheng flaen. Bydd hyn yn sicrhau mai pobl a chymunedau sydd wrth wraidd arloesedd mewn gwasanaethau cyhoeddus, a chaiff dirnadaethau a strategaethau llwyddiannus eu helpu i dyfu ar lefel genedlaethol.

### Pa rannau o'r DU y bydd y polisïau hyn yn effeithio arnynt?

Mae polisïau Llywodraeth y DU sydd â'r nod o fuddsoddi mewn gwella canlyniadau drwy waith seiliedig ar le yn berthnasol yn Lloegr. Mae Profi, Dysgu a Thyfu yn berthnasol yn y DU.

## Buddsoddi yn nyfodol pobl ifanc

Bydd y Strategaeth Ieuenctid Genedlaethol yn nodi cyfeiriad newydd ar gyfer pobl ifanc yn Lloegr a chynllun gweithredu ar gyfer ei roi ar waith. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc rhwng 10 a 21 oed, a hyd at 25 oed yn achos pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau. Bydd y strategaeth yn ymdrin â'r ffordd y bydd y Llywodraeth yn rhoi'r sgiliau, y cysylltiadau a'r cyfleoedd i bobl ifanc gael cyfleoedd gwell mewn bywyd a'r ffordd y byddwn yn sicrhau y caiff pob person ifanc ei rymuso, ei werthfawrogi a'i gynnwys yn y gwaith o lywio'r gymdeithas

a'r cymunedau y mae'n rhan ohonynt. Bydd hyn yn cynnwys rhaglen fawr o fuddsoddiad cyfalaf er mwyn datblygu cyfleusterau ieuenctid newydd a gwell ledled y wlad, yn ogystal â chyllid pellach er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau ieuenctid lleol.

Roedd maniffesto'r Llywodraeth yn cynnwys ymrwymiad i gynnal rhaglen Dyfodol Pobl Ifanc yn Lloegr, sy'n cynnwys Partneriaethau Gwaith Atal ar gyfer Dyfodol Pobl Ifanc a Chanolfannau Dyfodol Pobl Ifanc. Bydd Canolfannau Dyfodol Pobl Ifanc yn dod â gwasanaethau ynghyd i wella mynediad at ymyriadau cyngor ar lesiant ar lefel leol er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc. Bydd hyn yn hybu canlyniadau cadarnhaol ac yn eu galluogi i ffynnu. Bydd pob Canolfan Dyfodol Pobl Ifanc yn cyflawni tri chanlyniad, sef cynyddu cyfleoedd, gwella iechyd meddwl a llesiant, a gostwng troseddu. Caiff wyth Canolfan Dyfodol Pobl Ifanc sydd wedi mabwysiadu'r rhaglen yn gynnar eu lansio y flwyddyn ariannol hon, gan lywio'r cynllun hirdymor i 50 o Ganolfannau fod yn weithredol dros y pedair blynedd nesaf. Bydd Partneriaethau Gwaith Atal ar gyfer Dyfodol Pobl Ifanc yn canfod pobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu denu i fyd troseddu ac yn sicrhau y gallant gael cymorth yn lleol, gan gynnwys drwy Ganolfannau Dyfodol Pobl Ifanc.

Fel rhan o'r buddsoddiad newydd hwn mewn pobl ifanc, rydym yn chwalu'r rhwystrau sylweddol sy'n atal pobl ifanc sy'n byw mewn tlodi ac mewn teuluoedd incwm isel rhag cymryd rhan mewn chwaraeon. Mae'r Llywodraeth yn ymrwymo i wario £400 miliwn dros y pedair blynedd nesaf er mwyn cefnogi cyfleusterau chwaraeon cymunedol ar lawr gwlad ledled y DU. Eleni, mae'r Rhaglen Cyfleusterau Llawr Gwlad Aml-gamp yn buddsoddi £98 miliwn ledled y DU, a fydd yn cefnogi ardaloedd mewn angen, a bydd 50% o'r cyllid yn 2025/26 yn mynd i'r 30% o'r ardaloedd â'r mwyaf o amddifadedd, gan sicrhau bod arian yn cyrraedd y cymunedau y mae ei angen arnynt fwyaf.

### Pa rannau o'r DU y bydd y polisïau hyn yn effeithio arnynt?

Mae polisïau Llywodraeth y DU sydd â'r nod o fuddsoddi mewn gweithgareddau ieuenctid yn berthnasol yn Lloegr.

Bydd y Rhaglen Cyfleusterau Gwlad Aml-gamp hefyd yn cael ei chynnal drwy'r Sefydliad Pêl-droed yn Lloegr, Sefydliad Pêl-droed Cymru, Cymdeithas Bêl-droed Iwerddon yng Ngogledd Iwerddon, a Chymdeithas Bêl-droed yr Alban.

## Cefnogi plant a theuluoedd 'heb hawl i gyllid cyhoeddus'

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau y bydd plant mudol agored i niwed yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, waeth beth fo'u statws mewnfudo.

Mae'r Swyddfa Gartref yn ymgysylltu'n rheolaidd ag adrannau ym mhob rhan o'r Llywodraeth ynglŷn â'r mathau o gymorth sydd ar gael a allai fod o fudd uniongyrchol i blant mudol a, lle bo modd, yn ymestyn meini prawf cymhwysedd i gynnwys plant y mae eu teuluoedd yn ddarostyngedig i'r amod 'heb hawl i gyllid cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau a buddiannau megis:

- prydau ysgol am ddim
- 15 awr o ofal plant am ddim ar gyfer plant 2 oed sydd dan anfantais
- 15 awr o ofal plant am ddim ar gyfer plant rhwng 3 a 4 oed



Bydd y Swyddfa Gartref yn parhau i sicrhau y bydd yr adrannau sy'n gyfrifol am weinyddu cynlluniau/mathau o fuddiannau yn ystyried plant mudol heb hawl i gyllid cyhoeddus yn benodol wrth wneud penderfyniadau ynghylch cymhwysedd ar gyfer cynlluniau newydd neu adolygu cymhwysedd ar gyfer buddiannau a chynlluniau sydd eisoes ar waith.

Gwyddom fod awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau cymorth hollbwysig ar gyfer plant a theuluoedd agored i niwed, gan gynnwys teuluoedd heb hawl i gyllid cyhoeddus. Er mwyn sicrhau cysondeb yn y ffordd y caiff gwasanaethau cymorth eu darparu i fudwyr agored i niwed (gan gynnwys plant mudol agored i niwed), a rhoi eglurder ynglŷn â'r dyletswyddau statudol i gefnogi'r bobl fwyaf anghenus, bydd y Swyddfa Gartref yn cyhoeddi canllawiau newydd ar gyfer awdurdodau lleol. Yn benodol, bydd y canllawiau'n rhoi eglurder ynglŷn â mesurau diogelu allweddol, megis y ffordd y caiff Adran 17 o'r Ddeddf Plant ei dehongli, a fydd yn helpu awdurdodau lleol i ddeall eu dyletswyddau statudol a rhyngweithio â'r amod 'heb hawl i gyllid cyhoeddus' ac yn galluogi ceisiadau am gymorth i gael eu prosesu'n brydlon.

Ar ben hynny, mae'r Llywodraeth yn parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r amod 'heb hawl i gyllid cyhoeddus' a'i effeithiau. Mae'r Swyddfa Gartref yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddatblygu cwestiynau ar yr amod 'heb hawl i gyllid cyhoeddus' i'w cynnwys yn Arolwg o Adnoddau Teulu 2026/2027, sef arolwg o aelwydydd a gynhelir bob blwyddyn er mwyn archwilio safonau byw yn y DU. Bydd hyn yn meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r ffordd y mae teuluoedd sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus yn byw yn y DU ac yn helpu i lywio polisïau yn y dyfodol.

### Pa rannau o'r DU y bydd y polisïau hyn yn effeithio arnynt?

Mae polisïau Llywodraeth y DU sydd â'r nod o gefnogi plant a theuluoedd 'heb hawl i gyllid cyhoeddus' yn berthnasol yn Lloegr.

Mae'r Set Ddata Aelwydydd Islaw Incwm Cyfartalog yn cwmpasu Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Buddsoddi mewn prosiectau cymunedol a sefydlu gwell perthynas â chymdeithas sifil

Rydym yn ymrwymedig i helpu i greu cymdeithas fywiog a chyfartal ym mhob un o ranbarthau'r DU a buddsoddi yn ein cymunedau. Er mwyn gwneud hynny, byddwn yn chwilio am gyfleoedd i atgyfnerthu ein partneriaethau ag amrywiaeth eang o sefydliadau.

Mae'r Llywodraeth yn sefydlu'r gronfa canlyniadau cymdeithasol fwyaf yn y byd.[168] Caiff £500m o gyllid y Llywodraeth ei fuddsoddi yn y Gronfa Dyfodol Gwell dros 10 mlynedd er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc agored i niwed a'u teuluoedd. Mae gan y Gronfa y potensial i gyrraedd cyfanswm o £1 biliwn o gyllid er mwyn galluogi cydweithio rhwng y Llywodraeth, cymunedau lleol, elusennau a mentrau cymdeithasol, buddsoddwyr effaith gymdeithasol a dyngarwyr. Ar gyfer Lloegr mae'r Gronfa, a bydd cyllid canlyniadol Barnett yn cael ei roi i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Cyllid ar gyfer comisiynu Partneriaethau Canlyniadau Cymdeithasol fydd hwn yn bennaf, a bydd taliadau'r Llywodraeth yn gysylltiedig â sicrhau gwelliannau mesuradwy ym mywydau pobl, megis cynyddu sefydlogrwydd teuluoedd a chyrhaeddiad yn yr ysgol, trechu digartrefedd, a gostwng aildroseddu ymhlith pobl ifanc. Bydd prosiectau a ariennir gan y Gronfa yn rhan greiddiol o amcanion y strategaeth hon, gan gynnwys lleihau effeithiau tlodi plant a thorri cylch tlodi ar draws y cenedlaethau.

Rydym yn atgyfnerthu ein partneriaeth â'r sector mentrau cymdeithasol cymunedol gwirfoddol drwy ein Cyfamod Cymdeithas Sifil. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod mai'r sector hwn yw sylfaen ein cymunedau ac mae'n newid y berthynas rhwng y Llywodraeth a chymdeithas sifil ehangach yn sylfaenol.

Mae gan y sector hanes cadarn o gefnogi plant a theuluoedd mewn tlodi, gan ddangos beth sy'n bosibl. Mae'n hanfodol ein bod yn gosod y sylfeini er mwyn i'r gwaith hwn barhau, drwy ddyfnhau'r bartneriaeth rhwng y Llywodraeth a'r sector.

Er mwyn helpu i wireddu nodau'r Cyfamod ar y lefel leol, bydd y Llywodraeth yn lansio rhaglen 'Partneriaethau Lleol y Cyfamod' er mwyn helpu i gefnogi gwaith a chyflawni mewn partneriaeth rhwng sefydliadau cymdeithas sifil, awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus mewn detholiad o ardaloedd lle mae'r angen mwyaf.

Fel rhan o'n gwaith ar yr Economi Effaith, mae gan y Llywodraeth dair prif flaenoriaeth ar gyfer dyngarwch: cysylltu buddsoddiad dyngarol â'r lleoedd sydd ei angen fwyaf, datgloi buddsoddiad dyngarol ychwanegol, a gweithio mewn partneriaeth â chymdeithas sifil, cymunedau, rhoddwyr a busnesau i ddathlu diwylliant o roi. Fel rhan o hyn, rydym yn archwilio sut y gall y Llywodraeth greu amgylchedd sy'n annog dyngarwyr i gefnogi cymunedau lleol ledled y wlad a sicrhau y caiff manteision cyllid dyngarol eu teimlo'n gyfartal.

Ym mis Medi, gwnaethom gyhoeddi Rhaglen Balchder Bro, a fydd yn darparu hyd at £5 biliwn o gyllid i 244 o’r lleoedd mwyaf anghenus ym Mhrydain Fawr. Ym mhob lleoliad, caiff y buddsoddiad ei wario gan Fwrdd Cymdogaeth ar flaenoriaethau trigolion lleol, gan roi cyfle i gymunedau fuddsoddi mewn mesurau a fydd yn rhoi cymorth i deuluoedd er mwyn iddynt allu fforddio costau byw. Bydd rhestr ddangosol o ymyriadau, er mwyn helpu i arwain a llywio’r gwaith o ddatblygu cynlluniau buddsoddi lleol, yn cynnwys mesurau i drechu tlodi plant, fel sefydlu siopau cymunedol newydd a fydd yn cynnig bwyd a gwisgoedd ysgol am bris gostyngol, cyngor ar ddyledion, ceginau cymunedol neu eitemau hanfodol er mwyn helpu i fynd i’r afael â thlodi dodrefn.

## Astudiaeth Achos: Effaith Gymdeithasol

Wrth ddatblygu’r strategaeth hon, rydym wedi gweld y gwaith pwysig sy’n cael ei wneud drwy Effaith Gymdeithasol. Mae sefydliadau’n cyfrannu egni a dulliau o fynd i’r afael ag effaith tlodi sy’n arloesol ac wedi’u targedu. Dyma rai yn unig o’r enghreifftiau:

Mae **BBC Plant mewn Angen** wedi datblygu Cymunedau dros Blant, sef rhaglen ledled y DU a gyhoeddwyd ar 25 Medi 2025. Rhaglen gydweithredol strategol â phedwar cyllidwr arall yw hon, a’i nod yw buddsoddi mewn 10 cymuned ledled y DU. Rhaglen newid systemig a seiliedig ar le ydyw, a bydd yn grymuso cymunedau i ddatblygu eu hatebion lleol eu hunain ar gyfer trechu tlodi plant. Drwy weithio’n systematig i fynd i’r afael ag effaith tlodi plant ar fywydau plant a phobl ifanc yn eu cyd-destunau lleol, bydd y prosiectau ledled y DU yn ceisio torri cylchoedd anfantais a chreu’r amodau a fydd yn galluogi plant a phobl ifanc i ffynnu.

Gwnaeth **Rethink Food** dreialu’r **Rhwydwaith Pantrïoedd Ysgolion Cenedlaethol** mewn ysgolion cynradd mewn ardaloedd o amddifadedd uchel. Mae’r Rhwydwaith yn rhoi seilwaith, hyfforddiant a chyllid i ysgolion allu sefydlu pantrïoedd fel canolfannau dibynadwy sydd heb stigma. Bydd pob ysgol yn cael £3,900 (ar gyfer blwyddyn academaidd lawn) i brynu bwyd maethlon, cymorth cynefino, adnoddau monitro effaith, a mynediad at rwydwaith dysgu digidol.

Mae **Cyngor Camden** a **Nesta** wedi datblygu’r Grant Beichiogrwydd Canolfannau Teuluol drwy genadaethau’r Cyngor, tasglu Raise Camden, a chenhadaeth A Fairer Start Nesta er mwyn profi ffyrdd newydd o gefnogi teuluoedd yn gynharach. Mae’r grant peilot yn trosglwyddo £500 o arian parod diamod i rieni incwm isel yn ystod tri mis olaf beichiogrwydd. Caiff y teuluoedd eu hadnabod drwy ddata cysylltiol y GIG a’r system fudd-daliadau, gan olygu nad oes angen iddynt wneud cais. Hefyd, bydd hanner y teuluoedd yn cael ymweliad dilynol gan Gyfeiriwr Teuluoedd a fydd yn cynnig cyflwyniad personol i rieni i wasanaethau’r Canolfannau Teuluol, gan gynnwys cyngor ariannol a chymorth blynyddoedd cynnar.

## Pa rannau o'r DU y bydd y polisïau hyn yn effeithio arnynt?

Mae polisïau Llywodraeth y DU sydd â'r nod o fuddsoddi mewn prosiectau cymunedol a sefydlu gwell perthynas â chymdeithas sifil yn berthnasol yn Lloegr yn bennaf.

## Cyfeiriadau

147 Changing Realities (2025). Ar gael yn: changingrealities.org

148 Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2024). How have English councils' funding and spending changed? 2010 to 2024. Ar gael yn: How have English councils' funding and spending changed? 2010 to 2024 | Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

149 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025). Children in low income families: local area statistics 2014 to 2024. Ar gael yn: Children in low income families: local area statistics 2014 to 2024 - GOV.UK

150 Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2025). The short- and medium-term effects of Sure Start on children's outcomes. Ar gael yn: The short- and medium- term effects of Sure Start on children's outcomes

151 Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2024). Youth provision and life outcomes research. Ar gael yn: Youth provision and life outcomes

152 Sport England (2024) Active Lives Children and Young People Survey Academic Year 2023-24. Ar gael yn: Active Lives | Sport England

153 The King's Fund (2024). Illustrating the relationship between poverty and NHS services. Ar gael yn: The Relationship Between Poverty And NHS Services | The King's Fund

154 Bidmead et al (2023). Poverty Proofing health care: a qualitative study of barriers to accessing health care for low income families with children in Northern England. Ar gael yn: Poverty Proofing health care: a qualitative study of barriers to accessing health care for low income families with children in Northern England | medRxiv

155 Y Sefydliad Iechyd (2024). What is happening to young people's mental health? Ar gael yn: What is happening to young people's mental health? - Y Sefydliad Iechyd

156 The Lancet Public Health (2022). Child poverty and children entering care in England, 2015–20: a longitudinal ecological study at the local area level. Ar gael yn: Child poverty and children entering care in England, 2015–20: a longitudinal ecological study at the local area level - The Lancet Public Health

157 Harrison, Dixon, Sanders-Elis, Ward ac Asker (2023). Care leavers' transition into the labour market in England. Ar gael yn: Microsoft Word - Adroddiad terfynol ar ddeilliannau addysgol hydredol - Ionawr 2023

158 Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin (2024). Support for care leavers. Ar gael yn: CBP-8429.pdf

159 Murray, Lacey, Maughan a Sacker (2020). Non-parental care in childhood and health up to 30 years later: ONS Longitudinal Study 1971–2011. Ar gael yn: Non-parental care in childhood and health up to 30 years later: ONS Longitudinal Study 1971–2011 | European Journal of Public Health | Oxford Academic

160 Public Health England, y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (2021). Looked-after children and young people. Ar gael yn: Looked-after children and young people

161 Viner a Taylor (2005). Adult Health and Social Outcomes of Children Who Have Been in Public Care: Population-Based Study. Ar gael yn: Adult Health and Social Outcomes of Children Who Have Been in Public Care: Population-Based Study | Pediatrics | American Academy of Pediatrics

162 Coleg Prifysgol Llundain (2024). Children of care leavers risk inheriting parent's emotional scars. Ar gael yn: Children of care leavers risk inheriting parents' emotional scars | UCL News - UCL – Coleg Prifysgol Llundain

163 Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2025). Local Government outcomes Framework: Call for Feedback. Ar gael yn: Local Government Outcomes Framework – Priority outcomes and draft metrics

164 Llywodraeth EF (2021). The best start for life: a vision for the 1,001 critical days. Ar gael yn: The best start for life: a vision for the 1,001 critical days - GOV.UK

165 Harrison, Dixon, Sanders-Elis, Ward ac Asker (2023). Care leavers' transition into the labour market in England. Ar gael yn: Microsoft Word - Adroddiad terfynol ar ddeilliannau addysgol hydredol - Ionawr 2023

166 Murray, Lacey, Maughan a Sacker (2020). Non-parental care in childhood and health up to 30 years later: ONS Longitudinal Study 1971–2011. Ar gael yn: Non-parental care in childhood and health up to 30 years later: ONS Longitudinal Study 1971–2011 | European Journal of Public Health | Oxford Academic

167 CFE Research a Phrifysgol Sheffield (2022). The Fulfilling Lives programme: supporting people experiencing multiple disadvantage. Ar gael yn: Summary-of-programme-achievements-evaluation-findings-learning-and-resources-2022.pdf

168 Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2025). Guidance: Social Outcomes partnerships and the Life Changes Fund. Ar gael yn: Social Outcomes Partnerships and the Life Chances Fund - GOV.UK

# Pennod 6: Gobaith ar gyfer y dyfodol

Mae'r Llywodraeth hon yn gweithredu i droi'r llanw ar dlodi plant ond, er mwyn gwneud y newid hwn, bydd angen consensws, partneriaeth a gweithredu ar y cyd. Ni all y Llywodraeth gyflawni'r nod hwn ar ei phen ei hun. Rydym wedi sicrhau bod lleisiau plant a theuluoedd sydd mewn tlodi wrth wraidd ein gwaith ac wedi clywed sut y gall amrywiaeth eang o systemau a gwasanaethau, yn y Llywodraeth, mewn ardaloedd lleol ac yn y trydydd sector a'r sector preifat ddod ynghyd i gefnogi plant a theuluoedd.

Mae ein dull cydweithredol wedi bod yn allweddol i gyflawni'r strategaeth hon. Yn benodol, rydym wedi ymgysylltu mewn modd ystyrlon a strwythuredig â phlant a'u teuluoedd, gan wrando'n astud ar eu lleisiau a datblygu ein strategaeth yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u profiadau.

Ers i'r tasglu gael ei sefydlu, rydym wedi ymgysylltu â phlant a rhieni, cymdeithas sifil, sefydliadau ffydd, undebau llafur, busnesau, sefydliadau rheng flaen, awdurdodau lleol a strategol, seneddwyr, academyddion, a phlant a theuluoedd. O ganlyniad i hyn, rydym wedi ymgysylltu 230 o weithiau â 180 o sefydliadau, a hynny'n rhannol drwy ein partneriaethau agos â Changing Realities, Achub y Plant, y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, Cyngor ar Bopeth, IPPR, a Biwro Cenedlaethol y Plant.

Nid dim ond yn Llundain y mae hyn wedi digwydd, ac mae cyfarfodydd bord gron wedi cael eu cynnal yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon lle roedd gweinidogion o'r priod wledydd yn bresennol. Hefyd, mae gweinidogion a swyddogion wedi bod i holl ranbarthau Lloegr i gwrdd â chynrychiolwyr allweddol ym maes tlodi plant ac ymweld â phrosiectau cyflawni rheng flaen.

Rydym hefyd wedi cael cymorth medrus gan y Grŵp Cyfeirio Arbenigol Dadansoddol ar Dlodi Plant, sydd wedi dod â'r arbenigedd allanol ym maes tlodi plant ynghyd i roi cyngor a chraffu ar y gwaith dadansoddi sydd wedi bod yn sail i'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth.

Dim ond megis dechrau yw cyhoeddi'r strategaeth. Bydd mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n achosi tlodi yn cymryd amser, ac ni ellir sicrhau canlyniadau dros nos. Ochr yn ochr â'r strategaeth, rydym wedi nodi ein cynlluniau cychwynnol ar gyfer ei monitro a'i gwerthuso, i sicrhau ei bod ar y trywydd cywir i leihau tlodi plant, er mwyn i ni barhau i ddysgu beth sy'n gweithio a chyflwyno'r achos gorau dros gymorth parhaus. Mae'r fframwaith monitro a gwerthuso yn adeiladu ar y dull llwyddiannus a chydweithredol a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r strategaeth, ac mae'n ymrwymo i fod yn dryloyw ac yn atebol a dysgu'n barhaus.[169] Un rhan hollbwysig o hyn yw ein pwyslais parhaus ar glywed yn uniongyrchol gan blant a theuluoedd er mwyn llywio'r gwaith parhaus o gyflawni a gwerthuso'r strategaeth.

Bydd manylion pellach am y dull monitro a gwerthuso yn dilyn mewn adroddiad sylfaenol yn ystod haf 2026. Bydd hyn yn adlewyrchu'r dystiolaeth a'r ystadegau diweddaraf ac yn rhoi rhagor o fanylion am gynlluniau ar gyfer rhaglen lawn o adroddiadau a dadansoddiadau. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol bob haf wedi hynny er mwyn monitro a gwerthuso



cynnydd dros amser ac yn erbyn y sefyllfa sylfaenol.

Caiff y rhaglen waith hon ei hategu a'i chyflawni gan Dîm Tlodi Plant o fewn yr Adran Gwaith a Phensiynau, gyda throsolwg gweinidogol trawslywodraethol rheolaidd ar y ffordd y caiff y strategaeth hon ei rhoi ar waith. Mae trechu tlodi plant yn rhan allweddol o'r Genhadaeth ar Gyfleoedd o hyd.

Dim ond y cam cyntaf ar y daith tuag at leihau tlodi plant dros y degawd nesaf a thu hwnt yw'r strategaeth hon. I wneud hyn, rydym yn awyddus i barhau â'n gwaith gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a'n partneriaid yn y sector preifat a'r trydydd sector er mwyn ysgogi camau gweithredu ac adeiladu arnynt, oherwydd, er bod gan y Llywodraeth genedlaethol rôl hanfodol i'w chyflawni er mwyn trechu tlodi plant, ni all wneud hynny ar ei phen ei hun. Rydym yn ddiolchgar i'r holl sefydliadau ac unigolion a roddodd o'u hamser i rannu eu harbenigedd, cyflwyno tystiolaeth, neu drefnu digwyddiadau er mwyn ymgysylltu â'r Tasglu Tlodi Plant.

Mae hyn yn cynnwys dros 360 o oedolion ifanc a rhieni/gofalwyr sydd wedi rhannu safbwyntiau amhrisiadwy â ni ac wedi rhoi o'u hamser yn hael i rannu eu profiad bywyd fel rhan o ddigwyddiadau rhanddeiliaid, trafodaethau bord gron a gweithdai yn ystod y broses o ddatblygu'r strategaeth hon.

> ***"Rwy'n gwerthfawrogi'r cyfle i rannu hyn, oherwydd bydd y gwirioneddau hyn yn aml yn cael eu colli pan fydd pobl yn siarad am gyfleoedd – nid ydynt yr un peth i bawb. Mae'n galonogol gwybod bod y lleisiau hyn yn cael eu clywed."***
>
> (Rudy T, Changing Realities)[170]



## Cyfeiriadau

169 Swyddfa'r Cabinet (2025). Child Poverty Strategy Monitoring and Evaluation Framework. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/child-poverty-strategy-monitoring-and-evaluation-framework

170 Changing Realities (2025). Ar gael yn: changingrealities.org

## Rhestr Termau

**Aelwyd** – term y gellir ei ddefnyddio'n gyfnewidiol ond, at ddiben y ddogfen hon, fe'i diffinnir fel yr holl bobl sy'n byw mewn uned drigo.

**Incwm cymharol isel** – bydd plentyn mewn incwm cymharol isel os bydd yn byw ar aelwyd ag incwm sy'n is na 60% o ganolrif incwm cyfwerthedig aelwydydd. Dyma'r prif fesur tlodi a ddefnyddir yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ac yma defnyddiwn fersiwn y DU, sy'n seiliedig ar incwm ar ôl costau tai.

**Nawdd cymdeithasol** – cymorth ariannol gan y llywodraeth i unigolion ac aelwydydd er mwyn sicrhau mynediad at ofal iechyd a gwarantu sicrwydd incwm.

**Plant** – plant a phobl ifanc rhwng 0 a 18 oed, ond diffiniad Aelwydydd Islaw Incwm Cyfartalog a ddefnyddir yn bennaf gan yr ystadegau, sef unigolyn o dan 16, neu rhwng 16 a 19 oed, nad yw'n briod nac mewn partneriaeth sifil nac yn byw gyda phartner; ac sy'n byw gyda'i rieni/gydag oedolyn cyfrifol; ac sydd mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu'n cael hyfforddiant digyflog gan y Llywodraeth.

**Rhieni** – y prif rai sy'n rhoi gofal i blant.

**Senedd** – corff deddfwriaethol cenedlaethol lle y bydd cynrychiolwyr etholedig a phenodedig yn trafod ac yn creu deddfau, yn ffrwyno'r llywodraeth, ac yn cymeradwyo trethi. Ymhlith prif swyddogaethau senedd mae craffu ar y llywodraeth, gwneud neu newid deddfau, a thrafod materion pwysig. Mae'r ymadrodd 'yn ystod y senedd hon' neu 'ddiwedd y senedd hon' yn cyfeirio at y cyfnod rhwng un etholiad cyffredinol a'r nesaf.

**Teulu** – term sydd wedi cael ei ddefnyddio'n gyfnewidiol yn y ddogfen hon. Gellir ei ddiffinio fel yr holl bobl sy'n byw mewn un uned drigo, ond gall ystyried eraill sy'n rhoi gofal hefyd.

**Tlodi materol dwfn** – mesur newydd a ddatblygwyd ar gyfer y Strategaeth sy'n seiliedig ar amddifadedd materol. Fe'i datblygwyd i roi adlewyrchiad gwell o brofiad plant mewn tlodi dyfnach, ac mae'n seiliedig ar fod yn brin o bedwar neu fwy o 13 o eitemau hanfodol.

## Cydnabyddiaethau

Diolch i'r holl unigolion, yn enwedig y plant, rhieni a gofalwyr a rannodd eu profiadau, a'r sefydliadau rhanddeiliaid a gyfrannodd dystiolaeth a syniadau ar gyfer y strategaeth hon.

Hoffem ddiolch yn arbennig i Kim, Ella, Jonny a Tayyaba a'r rhieni a'r gofalwyr eraill sy'n rhan o Changing Realities; i Cyngor ar Bopeth, Biwro Cenedlaethol y Plant, Achub y Plant, IPPR a'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant; ac i aelodau ein Grŵp Cyfeirio Arbenigol Dadansoddol.

Rydym hefyd wedi cael llawer o gyfraniadau eraill, gan gynnwys gan:

38 Degrees; Rhwydwaith Tlodi Plant Llundain 4in10; A Better Start Southend; Elusen Plant Aberlour; Gweithredu dros Blant; Gweithredu dros Blant Gogledd Iwerddon; Elusen Plant Alder Hey; Elusen Alexandra Rose; Y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Dlodi a Mudo; AllChild; ALLFIE; Anti-Bullying Alliance; Asda; Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant; Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd; ATD 4th World UK; Atlas Women's Centre; Cyngor Barking a Dagenham; Barnardo's; Barnardo's Cymru; BBC Plant mewn Angen; Belina Grow CIC; BEMIS; Sefydliad Bevan; Black Equity Organisation; Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain; Bremner & Co.; Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr; Bytes; Cyngor Camden; Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr; Canolfan y Gyfraith Canolbarth Lloegr; Canolfan Ragoriaeth mewn Gofal ac Amddiffyn Plant; Canolfan Polisi Bwyd, City St George's, Prifysgol Llundain; Canolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Ranbarthol (CRESR), Prifysgol Sheffield Hallam; Y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol; Centre for Young Lives; Y Sefydliad Ymddygiad Heriol; Changing Realities; Y Sefydliad Tai Siartredig; Chefs in Schools; Rhwydwaith CHAMPs Swydd Gaer a Glannau Mersi; Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant; Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant yr Alban; Rhaglen Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc; Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban; Children First; Plant yng Nghymru; Children North East; Comisiynydd Plant Lloegr; Comisiynydd Plant Cymru; Children's Prosperity Plan; Cynghrair Hawliau Plant Lloegr; Chinuch UK; Christians Against Poverty; Eglwys Lloegr; ChurchWorks; Cyngor ar Bopeth; Cyngor ar Bopeth Cymru; Cyngor ar Bopeth New Forest; Cyngor ar Bopeth yr Alban; Citizens UK; Cyngor Dinas Lincoln a Chyngor Dosbarth Gogledd Kesteven; Close the Gap; Y Gynghrair Hawliau a Chydraddoldeb Hil; Y Pwyllgor ar Dlodi Tanwydd; Adfywio Cymunedol yn Eglwys Lloegr; Cydffederasiwn Diwydiant Prydain; Connect Public Affairs; Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr; Contact; Co-op; CoParent Coalition; COSLA; Iechyd y Cyhoedd Cyngor Dinas Coventry; Cyngor Coventry; Crisis; Cyngor Cumberland; Cyngor Sir Ddinbych; Donate to Educate; E.ON UK; Ealing Multibank; Y Gynghrair Dileu Tlodi Plant; Cynghrair Dileu Tlodi Plant yr Alban; End Child Poverty England; Y Bwrdd Ymddygiad Gorfodi; Engender; EPI; Sefydliad Ethos a NESTA; Fair By Design; Y Gynghrair Addysg Deg; Grŵp Llywio Ieuenctid y Gynghrair Addysg Deg; Fair4AllFinance; Faith in Families; Families Outside; Family Action; Family Fund; Feeding Britain; Prosiect Felix; Fife Gingerbread; First Steps Nutrition Trust; Flic; Y Sefydliad Bwyd; Gingerbread; Cyngor Dinas Glasgow; Cynghrair Anabledd Glasgow; Sefydliad Good Things; Great Academy Ashton; Awdurdod Llundain Fwyaf; Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf; Prosiectau Ymchwil Cydweithredol ar Benderfynyddion Iechyd; Y Sefydliad Iechyd; Healthy Me Healthy Communities; Helen Rowe; Home Start UK; Home-Start UK; Iceland; Tîm Mewnfudo Rights of Women; Impact on Urban Health; In Kind Direct; Includem; Inclusion Scotland; IncomeMax; Y Rhwydwaith Cymorth Bwyd Annibynnol; Inspiring Scotland; Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid; Y Sefydliad Ymchwil Polisi, Prifysgol Caerfaddon; Y Sefydliad

Ymchwil Polisi Cyhoeddus; Sefydliad yr Ymwelwyr Iechyd; Sefydliad Pontio'r Cenedlaethau; Sefydliad Interlink; Elusen John Lyon; Sefydliad Joseph Rowntree; Sefydliad Joseph Rowntree yn yr Alban; Kelloggs; Kids Matter; King's Fund; Ymddiriedolaeth y Brenin; Kinship; Sefydliad KPMG; La Leche League Collective; Cyngor Swydd Gaerhirfryn; Canolfan y Gyfraith Gogledd Iwerddon; Rhwydwaith Anableddau Dysgu Llundain; Cyngor Dinas Leeds; Let's End Poverty; Lidl; Prifysgol Lipscombe; Awdurdod Cyfun Dinas-ranbarth Lerpwl; Gweithredu Lleol ar Dlodi Plant; Cymdeithas Llywodraeth Leol; Bwrdd Plant a Phobl Ifanc y Gymdeithas Llywodraeth Leol; Bwrdeistref Barking a Dagenham yn Llundain; Bwrdeistref Hackney yn Llundain; Cyngor Dinas Manceinion; Marie Curie; Maternity Action; Mayor's Fund for London; MCR Pathways; Aelodau a chyn-aelodau o Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi; Mencap; Cyngor Merton; Yr Eglwys Fethodistaidd; Migration Policy Scotland; Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau; Money Wellness; Morrisons; Biwro Cenedlaethol y Plant; Yr Undeb Addysg Cenedlaethol; Y Gymdeithas Llywodraethiant Genedlaethol; Y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol; Y Fforwm Meincnodi Gadael Gofal Cenedlaethol; Rhwydwaith Cenedlaethol Fforymau Rhieni a Gofalwyr; Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl; Y Rhwydwaith Pantrïoedd Ysgolion Cenedlaethol; Nest Insight; Nesta; Cydffederasiwn y GIG; NIAPN; NICVA; NIHRC; Comisiwn Tlodi Plant Gogledd-ddwyrain Lloegr; Rhwydwaith Gwrth-dlodi Gogledd Iwerddon; Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon; Rhwydwaith NRPF; NSPCC; Y Swyddfa Gwella Iechyd a Gwahaniaethau; Ofgem; One Parent Families Scotland; Our Time; Oxfam; Cyngor Swydd Rydychen; Ymddiriedolaeth Ddatblygu Paddington; Y Sefydliad Rhieni-Babanod; Parenting Focus; Parentkind; Ymddiriedolaeth Gymunedol Pelican Park; Place Matters; Policy in Practice; Poverty Alliance; Comisiwn Tlodi ac Anghydraddoldeb yr Alban; Praxis; Project 17; ProMo-Cymru; Cyngor Dinas Hull; Public Health Scotland; Iechyd Cyhoeddus Cymru; RCPHC; Sefydliad Resolution; Resolve Poverty; Rethink Food; Rights of Women; Prifysgol Robert Gordon; Ymddiriedolaeth Robertson; Bwrdeistref Frenhinol Greenwich; Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant; Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith; Y Rhwydwaith Cymunedau Gwledig; Sainsbury's; Byddin yr Iachawdwriaeth; Achub y Plant; Achub y Plant yn yr Alban; School Food Matters; Cyngor Mudiadau Gwirfoddol yr Alban; Ffederasiwn Cymdeithasau Tai yr Alban; Rhwydwaith Pantrïoedd yr Alban; Cyngres Undebau Llafur yr Alban; Scottish Women's Budget Group; Undeb Credyd Scotwest; Cyngor Sefton; Sefydliad Share; Shelter; Shelter Cymru; Sight Support Hey (Sight Support kids); Single Parents Rights; Social Work Scotland; Cyngor Southwark; St Michaels St Vincent de Paul; Elusen Dyled StepChange; Cyngor Sir Surrey; Sustain; Teach First; Tesco; TGP Cymru; The Bread and Butter Thing; Sefydliad y Plant; Cymdeithas y Plant; The Cottage Family Centre; Y Cyngor dros Blant Anabl; Y Bartneriaeth Plant Anabl; Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Blant; Awdurdod Cyfun Maer Gogledd-ddwyrain Lloegr; Y Brifysgol Agored; The Promise; Y Coleg Nyrsio Brenhinol; The Women's Budget Group; Thrive at Five; Thrive Together Birmingham; Tops Day Nurseries; Cyngres yr Undebau Llafur; Triple P; Ymddiriedolaeth Trussell; Ymddiriedolaeth Trussell yn yr Alban; Turning Point Scotland; Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU; Rhwydwaith Meiri'r DU; UKRN; UNICEF Scotland; UNICEF UK; UNSAIN; Prifysgol Birmingham; Prifysgol Northampton; Prifysgol Rhydychen; Prifysgol Ulster; Prifysgol Caerefrog; Urban Heath; USDAW; Utilita; Waitrose; Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru; Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; Water UK; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Awdurdod Cyfun Gorllewin Canolbarth Lloegr; Cyngor Dinas Westminster; Whizz Kidz; Who Cares? Scotland; Cymorth i Fenywod; Women's Support Network; Women's Consortium; Sefydliad Wonder; Working Families; YMCA; Youth Sport Trust; Z2K.

## Grŵp Cyfeirio Arbenigol Dadansoddol

Jonathan Bradshaw, Prifysgol Caerefrog; Mike Brewer, Sefydliad Resolution; Emma Congreve, Sefydliad Fraser Allander, Prifysgol Strathclyde; Sara Davies, Prifysgol Bryste; Ciara Fitzpatrick, Prifysgol Ulster University a'r Sefydliad Cyfiawnder Trosiannol; David Gordon, Prifysgol Bryste; Sefydliad Tlodi Bryste; Canolfan Townsend ar gyfer Ymchwil i Dlodi Rhyngwladol; Rod Hick, Prifysgol Caerdydd; Donald Hirsch, Prifysgol Loughborough; Tim Leunig, Public First/Ysgol Economeg Llundain; Peter Matejic, Sefydliad Joseph Rowntree; Jane Millar, Prifysgol Caerfaddon; Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant; Carey Oppenheim, Sefydliad Nuffield; Ysgol Economeg Llundain; Y Comisiwn Tlodi Plant; Ruth Patrick, Prifysgol Glasgow; Kitty Stewart, Ysgol Economeg Llundain, y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol; Tom Waters, y Sefydliad Astudiaethau Cyllid.






E03347909
978-1-5286-5673-3